sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC




Cyhoeddwyd 30 Tachwedd 2022

# Cynnwys


Trosolwg ........ 2

Diben Cyhoeddus 1: Newyddion a materion cyfoes ........ 8

Diben Cyhoeddus 2: Dysgu ........ 19

Diben Cyhoeddus 3: Naws unigryw ........ 28

Diben Cyhoeddus 4: Y Gwledydd a’r Rhanbarthau, ac Amrywiaeth ........ 38

Effaith y BBC ar gystadleuaeth ........ 53

Safonau o ran Cynnwys ........ 61

Y camau nesaf a blaenoriaethau allweddol ........ 72

# Trosolwg

Ofcom sy'n gyfrifol am ddal y BBC i gyfrif ar ran cynulleidfaoedd. Rydym yn gwneud hyn mewn tair ffordd: goruchwylio perfformiad y BBC i sicrhau ei fod yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus; diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol; a sicrhau safonau cynnwys yn rhaglenni'r BBC. Bob blwyddyn, fel y nodir yn Siarter a Chytundeb Fframwaith y BBC, rydym yn cyhoeddi adroddiad ar berfformiad y BBC yn y tri maes yma, a sut aethom ati i gyflawni ein rôl.

Hwn yw ein pumed Adroddiad Blynyddol ar y BBC ac, yn gyffredinol, rydym o'r farn bod y BBC yn parhau i gyflawni ei gylch gwaith. Yn y prif adroddiad hwn, rydym yn crynhoi perfformiad y BBC ar draws holl feysydd ein gwaith rheoleiddio yn 2021 a hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/2022, a hefyd yn ystyried rhai datblygiadau mwy diweddar. Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, rydym wedi sicrhau bod y data sy'n cefnogi ein hasesiad ar gael – gweler yr *Adroddiad perfformiad rhyngweithiol*. Rydym hefyd yn cyhoeddi asesiad o gydymffurfiad y BBC â Thrwydded Weithredu gyfredol y BBC – gweler *Atodiad 1: Cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol*.

**Mae'r BBC yn dal i gyrraedd cyfran helaeth o'r boblogaeth wrth iddo ddathlu ei ganmlwyddiant**

Mae tua wyth o bob deg o bobl 16 oed a hŷn yn rhyngweithio â chynnwys y BBC bob wythnos yn y DU.[1] Ar ben hynny, mae'r BBC yn cyrraedd 68% o'r rheini sydd rhwng 3 ac 16 oed bob wythnos.[2] Yn unol â thueddiadau ehangach y farchnad, mae cyrhaeddiad cyffredinol sianeli darlledu'r BBC wedi parhau i ostwng, yn enwedig ymysg cynulleidfaoedd iau, tra mae'r defnydd o'i wasanaethau ar-lein fel BBC iPlayer a BBC Sounds yn cynyddu. Yn ôl y BBC, cafodd rhaglenni eu ffrydio dros 6.6 biliwn o weithiau ar BBC iPlayer yn 2021/2022, sydd 8% yn uwch na'r llynedd.[3]

**Mae gan y BBC rôl allweddol i'w chwarae o ran hysbysu, addysgu a diddanu cynulleidfaoedd yn y DU**

Mae'r BBC yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys unigryw o ansawdd uchel ar draws ei wasanaethau. Mae ei gynnwys dysgu ffurfiol ar gyfer plant yn parhau i gael ei ddefnyddio'n helaeth a'i barchu'n fawr gan gynulleidfaoedd. Hefyd, mae'r BBC wedi rhoi sylw i rai o'r digwyddiadau mwyaf a oedd o ddiddordeb cenedlaethol ar ei wasanaethau dros y 18 mis diwethaf, gan ddod â chynulleidfaoedd o bob cwr o'r DU at ei gilydd. Er enghraifft, darlledwyd angladd gwladol EM Brenhines Elizabeth II ar 52 o sianeli yn y DU, a BBC One wnaeth ddenu'r gynulleidfa fwyaf gyda 65.3% o'r holl wylwyr yn y DU.[4] Mae darllediadau eraill pwysig wedi cynnwys y rhyfel yn Wcráin, yn ogystal â digwyddiadau fel pencampwriaeth Ewro 2020 y dynion, Gemau Olympaidd yr Haf yn Tokyo, a phencampwriaeth Ewro 2022 y menywod.

**Mae'n bwysig bod y BBC yn parhau i gynnig ystod eang o gynnwys a darpariaeth newyddion i gynulleidfaoedd ym mhob cwr o'r DU**

Y BBC yw prif ffynhonnell newyddion y DU o hyd, ac mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi ystod eang ei ddarpariaeth. Yn 2021/22, defnyddiodd 73% o'r oedolion yn y DU wasanaeth y BBC ar gyfer newyddion.[5] Mae'r BBC wedi nodi cynlluniau i foderneiddio ei arlwy newyddion, gan gynnwys cyfuno sianel BBC News yn y DU a'r sianel World News sy'n canolbwyntio ar faterion rhyngwladol, i greu un

[1] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22.
[2] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2021/22.
[3] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22, t.4.
[4] BARB, data gwylio'n fyw yn unig, holl unigolion 4 oed a hŷn ar set deledu yn unig. Wrth ychwanegu gwylwyr o sianeli eraill y BBC a oedd yn darlledu'r angladd gwladol, roedd y BBC wedi cyrraedd 74% o'r holl wylwyr yn y DU a oedd yn gwylio teledu a ddarlledir ar yr adeg honno.
[5] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2022.

sianel deledu ar gyfer newyddion, yn ogystal â chanolbwyntio mwy ar gynnwys newyddion a materion cyfoes aml-lwyfan. Wrth i'r BBC geisio gwneud y newidiadau hyn, mae'n bwysig ei fod yn parhau i ddarparu amrywiaeth o newyddion a gwybodaeth sy'n ymdrin â materion lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, y DU a rhyngwladol ar gyfer holl gynulleidfaoedd y DU, ym mha bynnag fodd y maent yn dymuno cael gafael ar y cynnwys hwn. Byddwn yn parhau i adolygu hyn wrth i gynlluniau'r BBC ddatblygu.

Mae'r BBC hefyd wedi nodi cynlluniau'n ddiweddar i drawsnewid ei wasanaethau lleol yn Lloegr, gan gynnwys ei orsafoedd radio lleol. Rydym yn trafod gyda'r BBC, a byddwn yn craffu ar ei gynlluniau manwl ar gyfer rhannu rhaglenni ar radio lleol, a chynlluniau eraill y mae'n eu datblygu i ymateb i heriau o ran ymddygiad cynulleidfaoedd yn newid a'r pwysau ariannol y mae'n eu hwynebu. Rydym wedi cyhoeddi cynigion yn ddiweddar ar gyfer Trwydded Weithredu newydd ar gyfer y BBC, lle bydd yn rhaid i'r BBC gyhoeddi rhagor o wybodaeth am sut mae'n darparu cynnwys a gwasanaethau unigryw o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd ar draws y DU. Fel rhan o'n hymgynghoriad, rydym eisoes wedi ymrwymo i oruchwylio ymhellach i ba raddau mae rhaglenni'n cael eu rhannu ar radio lleol. Byddwn hefyd yn ystyried a oes angen cryfhau gofynion y Drwydded Weithredu i sicrhau bod anghenion cynulleidfaoedd y DU yn cael eu diwallu. Os bydd angen, byddwn yn cymryd camau o dan ein pwerau cystadleuaeth i ddiogelu cystadleuaeth.

**Mae'r BBC wedi dechrau cymryd camau i wella sut mae'n delio â chwynion**

Pan wnaethom gyhoeddi ein hadolygiad o reoleiddio'r BBC yn gynharach eleni, gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau sylweddol i system gwynion BBC yn Gyntaf, er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion y gynulleidfa. Ers hynny, mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod wedi ymrwymo i wneud newidiadau i'w brosesau delio â chwynion, ac mae wedi dweud y bydd yn cyflwyno gwelliannau i: amseroedd ymateb; sicrhau bod pob achwynydd yn cael ei drin mewn ffordd gyson; a chynyddu tryloywder y broses. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC i ddeall manylion ei newidiadau arfaethedig a sut bydd y rhain yn gwella profiadau cynulleidfaoedd sy'n dymuno cwyno. Mae'n bwysig bod y BBC yn gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn, a byddwn yn monitro gweithrediad y newidiadau hyn yn ofalus i weld a ydynt yn mynd i'r afael â phryderon cynulleidfaoedd. Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad pellach o'r system BBC yn Gyntaf cyn diwedd cyfnod y Siarter bresennol er mwyn asesu effaith unrhyw newidiadau, a byddwn yn diweddaru ein hymchwil ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o BBC yn Gyntaf yn ystod y ddwy i dair blynedd nesaf.

**Rhaid i'r BBC barhau i ganolbwyntio ar roi sylw i ganfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd**

Fe wnaeth ein hadolygiad o reoleiddio'r BBC hefyd ganfod bod didueddrwydd y BBC yn faes pryder allweddol ymysg cynulleidfaoedd ac yn faes sy'n cael sgôr llai ffafriol nag ymddiriedaeth a chywirdeb yn gyson. Ers hynny, mae'r BBC wedi parhau i roi ei Gynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol ar waith ac mae wedi dweud wrthym fod yr holl ymrwymiadau hyn naill ai wedi'u cwblhau neu ar waith erbyn hyn. Hefyd, er mwyn gwella tryloywder, o ganlyniad i ymyrraeth Ofcom, mae'r BBC nawr hefyd yn cyhoeddi'r rhesymeg y tu ôl i'w benderfyniadau i beidio â chadarnhau cwynion am ddidueddrwydd dyladwy a chywirdeb sy'n cyrraedd cam olaf ei broses. Mae mynd i'r afael â chanfyddiadau cynulleidfaoedd ar y mater hwn yn heriol ac rydym yn cydnabod ei fod yn faes cymhleth. Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y BBC ac rydym yn ei annog i beidio â cholli momentwm yn ei ymdrechion i fynd i'r afael â'r mater hwn.

**Mae'r BBC yn dal i'w chael yn anodd darparu ar gyfer pob cynulleidfa**

Mae rhai cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y BBC yn gyson, ac mae hyn yn arbennig o wir am y rheini mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, sy'n llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau'r BBC na grwpiau cynulleidfa eraill. Ar draws yr holl Ddibenion Cyhoeddus, mae'r cynulleidfaoedd hyn yn dal i roi sgôr is i'r BBC na chynulleidfaoedd y DU yn gyffredinol, ac maent yn llai bodlon â'r BBC yn gyffredinol.[6] O ganlyniad, byddwn yn lansio adolygiad

[6] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22.

y flwyddyn nesaf i ddeall y cynulleidfaoedd hyn yn well, yn ogystal â'u harferion a sut mae'r BBC yn cyflawni ar eu cyfer.

**Byddwn yn parhau i fonitro cynlluniau'r BBC i sicrhau ei fod yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd**

Mae'r BBC yn gweithredu mewn cyfnod o newid sylweddol ar hyn o bryd. Mae ymddygiad cynulleidfaoedd yn parhau i newid yn gyflym ac, ar yr un pryd, mae'r BBC yn wynebu mwy o bwysau ariannol. Mae hyn yn golygu ei bod yn her sylweddol i'r BBC gyflawni ar gyfer pob cynulleidfa, sy'n defnyddio cynnwys mewn ffyrdd sy'n fwyfwy darniog. Felly, mae angen iddo ddod o hyd i ffyrdd newydd o ymgysylltu â'r rheini sydd wedi symud i ddefnyddio cyfryngau ar-lein yn bennaf ac sy'n defnyddio amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer eu cyfryngau, gan barhau i gynnig amrywiaeth eang o gynnwys ar draws ei wasanaethau darlledu traddodiadol, a hyn oll gyda chyllideb sy'n crebachu.

Rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid i'r BBC wneud rhai penderfyniadau anodd wrth iddo geisio ymateb i'r heriau hyn. Wrth wneud hynny, mae'n hanfodol ei fod yn dryloyw ynghylch ei gynlluniau a sut y bydd yn cyflawni ei gylch gwaith. Byddwn yn ymgysylltu â'r BBC wrth i'w gynlluniau esblygu i sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaeth i wasanaethu pob cynulleidfa ar draws y DU gyda chynnwys unigryw o ansawdd uchel o'r DU, sy'n ymdrin ag ystod eang o genres. Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith i ddiweddaru ein prosesau rheoleiddio i sicrhau eu bod yn rhoi'r gefnogaeth orau bosibl i'r BBC wrth ymateb i'r heriau hyn, gan barhau i ddal y BBC i gyfrif yn effeithiol.

## Cyd-destun yr adroddiad eleni

### Wrth i'r BBC dathlu ei ganmlwyddiant, mae wedi nodi cynlluniau i drawsnewid ei wasanaethau

Mae llawer o dystiolaeth bod pobl yn symud yn raddol tuag at wasanaethau ar-lein i wylio a gwrando ar gynnwys, a bod cystadleuaeth frwd am amser cynulleidfaoedd o hyd, yn enwedig gan gwmnïau byd-eang sydd wedi'u cyllido'n dda. Roedd ein hadroddiad Cyfryngau'r Genedl diweddaraf yn dangos, yn dilyn cynnydd mewn lefelau gwylio yn sgil dylanwad pandemig Covid-19 yn 2020, fod y gostyngiad yn yr amser a dreulir yn gwylio teledu a ddarlledir[7] wedi ailddechrau y llynedd. Mae cyfran yr amser gwrando ar sain y gellir ei briodoli i radio byw wedi gostwng hefyd – o 75% yn 2017 i 63% yn 2022.[8]

Ochr yn ochr â hyn, mae'r BBC yn wynebu heriau ariannol. O dan ei setliad diweddar gyda'r Llywodraeth, bydd ffi'r drwydded yn cael ei chadw ar y lefel bresennol tan 2024 ac yna'n codi gyda chwyddiant (CPI) tan ddiwedd cyfnod y Siarter.[9] Mae'r BBC wedi dweud y bydd hyn yn creu bwlch cyllido blynyddol o £285m erbyn 2027. Ar ben hynny, mae costau cynhyrchu'n cynyddu o ganlyniad i fwy o gystadleuaeth am weithwyr medrus a gofod stiwdio, pandemig Covid-19, a phwysau cyffredinol o ran chwyddiant.[10]

Mae hyn i gyd yn rhoi pwysau ar allu'r BBC i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Rhaid iddo arloesi ac addasu ei wasanaethau ar-lein i sicrhau ei fod yn dal yn berthnasol ac yn apelio at

---

[7] Mae 'Teledu a Ddarlledir' yn cynnwys rhaglenni teledu sy'n cael eu dangos ar sianel deledu, ar wasanaeth dal i fyny, neu sydd wedi'u recordio ac yn cael eu gwylio cyn pen 28 diwrnod i'r darllediad byw, yn ogystal â gwasanaethau fideo ar-alw'r darlledwr.
[8] IPA TouchPoints 2017 a 2022 (ton 1).
[9] Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i adolygu ffi'r drwydded erbyn diwedd cyfnod y Siarter bresennol.
[10] Yn ôl data darlledwyr, roedd y gwariant cyfartalog fesul awr ar raglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn 2021 yn tua £82,500, o'i gymharu ag £80,000 yn 2019. Canfu'r Arolwg o Gwmnïau Darlledu Annibynnol 2022 fod 92% gwmnïau cynhyrchu annibynnol wedi dweud bod eu costau rhwng 10% a 25% yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig.

gynulleidfa sy'n fwyfwy darniog, gan barhau i gynnig amrywiaeth eang o gynnwys i gynulleidfaoedd sy'n dal i ddefnyddio gwasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu'n fyw yn unig, ac mae angen iddo wneud hyn gyda chyllideb lai.

Ym mis Mai 2022, gan geisio mynd i'r afael â'r heriau hyn, nododd y BBC ei strategaeth i ddod yn sefydliad 'Digidol yn Gyntaf'. Mae'r cynlluniau'n ceisio sicrhau bod y BBC yn darparu ar gyfer pob cynulleidfa wrth iddo barhau i symud ar-lein, gan sicrhau'r gwerth gorau posibl o ffi'r drwydded. Yn ei araith i staff yn cyhoeddi'r strategaeth, roedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol Tim Davie yn nodi'n glir bod gormod o adnoddau'r BBC yn canolbwyntio ar ddarlledu ac nid ar-lein, ac y bydd rhan o'r symudiad tuag at fod yn sefydliad digidol yn gyntaf yn golygu "*gwneud dewisiadau anodd o ran dosbarthu traddodiadol*". Hyd yma, rydym yn gwybod bod y strategaeth yn cynnwys cynlluniau i fuddsoddi mwy o arian mewn rhaglenni newydd ar gyfer BBC iPlayer, symud allbwn newyddion a materion cyfoes lleol a rhanbarthol tuag at ddigidol, symud adnoddau o newyddion darlledu i newyddion fideo digidol ac ar-lein, trawsnewid ei wasanaethau lleol yn Lloegr a buddsoddi mwy mewn datblygu ei wasanaethau ar-lein. Yn y tymor hwy, mae'r BBC hefyd yn disgwyl rhoi'r gorau i ddarlledu rhai o'i sianeli llai, fel BBC Four a CBBC, ar deledu llinol. Mae'r BBC yn dal i ddatblygu ei gynlluniau ac rydym yn ymgysylltu ag ef i ddeall y goblygiadau i gynulleidfaoedd ac i'n gwaith rheoleiddio.

## Mae angen newid y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y BBC i sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd

Ym mis Mehefin 2022, fe wnaethom gyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad manwl o reoleiddio'r BBC ('adolygiad Mehefin'). Roedd hwn yn ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio'n parhau'n effeithiol ar gyfer gweddill cyfnod y Siarter, ac yn nodi pwysigrwydd y fframwaith o ran cadw ar y blaen i'r amgylchedd newidiol y mae'r BBC yn gweithredu ynddo. Roedd ein prif ganfyddiadau yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

Proses gwynion BBC yn Gyntaf
Canfu'r adolygiad fod cyfran sylweddol o gynulleidfaoedd sydd wedi cwyno wrth y BBC yn anfodlon â phroses gwynion y BBC.[11] Felly, fe wnaethom alw ar y BBC i gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn. Roeddem wedi dweud bod angen iddo wneud ei broses gwyno yn symlach ac yn fwy tryloyw, ac roeddem hefyd wedi nodi ein bod yn disgwyl i'r BBC roi gwybod i ni yn gynnar am achosion difrifol posibl o dorri rheolau golygyddol er mwyn i ni allu craffu'n well ar sut mae'r broses gwyno'n gweithio'n ymarferol ac ymyrryd yn gynnar os oes angen. Yn y bennod ar safonau o ran cynnwys yn yr adroddiad hwn, rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'r BBC wedi dechrau mynd i'r afael â'r pryderon hyn, ac rydym yn tynnu sylw at y meysydd y byddwn yn eu monitro'n arbennig o agos.

Canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddiwydrwydd dyladwy
Er gwaethaf hanes da'r BBC o ran cydymffurfio â'n rheolau didueddrwydd dyladwy, fe wnaethom ganfod bod hyn yn dal yn faes pryder allweddol i gynulleidfaoedd. O ganlyniad, gwnaethom fynnu bod y BBC yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am sut mae'n gwneud penderfyniadau ynghylch cwynion didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy sy'n cyrraedd cam olaf ei broses. Mae'r BBC hefyd wedi bod yn rhoi ei Gynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol ar waith.

[11] Ymysg y rheini a oedd â rheswm dros gwyno wrth y BBC ond na aethant ymlaen i wneud cwyn, y prif rwystrau oedd rhagdybiaethau 'na fyddai'n gwneud gwahaniaeth' (42%) neu 'na fyddai'r gŵyn yn cael ei chymryd o ddifrif' (29%). Roedd ychydig o dan chwarter (23%) yn meddwl y byddai'n 'ormod o ymdrech'. Canfyddiadau cynulleidfaoedd o system gwynion BBC yn Gyntaf

Rydym yn trafod y camau mae'r BBC wedi'u cymryd ers ein hadolygiad ym mis Mehefin i fynd i'r afael â'r mater hwn yn y bennod ar safonau o ran cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Trwydded Weithredu'r BBC

Yn yr adolygiad, roeddem yn nodi bod angen i Drwydded Weithredu bresennol y BBC esblygu i adlewyrchu'n well sut mae cynulleidfaoedd nawr yn gwylio ac yn gwrando ar gynnwys, ac i ganiatáu i'r BBC barhau i addasu i'r newidiadau hyn mewn ymddygiad cynulleidfaoedd. O ganlyniad, rydym yn nodi cynigion i ddiweddaru'r Drwydded Weithredu i ymgorffori gwasanaethau ar-lein y BBC yn llawn, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC benderfynu ar y ffordd orau o gyrraedd cynulleidfaoedd (gan gynnwys dileu rhai cwotâu), ac i fynnu bod y BBC yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am ei gynlluniau a'i ddarpariaeth yn ei Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol. Fe wnaethom gynnig cadw cwotâu mewn meysydd lle roeddem yn teimlo bod angen mesurau diogelu penodol o hyd. Rydym yn bwriadu cyhoeddi Datganiad terfynol y flwyddyn nesaf, ochr yn ochr â Thrwydded Weithredu newydd ar gyfer y BBC a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023.

Fframwaith Cystadleuaeth

Gwnaethom argymell bod y Llywodraeth yn gwneud newidiadau i'r rheolau cystadleuaeth i sicrhau eu bod yn cael y cydbwysedd cywir rhwng caniatáu i'r BBC wneud y newidiadau i'w wasanaethau er mwyn parhau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd, a pharhau i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol ar yr un pryd. Rydym hefyd wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar wahân heddiw ar rai newidiadau arfaethedig i'n canllawiau ar gystadleuaeth. Rydym yn disgwyl i'r newidiadau hyn ddarparu mwy o hyblygrwydd ac eglurder, sicrhau bod prosesau mor effeithlon â phosibl o dan y Siarter a'r Cytundeb presennol, a gwella ymgysylltiad rhwng y BBC a'i gystadleuwyr. Rydym hefyd wedi nodi ein safbwynt presennol ar effaith bosibl y BBC ar gystadleuaeth yn y sectorau clyweled a sain.

## Mae'r Llywodraeth hefyd yn adolygu rhai agweddau ar fframwaith y BBC

O dan y Siarter, gall y Llywodraeth gynnal adolygiad canol tymor rhwng 2022 a 2024. Cyhoeddodd y Cylch Gorchwyl ar gyfer ei Adolygiad Canol Tymor o'r BBC ym mis Mai 2022. Bydd hwn yn ystyried a yw'r trefniadau llywodraethu a rheoleiddio a nodir yn y Siarter a'r Cytundeb Fframwaith presennol yn effeithiol o ran galluogi'r BBC i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Bydd hefyd yn edrych ar y dystiolaeth ynghylch sut gall Ofcom ddal y BBC i gyfrif yn effeithiol. Hefyd, mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bwriad i adolygu model cyllido'r BBC erbyn diwedd y Siarter bresennol.

Yn ei Phapur Gwyn mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei bod yn bwriadu cyflwyno Bil Cyfryngau a fyddai'n cynnwys diwygiadau i'r ddeddfwriaeth amlygrwydd ac argaeledd gyfredol ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Byddai darpariaethau o'r fath yn helpu i sicrhau bod cynnwys y BBC ar gael ac yn haws i gynulleidfaoedd ddod o hyd iddo, ar amrywiaeth o wasanaethau teledu clyfar. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth wrth iddi fwrw ymlaen â deddfwriaeth ddrafft yn y maes hwn.

## Byddwn yn parhau i ddal y BBC i gyfrif i sicrhau ei fod yn cyflawni ar gyfer pob cynulleidfa

Mae cyflymder a graddfa'r newid yn y farchnad y mae'r BBC yn gweithredu ynddi ar hyn o bryd yn sylweddol. Mae'n wynebu pwysau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i setliad ffi'r drwydded, costau cynhyrchu uwch a chwyddiant. Rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid iddo wneud rhai penderfyniadau anodd er mwyn gweithredu o fewn ffiniau ei sefyllfa ariannol bresennol, gan geisio datblygu ei wasanaethau ar-lein er mwyn gallu cyrraedd cynulleidfaoedd sy'n fwyfwy darniog. Wrth i'r BBC geisio ymateb i'r heriau hyn, mae'n dal yn hanfodol ei fod yn dryloyw ynghylch ei gynlluniau a sut

bydd yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd y DU ac yn cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus. Rhaid i'r BBC hefyd barhau i roi blaenoriaeth i ddarparu'r rhaglenni unigryw o ansawdd uchel y mae'n adnabyddus amdanynt ac yn cael ei werthfawrogi amdanynt. Rydym yn disgwyl i'r BBC gynnal y momentwm o weithredu ei ymrwymiadau i wasanaethu a chefnogi'r gwledydd a'r rhanbarthau'n well, gwella canfyddiadau o ddidueddrwydd dyladwy, a mynd i'r afael â'r pryderon rydym wedi'u nodi gyda'i broses gwynion.


## Perfformiad y BBC eleni

Canfu ein hasesiad eleni fod y BBC wedi parhau i berfformio'n dda. Mae'r penodau canlynol yn yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai llwyddiannau nodedig eleni, yn ogystal â meysydd lle rydym yn credu y dylai'r BBC fod yn gwneud mwy. Rydym yn nodi ein blaenoriaethau allweddol a'r camau nesaf ar gyfer y flwyddyn i ddod ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Un mater penodol rydym yn ei godi eleni yw ein bod wedi canfod bod cynulleidfaoedd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, a chynulleidfaoedd anabl, yn parhau i fod yn llai bodlon â'r BBC. Mae hyn wedi bod yn wir ers nifer o flynyddoedd, ac rydym hefyd wedi tynnu sylw o'r blaen at broblemau lle mae cynulleidfaoedd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn llai bodlon. Mae'r rheini sy'n perthyn i grwpiau economaidd-gymdeithasol is, yn enwedig y rheini y cyfeirir atynt fel grwpiau D ac E,[12] yn cynrychioli bron i chwarter poblogaeth y DU. Mae'r cynulleidfaoedd hyn yn defnyddio llai o gynnwys y BBC ac wedi rhoi sgôr is na grwpiau cynulleidfa eraill i'r BBC yn gyson. Rydym yn credu ei bod yn bwysig deall y cynulleidfaoedd hyn yn well, o ystyried y duedd barhaus rydym wedi'i gweld gyda'u bodlonrwydd â'r BBC, a'r ffaith eu bod yn gyfran sylweddol o boblogaeth y DU. Felly, y flwyddyn nesaf, byddwn yn lansio adolygiad thematig i ddeall y cynulleidfaoedd hyn yn well – sut maent yn defnyddio'r cyfryngau a sut mae'r BBC yn cysylltu â nhw.

[12] Mae dosbarthiad economaidd-gymdeithasol fel arfer yn seiliedig ar alwedigaeth ac yn cynnwys y categorïau canlynol: A, B, C1, C2, D ac E. Mae'r rheini yng ngrwpiau economaidd-gymdeithasol is D ac E yn fwy tebygol o fod yn hŷn, yn ddi-waith, wedi ymddeol gyda dim ond pensiwn y wladwriaeth, neu fod ag anabledd, o'u cymharu â'r grwpiau eraill.

# Diben Cyhoeddus 1:
# Newyddion a materion cyfoes




Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Arolygon Cael Gafael ar Newyddion Oedolion a Phlant yn eu Harddegau 2022. Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; BARB (newyddion cenedlaethol/rhyngwladol); Ymchwil y BBC: Compass gan Ipsos Mori; Traciwr Perfformiad y BBC

## Crynodeb

- Y BBC yw prif ffynhonnell newyddion y DU o hyd, gan gyrraedd 73% o oedolion y DU. Mae nifer y bobl sy'n defnyddio BBC News ar-lein wedi cynyddu o'i gymharu â'r cyfnod cyn Covid-19.
- Yn gyffredinol, mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'r sylw mae'r BBC yn ei roi i faterion lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, ond mae gwahaniaethau nodedig a pharhaus mewn lefelau bodlonrwydd ymysg rhai grwpiau cynulleidfa y mae'n rhaid i'r BBC fynd i'r afael â nhw.
- Mae'r BBC yn gwneud cynnydd o ran ei Gynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol, ac rydym yn ei annog i gynnal momentwm yn y maes hwn.
- Byddwn yn monitro'r effaith ar gynulleidfaoedd wrth i gynlluniau'r BBC i foderneiddio ei allbwn yn y maes hwn esblygu, gan gynnwys ei gynlluniau i gyfuno sianel BBC News yn y DU a BBC World News i greu sianel newydd, a'i gynlluniau i ddiweddaru ei allbwn newyddion a materion cyfoes rhanbarthol a'i wasanaethau lleol yn Lloegr.

***Mae'r Siarter Frenhinol yn datgan:*** *Dylai'r BBC ddarparu rhaglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol sy'n ddigon cywir a diduedd er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r byd ehangach. Dylai'r cynnwys gael ei ddarparu yn unol â'r safonau golygyddol uchaf. Dylai gynnig cynnwys a dadansoddiad manwl ac amrywiol, nad ydynt ar gael yn helaeth gan ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig, drwy ddefnyddio newyddiadurwyr a chyflwynwyr o'r radd flaenaf, a hybu rhyddid mynegiant, er mwyn i'r holl gynulleidfaoedd allu ymgysylltu'n llawn â materion pwysig yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol, yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion egnïol a gwybodus.*

Mae'r BBC yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o newyddion ar draws ei wasanaethau sy'n cwmpasu materion lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae hyn yn rhan hanfodol o'i genhadaeth i hysbysu cynulleidfaoedd. Mae hefyd wedi parhau i ddangos y rôl allweddol mae'n ei chwarae o ran darparu newyddion a materion cyfoes pan fydd straeon mawr yn torri, fel goresgyniad Wcráin yn gynharach eleni, ac yn fwy diweddar, marwolaeth EM Brenhines Elizabeth II.

Yn 2021/22, roedd 73% o oedolion y DU wedi defnyddio gwasanaeth y BBC ar gyfer newyddion. BBC One yw'r ffynhonnell newyddion unigol sy'n cael ei defnyddio fwyaf ar draws llwyfannau o hyd, gan gyrraedd 53% o oedolion[14], ond mae sianeli teledu'r BBC wedi gweld gostyngiad yn eu cyrhaeddiad cyffredinol eleni.[15] Mae cyrhaeddiad newyddion ar radio'r BBC yn dal yn gyson â 2020[16], er bod cynnydd wedi bod yn nifer y bobl sy'n defnyddio BBC News ar-lein o'i gymharu â'r lefelau cyn Covid-19.[17]

Roedd gwariant cyffredinol y BBC ar newyddion a materion cyfoes, gan gynnwys rhaglenni heb fod yn rhai rhwydwaith, ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau wedi aros yn gymharol sefydlog ar £288m o'i gymharu â 2020 (£294m); fodd bynnag, mae hyn yn is na'r lefel cyn y pandemig (£341m yn 2019).[18]

---

[14] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2022.

[15] BARB – cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (3 munud a mwy) ar gyfer y genre newyddion cenedlaethol/rhyngwladol, oedolion 16 oed a hŷn.

[16] Cyrhaeddiad radio o Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion, 2022.

[17] Cyrhaeddiad ar-lein o ymchwil y BBC: Compass gan Ipsos MORI, oedolion 16 oed a hŷn. Mae'n cynnwys mynediad i newyddion y BBC ar-lein – ar y wefan a'r ap.

[18] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Mae cyfanswm y gwariant ar newyddion a materion cyfoes yn cael ei fynegi mewn termau nominal.

**Ar y cyfan, mae cynulleidfaoedd yn fodlon ar allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC, ond mae anfodlonrwydd ymysg rhai grwpiau cynulleidfa yn parhau**

Mae dwy ran o dair o oedolion y DU yn canmol y BBC am ddarparu '*newyddion a gwybodaeth i helpu pobl i ddeall beth sy'n digwydd yn y DU a'r byd.*'[19] Canfu ymchwil diweddar a wnaed fel rhan o'n hadolygiad ym mis Mehefin fod pobl yn parchu'r BBC am ansawdd a hygrededd ei allbwn newyddion a materion cyfoes.

Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae'r BBC yn dal i wynebu heriau o ran cyrhaeddiad a bodlonrwydd ymysg rhai grwpiau cynulleidfa, yn enwedig y grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Dim ond 66% o oedolion DE mae ffynonellau newyddion y BBC yn eu cyrraedd o'i gymharu â 75% o oedolion mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol eraill (A, B, C1 ac C2).[20] Canfu ein Traciwr Perfformiad y BBC fod cynulleidfaoedd DE hefyd yn llai tebygol na chyfartaledd y DU o gael barn gadarnhaol am sut mae'r BBC yn darparu '*newyddion a gwybodaeth i helpu pobl i ddeall beth sy'n digwydd yn y DU a'r byd',* a *'newyddion sy'n cynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau'*.

Pan fyddwn yn ystyried cynulleidfaoedd iau, mae'n ymddangos bod y BBC yn rhan lai sefydlog o'u bywydau, o'u cymharu â phobl hŷn sy'n teimlo eu bod wedi 'tyfu i fyny gyda'r BBC'.[21] Gall grwpiau iau deimlo bod y BBC wedi'i anelu at genedlaethau hŷn; maent yn defnyddio llai ar wasanaethau newyddion y BBC, er eu bod yn defnyddio ac yn gwerthfawrogi ei ddarpariaeth wrth wirio dilysrwydd straeon y maent wedi'u gweld ar gyfryngau cymdeithasol. Ymysg pobl 16-24 oed, mae cyrhaeddiad ffynonellau newyddion y BBC yn dal yn is nag y mae ymysg grwpiau oedran eraill (60% o'i gymharu â 75% o oedolion 25 oed a hŷn) ac mae cyrhaeddiad cyfunol ffynonellau'r BBC ymysg plant 12-15 oed wedi gostwng i 39% o 55% yn 2018.[22]

**Mae gan y BBC gynlluniau i wella ei ddarpariaeth newyddion digidol, gan adeiladu ar berfformiad calonogol ei gynnwys newyddion a materion cyfoes ar-lein.**

Mae'r BBC wedi cydnabod y gallai wasanaethu cynulleidfaoedd yn well gyda'i gynnwys ar-lein, ac yn ei araith ym mis Mai 2022 yn cyhoeddi'r cynllun i ddarparu BBC digidol yn gyntaf, cyhoeddodd Tim Davie, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, y bydd *"pob rhan o'n hallbwn newyddion nawr yn cael ei barnu nid yn unig ar berfformiad llinol ond ar sail darpariaeth wedi'i ffrydio hefyd".* Mae'r BBC wedi dweud y bydd hyn yn golygu creu cynnwys gyda darpariaeth aml-lwyfan mewn golwg, ac mae wedi dweud wrthym hefyd ei fod yn bwriadu gwneud newyddion a materion cyfoes yn ganolog i BBC iPlayer a BBC Sounds drwy fformatau newydd, yn ogystal â gwella curadu a phersonoleiddio.

Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022, roedd 12.6 miliwn o oedolion wedi defnyddio BBC iPlayer ar gyfer newyddion[23], ac mae ymchwil y BBC ei hun yn dangos bod cynulleidfaoedd yn teimlo bod BBC iPlayer yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni Diben 1.[24] At ei gilydd, gan gynnwys gwylio byw a dal i fyny, mae cynulleidfaoedd ar hyn o bryd yn treulio llawer llai o amser yn gwylio newyddion ar BBC iPlayer nag ar deledu a ddarlledir; maent yn defnyddio BBC iPlayer yn fwy ar gyfer genres eraill, gyda newyddion yn cyfrif

---

[19] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22.

[20] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2022. Mae gan ffynonellau Channel 4 a Sky hefyd gyrhaeddiad is ymysg cynulleidfaoedd DE, ac mae ITV yn cyrraedd y grŵp hwn yn fwy na chynulleidfaoedd eraill.

[21] Ofcom 2022 *Pethau sy'n gyrru canfyddiadau ynghylch didueddrwydd dyladwy: Y BBC a'r dirwedd newyddion ehangach,* tt 56-58.


[22] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion ymysg Pobl Ifanc yn eu Harddegau ac Oedolion 2022. Rydym yn nodi efallai na fydd y cyrhaeddiad hwn ar draws llwyfannau yn cynnwys holl ddefnydd y BBC drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol.

[23] Data gwylio BARB, oedolion 16 oed a hŷn, yr holl genre newyddion a thywydd. Meini prawf cyrhaeddiad: wedi gwylio o leiaf unwaith ar draws pob un o'r tri mis am 3 munud neu fwy yn olynol.

[24] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22, t.169. Mae 82% o ddefnyddwyr wythnosol yn dweud bod BBC iPlayer yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni Diben Cyhoeddus 1.

am ddim ond 6% o gyfran gwylio BBC iPlayer o'i gymharu â 30% o gyfran gwylio teledu a ddarlledir.[25] Fodd bynnag, mae newyddion yn cyfrif am gyfran uwch o wylio byw ar BBC iPlayer; roedd 48% o'r amser a dreulir yn gwylio darllediadau byw ar BBC iPlayer yn cael ei dreulio yn gwylio newyddion.[26]

Cyrhaeddodd BBC News ar-lein 34% o oedolion y DU ar gyfartaledd y llynedd (2021/22), sy'n uwch na'r lefelau cyn pandemig Covid-19, ac roedd y cynnydd hwn i'w weld ym mhob un o wledydd y DU hefyd.[27] Yn ein hymchwil ansoddol, roedd amrywiaeth o gynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi gwefan/ap BBC News, yn enwedig cynulleidfaoedd iau, am ei ddibynadwyedd, ei gywirdeb a'i ffocws ar ffeithiau, ei esboniadau clir ac am wahanu newyddion a barn.




Mae ein hymchwil yn dangos mai'r BBC sy'n dal â'r cyrhaeddiad ehangaf o unrhyw sefydliad newyddion ymysg pobl ifanc 12-15 oed ac 16-24 oed.[28] Fodd bynnag, mae cynulleidfaoedd iau yn dod yn fwyfwy dibynnol ar ffynonellau ar-lein fel gwasanaethau cyd-gasglu newyddion[29] a chyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft, mae TikTok nawr yn cael ei ddefnyddio gan 28% o bobl ifanc 12-15 oed ar gyfer newyddion (i fyny o 11% yn 2020), a 27% o bobl ifanc 16-24 oed (i fyny o 5% yn 2020). Mae'r BBC wedi gweithredu i adlewyrchu symudiad cynulleidfaoedd at TikTok drwy lansio nifer o gyfrifon newydd, gan gynnwys cyfrif Newsround wedi'i anelu at blant hŷn a chyfrif BBC News ym mis Mawrth 2022, y dywedodd y BBC wrthym

[25] Data gwylio BARB, oedolion 16 oed a hŷn Yn ystod 3 mis cyntaf 2022, treuliodd oedolion y DU 43 munud ar gyfartaledd yn gwylio newyddion/tywydd y BBC ar BBC iPlayer, allan o'r bron i 13 awr roedden nhw'n ei dreulio ar BBC iPlayer yn gyffredinol (6%). Mewn cymhariaeth, roeddent wedi gwylio 24.5 awr ar gyfartaledd o newyddion/tywydd y BBC ar sianeli teledu a ddarlledir gan y BBC allan o'r 81.5 awr roeddent wedi'u treulio yn gwylio teledu a ddarlledir gan y BBC yn gyffredinol (30%).
[26] Yn ystod 3 mis cyntaf 2022, gwyliodd oedolion y DU 17 munud o newyddion/tywydd y BBC ar gyfartaledd, allan o'r tua 35 munud roedden nhw wedi'i dreulio'n gwylio BBC iPlayer yn fyw yn gyffredinol (48%).
[27] Ymchwil y BBC: Compass gan Ipsos MORI, oedolion 16 oed a hŷn. Mae'n cynnwys mynediad i newyddion y BBC ar-lein – ar y wefan a'r ap.
[28] Arolygon Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion ymysg Pobl Ifanc yn eu Harddegau ac Oedolion 2022.
[29] Gwefannau neu apiau sy'n casglu amrywiaeth o gynnwys o amrywiaeth o ffynonellau gwahanol yw gwasanaethau cyd-gasglu newyddion. Mae rhywfaint o'r cynnwys newyddion yn cael ei deilwra yn ôl y defnyddiwr unigol drwy ddefnyddio algorithm, ac mae gwasanaethau cyd-gasglu newyddion hefyd yn defnyddio golygyddion i guradu erthyglau a fydd yr un fath i bob defnyddiwr.

fod ei fideos wedi cael eu gwylio 13 miliwn o weithiau y mis ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin a mis Hydref.[30]

Ar gyfryngau cymdeithasol eraill, rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mawrth 2022, cafodd fideos BBC News ar draws Facebook, Twitter, Instagram a YouTube eu gwylio 187 miliwn o weithiau y mis ar gyfartaledd ar draws y byd. Drwy gydol y cyfnod hwn, roedd cynnwys newyddion y BBC yn cyfrif am 25% o holl fideos y BBC a wyliwyd yn fyd-eang ar Twitter a 32% ar Instagram.[31] Ymysg y grwpiau oedran ieuengaf, mae'r llwyfannau hyn yn gynyddol bwysig; yn 2022 dim ond 24% o bobl ifanc 12-15 oed a ddywedodd eu bod yn defnyddio BBC One neu BBC Two ar gyfer newyddion, o'i gymharu â 45% yn 2018.[32]

Yn ei Gynllun Blynyddol 2020/21, dywedodd y BBC ei fod wedi bwriadu personoleiddio'r ap BBC News yn well. Mae bellach wedi dweud wrthym y bydd yn gwneud hyn drwy gyflwyno nodweddion mewngofnodi gorfodol ar gyfer yr ap.[33] Mae hefyd wedi dweud wrthym fod ei strategaeth ar gyfer personoleiddio yn golygu cyflwyno straeon newyddion mawr o bwysigrwydd cyffredinol, er enghraifft newyddion am Covid-19, fel mater o drefn. Ochr yn ochr â'r straeon cyffredinol hyn, bydd yr ap yn cynnig cynnwys mwy personol sy'n seiliedig ar ddiddordebau a lleoliad daearyddol. Yn ôl y BBC, bydd creu profiad mwy personol a greddfol, gyda chynnwys fideo wrth ei wraidd, yn gwneud yr ap yn fwy deniadol i gynulleidfaoedd iau.

**Mae'r BBC yn gwneud cynnydd tuag at gamau gweithredu sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â chanfyddiadau o'i ddidueddrwydd**

Mae defnyddwyr rheolaidd newyddion ar deledu'r BBC, radio'r BBC a gwefan/ap y BBC yn dal i roi sgôr uchel iddo am ymddiriedaeth a chywirdeb. Fodd bynnag, mae didueddrwydd yn dal i gael sgôr is yn gyson ar gyfer gwefan/ap y BBC a theledu'r BBC.[34]

Roedd didueddrwydd yn ganolog i'n hadolygiad ym mis Mehefin, ac mae'n faes allweddol y mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn canolbwyntio arno wrth iddi gwblhau ei Hadolygiad canol tymor o Siarter y BBC. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi ailddatgan bod didueddrwydd yn dal yn flaenoriaeth wrth i'r BBC foderneiddio a digideiddio ei arlwy newyddion a materion cyfoes. Os yw'r BBC am gadw ymddiriedaeth cynulleidfaoedd, rhaid iddo fynd i'r afael â'r gwahaniaeth amlwg rhwng agweddau cynulleidfaoedd at ei ddidueddrwydd a'i hanes da o gydymffurfio â'r rheolau didueddrwydd dyladwy yng Nghod Darlledu Ofcom ('y Cod').

Mae'r BBC yn dal i wynebu heriau o ran canfyddiadau ynghylch ei ddidueddrwydd. Mae ein hymchwil yn dangos bod amrywiaeth o ffactorau yn siapio safbwyntiau pobl ynghylch didueddrwydd y BBC, gyda dim ond rhai yn ymwneud yn uniongyrchol â'i gynnwys newyddion a materion cyfoes. Mae brand y BBC, ei fecanwaith cyllido a'r ffordd y mae'n cael ei bortreadu ar y cyfryngau yn ehangach wedi dylanwadu ar ganfyddiadau.

Eleni, dangosodd ein Traciwr Perfformiad y BBC fod cynulleidfaoedd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is (grwpiau DE) yn llai tebygol na grwpiau AB o gael barn gadarnhaol am y BBC o ran darparu '*newyddion sy'n ddiduedd – heb ffafrio un ochr dros y llall*'. Rydym yn gwybod bod y BBC yn ymwybodol o'r

---

[30] TikTok Analytics.

[31] YouTube Analytics, Facebook Insights, Twitter Analytics, Instagram Insights. Mae'r ffigurau ar gael ar lefel fyd-eang yn unig, nid ar lefel y DU, oni bai am YouTube lle gwyliwyd fideos newyddion y BBC 15.2 miliwn o weithiau ar gyfartaledd bob mis yn y DU ar draws 2021-2022, sy'n cyfrif am 19% o holl fideos y BBC a wyliwyd ar YouTube yn y DU.

[32] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion ymysg Pobl Ifanc yn eu Harddegau 2022.

[33] Gwybodaeth a ddarparwyd gan y BBC: Mae 86% o ddefnyddwyr wedi mewngofnodi bellach, gyda tharged o 100% erbyn diwedd y flwyddyn.

[34] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2022.

mater ac yn gweithio i ganfod amrywiadau mewn canfyddiadau o ddidueddrwydd ymysg gwahanol grwpiau, er mwyn helpu gyda chomisiynu.

Mae canfyddiadau o ddidueddrwydd newyddion y BBC hefyd yn isel ymysg ymatebwyr lesbiaidd, hoyw a deurywiol (LHD). Mae Traciwr Perfformiad y BBC yn dangos bod gan 30% o ymatebwyr LHD farn negyddol ynghylch y BBC o ran darparu newyddion sy'n ddiduedd, o'i gymharu â 23% ar gyfer y DU ar gyfartaledd. Ar ben hynny, mae gan 27% o gynulleidfaoedd LHD farn negyddol ynghylch y BBC yn darparu "*newyddion sy'n cynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau*", o'i gymharu â 19% ar gyfer y DU ar gyfartaledd.[35] Yn ein hymchwil a oedd yn edrych ar ganfyddiadau o ddidueddrwydd, roedd cynulleidfaoedd LHDTC+ yn arbennig o feirniadol o'r BBC.[36] Roeddent yn aml yn teimlo nad oedd y BBC yn rhoi sylw i rai pynciau penodol neu ddim yn rhoi sylw teg iddynt. Wrth bwyso a mesur ei ymchwil ei hun i gynulleidfaoedd, dywedodd y BBC fod cynulleidfaoedd LHD wedi rhoi sgoriau is na chynulleidfaoedd heterorywiol i rai mesurau am y tro cyntaf eleni ac mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod yn bwriadu cadw golwg fanwl ar hyn.

Mae hanes y BBC o orfodi didueddrwydd dyladwy yn ei allbwn yn dda ar y cyfan, ond mae mynd i'r afael â chanfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd yn hanfodol. Yn 2021/22, mewn tri achos (yn ymwneud â phum cwyn), canfu Uned Cwynion Gweithredol y BBC nad oedd y safon briodol o ddidueddrwydd dyladwy wedi cael ei chyflawni.[37] Ym mis Gorffennaf 2022, fe wnaethom ganfod bod y BBC wedi torri'r rheolau didueddrwydd dyladwy yn y Cod am y tro cyntaf ers i ni ddechrau ei reoleiddio yn 2017. Fe wnaethom ni ganfod bod yn BBC wedi peidio â darparu didueddrwydd dyladwy mewn cyfweliad â Ruth Davidson, arweinydd y Ceidwadwyr yn yr Alban ar y pryd, mewn rhifyn o *World at One* ar BBC Radio 4 ar 24 Chwefror 2021. Rydym yn trafod y penderfyniad ynghylch *World at One* yn fanylach yn y bennod ar safonau o ran cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Adroddodd y BBC ar gynnydd yn erbyn ei *Gynllun Gweithredu Safonau Golygyddol* ('Cynllun Gweithredu') yn ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2021/22 ac mewn datganiad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022. Dywedodd ei fod wedi cyhoeddi polisi Chwythu'r Chwiban newydd, yn ogystal â Gweithdrefn newydd ar

---

[35] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22. Yn yr arolwg meintiol, mae gennym ddigon o sampl i ganolbwyntio ar farn y rhai sy'n ystyried eu hunain yn LHD ar sail cwestiwn am gyfeiriadedd rhywiol. Rhoddodd 30% o'r ymatebwyr LHD sgôr 'negyddol' (sy'n cael ei ddiffinio fel sgôr o 1-4 allan o 10 am ddarparu arlwy newyddion diduedd).
[36] Yn yr ymchwil ansoddol, rydym yn cyfeirio at LHDTC+ gan ein bod wedi cynnwys unrhyw ymatebwyr nad oeddent yn ystyried eu hunain yn heterorywiol, yn ogystal ag ymatebwyr traws.
[37] Data a gyflenwyd gan y BBC. Yn y bennod ar safonau golygyddol, rydym yn trafod yn fanylach sut mae safonau didueddrwydd dyladwy yn cael eu gorfodi o dan y system BBC yn Gyntaf.

gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun o achosion posibl o dorri safonau golygyddol a Gweithdrefn newydd ar gyfer cwynion golygyddol llwybr carlam. Dywedodd y BBC hefyd fod 92% o'r staff, erbyn diwedd mis Mawrth 2022, wedi cwblhau o leiaf un o blith cyfres o gyrsiau Diogelu Didueddrwydd.[38]

O ran allbwn y BBC, mae’r BBC wedi cadarnhau y bydd *BBC Breakfast*, *Countryfile* a’r rhaglenni newyddion Saesneg boreol ar y radio yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu hadolygu o ran cynnwys, gan asesu safonau golygyddol sy’n cynnwys didueddrwydd, rhyddid mynegiant, amrywiaeth lleisiau, cywirdeb, tegwch ac ymddiriedaeth. Eleni, roedd Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC yn tynnu sylw at rai mentrau sy’n dangos ei ymrwymiad a’i ddull gweithredu o ran didueddrwydd, gan gynnwys cyfres gwirio ffeithiau *Reality Check* ar wefan y BBC, gwaith parhaus BBC Monitoring i olrhain camwybodaeth, a chyfres *Ros Atkins On…* ar BBC iPlayer. O’i gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae’r Adroddiad a’r Cyfrifon Blynyddol yn cynnwys rhagor o wybodaeth am sut mae’r BBC yn sicrhau didueddrwydd. Rydym yn croesawu hyn ac yn disgwyl gweld y lefel hon o adrodd yn parhau.

Er bod y BBC wedi gwneud cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu, ni ellir gorbwysleisio maint yr her y mae’n ei hwynebu. Canfu ein hymchwil fod gan gynulleidfaoedd safonau uwch ar gyfer y BBC nag ar gyfer darparwyr newyddion eraill. Maent yn credu bod y BBC yn fwy ‘atebol i’r bobl’ na brandiau eraill oherwydd ei safle unigryw a breintiedig yn cael ei ariannu gan ffi’r drwydded, ac maent yn teimlo bod hyn yn cyfiawnhau ei ddal i safonau uwch. Fel y trafodir ymhellach yn y bennod ar safonau o ran cynnwys, byddwn yn monitro’r camau y mae’r BBC yn eu cymryd i roi ei Gynllun Gweithredu ar waith i sicrhau nad yw’n colli momentwm yn y maes hwn.

**Mae’r BBC yn chwarae rôl bwysig o ran helpu cynulleidfaoedd gyda materion lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang**


O dan Ddiben Cyhoeddus 1, rhaid i’r BBC ddarparu ystod a dyfnder o ddadansoddiadau a chynnwys nad ydynt ar gael yn eang gan ddarparwyr newyddion eraill yn y DU, er mwyn helpu cynulleidfaoedd i ymgysylltu â materion lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang, a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Ar y cyfan, rydym wedi canfod bod y BBC wedi cyflawni’n dda yn erbyn yr elfen hon o Ddiben Cyhoeddus 1. Mae dros 70% o oedolion yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn defnyddio ffynonellau newyddion y BBC[39] ac mae dwy ran o dair o oedolion ym mhob un o’r pedair gwlad yn gadarnhaol am y BBC o ran darparu *‘newyddion a gwybodaeth sy’n helpu pobl i ddeall beth sy’n digwydd yn y DU a’r byd’*.[40]

[38] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22, t.115.
[39] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2022.
[40] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22.

## Y rhyfel yn Wcráin

Canfu ein hymchwil fod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'r sylw mae'r BBC yn ei roi i straeon rhyngwladol a'u bod yn dibynnu'n benodol ar y BBC am ohebu dibynadwy pan fydd straeon rhyngwladol yn torri. Mae tua wyth o bob deg (79%) o'r bobl sy'n gwylio newyddion y BBC ar y teledu yn rheolaidd, a 73% o'r bobl sy'n gwrando ar newyddion y BBC ar y radio yn rheolaidd, yn ei ganmol am ddarparu newyddion rhyngwladol.[41]

Roedd cynulleidfa BBC News ar-lein yn ystod yr wythnos yr ymosododd Rwsia ar Wcráin yn 39% o oedolion y DU / 20.9 miliwn o bobl, sef y gynulleidfa fwyaf yn ystod unrhyw wythnos yn 2021/22[42]. Yn y cyfnod yn arwain at y goresgyniad, roedd llawer mwy o bobl yn gwylio newyddion y BBC ar y teledu, gydag uchafbwynt clir pan oedd yr argyfwng ar ei anterth, ac yn yr un modd â'r argyfwng Covid-19, roedd y BBC yn dal yn ffynhonnell bwysig ar gyfer gwybodaeth yn ystod y cyfnod o ansicrwydd.[43]




Hefyd, gwelwyd y defnydd mwyaf erioed o wasanaethau'r BBC yn Wcráin a Rwsia, gyda'r llwyfannau Wcraineg a Rwsieg yn cyrraedd miliynau cyn i'r gwasanaethau gael eu rhwystro.[44]

Cynhaliwyd ein hymchwil ar ganfyddiadau pobl o ddidueddrwydd y BBC tua'r un adeg â'r ymosodiad. Daeth y BBC yn ffynhonnell ar gyfer newyddion hyd yn oed ymysg rhai o'r cyfranogwyr ymchwil a oedd yn ymwneud llai â'r BBC, neu a oedd wedi bod yn feirniadol ohono o'r blaen. Wrth i gyfranogwyr a oedd yn rhan o'r ymchwil droi at y BBC, daeth gwerth ei ddidueddrwydd dyladwy yn gliriach iddynt. Roeddent yn gwerthfawrogi'r sylw a roddwyd i gyd-destun y goresgyniad ac yn deall sut roedd y BBC, yn yr achos hwn, yn cynnal didueddrwydd dyladwy ac nid oedd bob amser yn cyflwyno'r 'ddwy ochr' i'r stori drwy roi triniaeth gyfartal i naratif Llywodraeth Rwsia.

[41] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2022.

[42] Ymchwil y BBC: Compass gan Ipsos MORI, oedolion 16 oed a hŷn. Mae'n cynnwys mynediad i newyddion y BBC ar-lein – ar y wefan a'r ap.

[43] BARB; mae'r siart yn dangos nifer cyfartalog yr unigolion 4 oed a hŷn a oedd yn gwylio newyddion cenedlaethol a rhyngwladol naill ai ar BBC One neu sianel BBC News ar y tro, fesul wythnos. Efallai fod digwyddiadau newyddion eraill ar y pryd hefyd wedi cyfrannu at y lefelau brig.

[44] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22, t.19.

Mae’r sylw y mae’r BBC yn ei roi i bynciau sy’n ymwneud â gwledydd datganoledig y DU ar newyddion rhwydwaith yn ffordd bwysig iddo sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy’n digwydd ar draws y DU gyfan, ac i gynulleidfaoedd yn y gwledydd ddeall beth sy’n digwydd yn eu gwlad nhw. Gwelwn fod gwahaniaethu rhwng themâu sy’n benodol i’r DU a’r gwledydd yn parhau i fod yn her i ddarlledwyr, ond mae hyn wedi gwella. Y llynedd, fe wnaethom gomisiynu’r adroddiad Newyddion Rhwydwaith ynghylch gohebu ar faterion datganoledig ar newyddion rhwydwaith, a ganfu fod darparwyr newyddion rhwydwaith y DU wedi gwella o ran y sylw a roddir i'r materion hyn ers 2015 a 2016. Daeth yn arbennig o bwysig yn ystod pandemig Covid-19 wrth i lywodraethau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fabwysiadu dulliau gwahanol o ddelio â'r argyfwng.

Canfu’r adroddiad fod y BBC yn gyffredinol wedi gohebu mwy o newyddion am faterion datganoledig, gan ddefnyddio ei rwydwaith o newyddiadurwyr ledled y gwledydd, i raddau mwy na darlledwyr newyddion rhwydwaith eraill, a’i fod wedi cynnwys mwy o newyddiadurwyr ar leoliad y tu allan i Loegr na bwletinau newyddion eraill. Roedd newyddion ar-lein y BBC yn cyfeirio at berthnasedd materion datganoledig yn fwy amlwg na newyddion ar y teledu, ac roedd arlwy ar-lein y BBC yn fwy tebygol na newyddion ar y teledu o gynnwys lleisiau gwleidyddion o’r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er bod yr astudiaeth wedi canfod bod sefydliadau datganoledig wedi cael mwy o sylw nag mewn ymchwil flaenorol, roedd hefyd yn nodi cyfleoedd a gollwyd i egluro penderfyniadau gwahanol y llywodraethau ar draws y gwledydd. O ystyried ei arbenigedd, ei adnoddau a’i gylch gwaith, rydym yn disgwyl i’r BBC barhau i arwain y ffordd o ran gohebu ar faterion datganoledig.

Cyflwynodd y BBC ei strategaeth ar gyfer *“closio at gymunedau ledled y DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a’i chymunedau”* yn ei gynllun Across the UK. Yn ein Hadroddiad Blynyddol y llynedd, fe ddywedon ni y gallai Ledled y DU helpu’r BBC i wella canfyddiadau cynulleidfaoedd yn y gwledydd ac mewn rhannau eraill o’r DU. Er mwyn helpu i gynyddu effaith ei newyddiaduraeth ar draws y gwledydd a’r rhanbarthau, mae’r BBC wedi dweud wrthym ei fod yn amrywio ei weithlu newyddion, ac mae wedi symud 200 o swyddi ledled y DU yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae hefyd wedi dweud bod mwy o’i dimau newyddion wedi’u lleoli y tu allan i Lundain erbyn hyn, ac mae mwy o’i raglenni newyddion a materion cyfoes yn cael eu darlledu o bob cwr o’r DU, gan gynnwys *Newsnight* ar BBC Two a’r rhaglen *Today* ar BBC Radio 4. Hefyd, mae’r BBC wedi dweud wrthym ei fod yn adnewyddu’r Bartneriaeth Newyddion Lleol, sy’n galluogi data a chynnwys i gael eu rhannu rhwng y BBC a darparwyr newyddion lleol. O fis Gorffennaf 2022 ymlaen, roedd 180 o sefydliadau cyfryngau o bob cwr o’r DU yn rhan o’r bartneriaeth, gan gefnogi dros 1000 o straeon a theitlau newyddion.

**Mae’r BBC yn dal yn ffynhonnell bwysig o newyddion a materion cyfoes yng ngwledydd a rhanbarthau’r DU**

Mae oedolion yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a’r Alban yn dweud mai BBC One a gwefan y BBC yw’r ffynonellau maen nhw’n eu defnyddio amlaf ar gyfer newyddion am eu gwledydd. BBC One yw’r ffynhonnell newyddion sy’n cael ei defnyddio fwyaf yng Nghymru ar gyfer hyn, a’r ail fwyaf yng Ngogledd Iwerddon a’r Alban.[45] Mae oedolion yn Lloegr hefyd yn amlygu BBC One a gwefan y BBC fel y ffynonellau maen nhw’n eu defnyddio amlaf ar gyfer newyddion am eu rhanbarth.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae’r BBC wedi newid sut mae cynnwys newyddion a materion cyfoes yn cael ei ddarparu i gynulleidfaoedd yn yr Alban a Lloegr.

Lansiwyd sianel BBC Scotland ym mis Chwefror 2019; ei phrif raglen yw *The Nine*, sef rhaglen newyddion a materion cyfoes sy’n edrych ar faterion cenedlaethol a rhyngwladol o safbwynt yr Alban. Nod y rhaglen yw

[45] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2022.

ehangu apêl y BBC i gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn yr Alban, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau. Fodd bynnag, ers ei lansio mae wedi'i chael yn anodd denu dilynwyr; yn 2021/22 roedd ganddi gynulleidfa gyfartalog o 15.6k o oedolion 16 oed a hŷn fesul pennod yn yr Alban.[46] Mae angen i'r BBC barhau i ddod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu â'r cynulleidfaoedd y nodwyd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn yr Alban.

Yn Lloegr, mae rhaglenni newyddion rhanbarthol y BBC yn denu cynulleidfaoedd mawr ar y teledu, gyda'r bwletinau rhanbarthol am 6:30pm yn ystod yr wythnos yn cael cynulleidfa gyfunol gyfartalog o 3.9 miliwn.[47] Mae ein hymchwil yn dangos bod gwylwyr rhaglenni newyddion a materion cyfoes lleol/rhanbarthol y BBC yn Lloegr yn fodlon ar ansawdd yr allbwn ar hyn o bryd.[48]

Mae'r BBC yn parhau i wneud newidiadau i sut mae'n darparu newyddion rhanbarthol a materion cyfoes yn Lloegr. Ym mis Awst 2020, fe wnaethom ysgrifennu at y BBC i fynegi pryder am ei ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes rhanbarthol ar gyfer Lloegr, ar ôl iddo gyhoeddi toriadau sylweddol i'w dimau newyddion rhanbarthol, ac yn ddiweddarach, ei gynlluniau i ganslo *Inside Out,* ei brif raglen deledu ar faterion cyfoes ar gyfer rhanbarthau Lloegr bryd hynny. Ym mis Tachwedd 2020, fe wnaeth y BBC ein sicrhau ei fod yn dal wedi ymrwymo i ddarparu rhaglenni a chynnwys sydd o ddiddordeb rhanbarthol neu genedlaethol ar draws cynnwys teledu, radio ac ar-lein.

Y llynedd, comisiynodd y BBC gyfres materion cyfoes newydd ar gyfer BBC One, *We Are England*, i gymryd lle *Inside Out.* Roedd yr oedi o ran cynhyrchu a achoswyd gan effeithiau parhaus pandemig Covid-19 yn golygu nad oedd y rhaglen newydd yn gallu cael ei lansio yn 2021,[49] ac o ganlyniad, roedd yr oriau o newyddion rhanbarthol a materion cyfoes yn Lloegr yn dal yn is na'r lefelau cyn Covid.[50] Yn dilyn hynny, lansiwyd *We are England* yn gynnar yn 2022. Mae'r oriau o newyddion a materion cyfoes a gynhyrchir ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn dal yn debyg i 2020 ar y cyfan.

**Wrth i'r BBC wneud newidiadau i'w allbwn newyddion a materion cyfoes, mae'n bwysig ei fod yn parhau i ddarparu ar gyfer holl gynulleidfaoedd y DU**

Mae'r BBC wrthi'n moderneiddio ei ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes drwy ei strategaeth Digidol yn Gyntaf. Ei nod cyffredinol yw gwneud arbedion ym maes newyddion a ddarlledir, er mwyn gallu buddsoddi arian ac adnoddau ychwanegol yn ei newyddion digidol a fideo. Fel rhan o hyn, mae'r BBC yn bwriadu gwneud newidiadau i'w ddarpariaeth newyddion treigl, ac i'w bortffolio newyddion lleol yn rhanbarthau Lloegr.

Fel y nodwyd gennym ym mis Awst 2022, rydym ar ddeall bod y BBC yn bwriadu cyfuno sianel BBC News yn y DU a BBC World News i greu un sianel deledu o'r enw BBC News. Mae'r BBC wedi dweud y byddai'r sianel hon yn rhoi sylw i straeon newyddion sy'n torri, gan gynnwys straeon byd-eang a straeon y DU, ac y byddai dewis o ffrwd ddomestig yn unig ar gyfer digwyddiadau newyddion pwysig yn y DU nad ydynt efallai'n apelio at gynulleidfa fyd-eang. Rydym yn gwybod y bydd rhai elfennau o raglenni cyfredol sy'n cael eu darlledu ar yr un pryd ar BBC News, fel BBC Breakfast a'r bwletinau 1:00pm a 6:00pm, yn cael eu cadw, ac

---

46 Data 28 diwrnod cyfunol BARB, setiau teledu yn unig. Mae hyn yn cyfateb i gyfran o 0.8% o'r holl deledu a ddarlledir sy'n cael ei wylio yn yr Alban ar yr adeg y mae *The Nine* ymlaen. Yn 2019/20, roedd ei chynulleidfa gyfartalog yn 15.6k o oedolion; yn ystod 2020/21 cynyddodd y ffigur hwn i 17.8k ond mae wedi dychwelyd i 15.6k.
47 Data cyfunol 28 diwrnod BARB ar gyfer yr holl unigolion 4 oed a hŷn. Cafodd newyddion rhwydwaith am 6:00pm gynulleidfa gyfartalog o 3.6 miliwn ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022.
48 Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2022.
49 Tarwch olwg ar Atodiad 1:Cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol.
50 Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.

mae'r BBC yn dweud wrthym ei fod yn bwriadu gwneud rhaglen BBC Radio 5 Live *Nicky Campbell* yn 'weledol' a'i darlledu ar y sianel BBC News ac ar BBC Two.

Disgwylir i'r newidiadau i BBC News a BBC World News ddod i rym o fis Ebrill 2023 ymlaen, felly mae'r BBC yn dal wrthi'n datblygu ei gynlluniau ar gyfer integreiddio'r ddau wasanaeth. Mae'n bwysig bod y BBC yn parhau i gynnig amrywiaeth eang o newyddion domestig i gynulleidfaoedd yn y DU sy'n dibynnu ar wasanaethau a ddarlledir. Mae hyn yn rhan allweddol o gylch gwaith y BBC a byddwn yn ymgysylltu â'r BBC i ddeall ei gynlluniau wrth iddynt ddatblygu.

Fel rhan o'i newidiadau arfaethedig i newyddion a materion cyfoes yn rhanbarthau Lloegr, mae'r BBC wedi cyhoeddi cynlluniau i wella ei ddarpariaeth newyddion lleol ar-lein drwy gynyddu nifer yr ardaloedd ar wahân y mae'n eu gwasanaethu o 42 i 46 a drwy sicrhau bod nifer penodol o straeon sydd o ddiddordeb lleol yn cael eu cyhoeddi ym mhob ardal bob dydd. Mae hefyd wedi cyhoeddi cynlluniau i symleiddio ei arlwy radio a theledu lleol drwy annog mwy o rannu rhaglenni ar draws gwasanaethau radio rhanbarthol, a chau gwasanaethau teledu optio allan[51] yng Nghaergrawnt a Rhydychen. Ni fydd *We are England* yn cael ei hadnewyddu am gyfres arall; yn hytrach, mae'r BBC yn bwriadu gweithredu mewn ffordd fwy ymchwiliol, gyda thimau o newyddiadurwyr ledled y wlad yn nodi straeon posibl ac yn eu blaenoriaethu fesul achos. Mae'r BBC wedi dweud y bydd y timau ymchwilio hyn yn darparu cynnwys aml-lwyfan ar gyfer y radio ac ar-lein, ac efallai y bydd rhai straeon yn rhan o'r bwletinau newyddion rhanbarthol. Mae cynlluniau hefyd i ddatblygu 20-25 o raglenni materion cyfoes untro i'w darparu ar y teledu ac ar BBC iPlayer.

Rydym yn cydnabod, yng nghyd-destun rhewi ffi'r drwydded, ac er mwyn moderneiddio ei weithrediadau a'i allbwn, bod yn rhaid i'r BBC wneud penderfyniadau anodd. Ond wrth wneud y newidiadau hyn, rhaid iddo barhau i ddarparu cynnwys ar gyfer pob cynulleidfa yn y DU, gan gynnwys newyddion a materion cyfoes y rhyngwladol a'r DU ar gyfer cynulleidfaoedd teledu domestig ac ar-lein, yn ogystal â chynnwys newyddion a materion cyfoes wedi'i deilwra ar gyfer y rheini yn y gwledydd a'r rhanbarthau, sy'n gwneud cyfraniad pwysig at gyflawni cylch gwaith y BBC. Mae'n bwysig nad yw'r BBC yn gadael grwpiau cynulleidfa ar ôl.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC wrth iddo ddatblygu ei gynlluniau yn y meysydd hyn, i sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd. O ran parchu ei gynlluniau i symleiddio ei ddarpariaeth radio lleol, rydym yn credu ei bod yn bwysig monitro'r gorsafoedd y mae'r BBC yn rhannu ei raglenni rhyngddynt, yn ogystal â'r rhaglenni penodol sy'n cael eu rhannu. Rydym yn bwriadu gwneud hyn yn y dyfodol i sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu cynnwys lleol pwysig fel newyddion lleol. Os bydd gennym unrhyw bryderon ynghylch sut mae'r BBC yn darparu newyddion a materion cyfoes o ganlyniad i newidiadau arfaethedig, gallem ddiwygio'r Drwydded Weithredu i'n galluogi i'w ddal i gyfrif.

## Amodau'r Drwydded Weithredu


Ochr yn ochr â'n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried perfformiad y BBC o'i gymharu â gofynion newyddion penodol sydd wedi'u nodi yn y Drwydded Weithredu. Oherwydd effaith marwolaeth y Tywysog Philip, a gwallau technegol a chynhyrchu ar wahân, ni lwyddodd y BBC i fodloni dau amod yn ymwneud â Diben 1 ar gyfer y flwyddyn hon. Roedd y ddau amod yma'n ymwneud ag allbwn newyddion radio yn ystod y dydd ar BBC Radio 1 a BBC Radio 1Xtra. Gweler Atodiad 1 am asesiad llawn o ofynion y Drwydded Weithredu.

[51] Gwasanaeth optio allan yw'r amrywiad cenedlaethol neu ranbarthol ar un o sianeli'r BBC (er enghraifft, BBC Two Wales).

# Diben Cyhoeddus 2: Dysgu



### Cyrhaeddiad cynulleidfa wythnosol CBeebies a CBBC




### Cyrhaeddiad wythnosol BBC Bitesize ar borwr

**1.7m** ↑ **2.7m** ↓ **1.8m**

2019/20 2020/21 2021/22


### Graddau cadarnhaol am gynnwys dysgu'r BBC ymysg oedolion y DU

**62%** CADARNHAOL – Rhaglenni a chynnwys sy'n helpu pobl i ddysgu am bethau newydd


**54%** CADARNHAOL – Ymdrin â materion a syniadau efallai nad yw pobl wedi dod ar eu traws o'r blaen

**50%** CADARNHAOL – Ysbrydoli pobl i roi cynnig ar weithgareddau, hobïau neu ddiddordebau newydd

### Oriau rhwydwaith dysgu anffurfiol y BBC a ddarlledwyd am y tro cyntaf




### Cyfanswm munudau o wylio cynnwys dysgu anffurfiol






**71%** o rieni â phlant dan 16 oed yn credu bod y BBC yn cefnogi plant iau gyda'u dysgu

**56%** o rieni â phlant dan 16 oed yn credu bod y BBC yn cefnogi plant yn eu harddegau gyda'u dysgu

**62%** o'r rhai 3-16 oed yn credu bod gan y BBC raglenni a chynnwys sy'n helpu pobl i ddysgu am bethau newydd

---

Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; BARB; data gweinydd mewnol y BBC; Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22; Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2021/22.

## Crynodeb

- Mae cynnwys dysgu ffurfiol y BBC ar gyfer plant, a ddarperir drwy Bitesize yn bennaf, yn parhau i gael ei ddefnyddio'n helaeth a'i barchu'n fawr gan gynulleidfaoedd. Mae plant o grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ddefnyddio BBC Bitesize, ac mae'r rheini sy'n ei ddefnyddio yn llai tebygol na'r rheini mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch o gytuno ei fod yn ddefnyddiol iddyn nhw ar gyfer eu gwaith ysgol neu eu gwaith cartref.
- Mae'r nifer sy'n gwylio sianeli darlledu CBBC a CBeebies wedi gostwng, ac yn gyffredinol nid yw'r defnydd o apiau a gwefannau plant y BBC yn atal y gostyngiad yn y defnydd o wasanaethau teledu; fodd bynnag, mae gan ddefnyddwyr a'u rhieni farn gadarnhaol ar CBeebies a CBBC yn gyffredinol.
- Bu gostyngiad yn lefelau gwylio a darpariaeth gyffredinol cynnwys dysgu anffurfiol i oedolion, er bod y BBC yn perfformio'n dda o'i gymharu â darparwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill ar gyfer darparu'r cynnwys hwn.

***Mae'r Siarter Frenhinol yn datgan*:** *Y Deyrnas Unedig a'r byd ehangach. Dylai'r cynnwys gael ei ddarparu yn unol â'r safonau golygyddol uchaf. Dylai gynnig cynnwys a dadansoddiad manwl ac amrywiol, nad ydynt ar gael yn helaeth gan ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig, drwy ddefnyddio newyddiadurwyr a chyflwynwyr o'r radd flaenaf, a hybu rhyddid mynegiant, er mwyn i'r holl gynulleidfaoedd allu ymgysylltu'n llawn â materion pwysig yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol, yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion egnïol a gwybodus.*

# Dysgu ffurfiol

Mae'r BBC yn darparu cymorth ar gyfer dysgu ffurfiol plant a phobl ifanc ar-lein drwy BBC Bitesize. Mae hefyd yn cynnig cymorth i athrawon drwy BBC Teach.

**Mae'r BBC wedi ehangu ei arlwy dysgu ffurfiol, sy'n dal i gael ymateb cadarnhaol gan rieni, plant ac athrawon**

Yn ôl ein Traciwr Perfformiad Gwasanaethau Plant y BBC, dywed tua hanner (52%) y plant rhwng 4 ac 16 oed eu bod yn defnyddio BBC Bitesize ar gyfer eu gwaith cartref neu eu gwaith ysgol.[53] Mae data mewnol y BBC yn dangos bod defnydd BBC Bitesize bellach wedi dychwelyd i'w lefelau a'i batrymau defnyddio cyn y pandemig.[54] Mae ein data yn dangos bod tua naw o bob deg (87%) o ddefnyddwyr 4-16 oed yn dweud eu bod yn teimlo bod BBC Bitesize yn ddefnyddiol ar gyfer eu gwaith cartref neu eu gwaith ysgol. Fodd bynnag, mae plant mewn aelwydydd DE yn llai tebygol o ddefnyddio BBC Bitesize, ac mae'r rheini sy'n gwneud hynny yn llai tebygol na'r rheini mewn aelwydydd AB o ddweud ei fod yn ddefnyddiol iddynt. Mae plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol na phlant Gwyn o ddefnyddio BBC Bitesize, ac maent hefyd yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn ei golli pe na bai ar gael mwyach.[55]

[53] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2021/22. Ymatebion gan rieni/gwarcheidwaid ar gyfer plant 4-7 oed a gan blant 8-16 oed.
[54] Data gweinydd mewnol y BBC: Roedd gan BBC Bitesize gyrhaeddiad wythnosol cyfartalog o 1.8 miliwn mewn porwyr yn 2021/22, o'i gymharu â 2.7 miliwn yn 2020/21 (mae'r flwyddyn yn cynnwys dysgu dan gyfyngiadau symud), ac 1.7 miliwn yn 2019/20.
[55] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2021/22.

Mae'r defnydd o BBC Teach wedi cynyddu ers 2018/19, sy'n dangos ei fod bellach wedi hen ennill ei blwyf fel adnodd i athrawon; cafodd ei gyrchu gan 1.5 miliwn o borwyr ar gyfartaledd bob wythnos yn 2021/22.[56] Mae'n debyg ei fod yn elwa o hwb mewn ymwybyddiaeth a defnydd o ganlyniad i atal addysgu wyneb yn wyneb mewn llawer o ysgolion ledled y wlad yn ystod pandemig Covid-19. Yn ôl data'r BBC, mae tri chwarter (74%) yr athrawon cynradd yn ymwybodol o BBC Teach, gyda 43% wedi'i ddefnyddio neu'n bwriadu ei ddefnyddio y tymor hwn. Mae'r ffigurau ychydig yn is ar gyfer athrawon ysgol uwchradd, gyda saith o bob deg (69%) yn ymwybodol ohono a 36% yn ei ddefnyddio neu'n bwriadu ei ddefnyddio y tymor hwn.[57]

Eleni, cynhyrchodd y BBC dros 80 o oriau newydd o gynnwys Bitesize Daily i'w ddarlledu ar CBBC yn ystod tymor yr haf 2021, a 2021/22 oedd blwyddyn gyntaf cynllun tair blynedd sydd â'r nod o gynyddu cyfraniad BBC Bitesize at ganlyniadau dysgwyr ar gyfer plant 5-16 oed.[58] Mae'r BBC hefyd wedi dweud wrthym ei fod yn gwella rhyngwyneb defnyddwyr gwefan BBC Bitesize, ac yn treialu mwy o bersonoleiddio.

## Dysgu anffurfiol i blant

Mae cynnwys dysgu anffurfiol y BBC i blant yn cael ei ddarparu drwy CBeebies a CBBC ar y teledu, ar wefan y BBC a'i apiau i blant, ac ar BBC iPlayer a BBC Sounds. Mae gan gynnwys CBeebies gynulleidfa darged o blant 0-6 oed, ac mae CBBC yn targedu plant 6-12 oed.

**Cyrhaeddiad CBeebies a CBBC yn parhau i ostwng**

Mae newidiadau sylfaenol wedi bod yn arferion gwylio plant dros y blynyddoedd diwethaf. Mae ein hymchwil yn dangos bod mwy o blant nawr yn gwylio fideo ar-alw na theledu a ddarlledir, a Netflix a YouTube yw'r gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio fwyaf ymysg plant 3-16 oed o hyd.[59] Eleni eto, er mai CBeebies a CBBC yw'r sianeli teledu plant sy'n cael eu gwylio fwyaf yn y DU ymysg eu cynulleidfaoedd targed, mae'r naill a'r llall wedi gweld gostyngiad yn nifer y plant sy'n eu gwylio, a faint o amser sy'n cael ei dreulio'n eu gwylio.[60]

Eleni, mae'r amser gwylio ar gyfer y sianel CBeebies a ddarlledir ymysg plant iau wedi gostwng i 13 munud y dydd, ar ôl bod yn gymharol sefydlog ar tua 16-17 munud y dydd dros y tair blynedd diwethaf.[61] Er gwaethaf hyn, ni fu gostyngiad yn swm y cynnwys newydd sydd ar gael ar CBeebies, gydag oriau[62] a gwariant gwreiddiol a ddarlledir am y tro cyntaf yn dychwelyd bron i'r lefelau cyn pandemig Covid-19.[63]

Mae'r amser gwylio ar gyfer y sianel CBBC a ddarlledir wedi gostwng i ddim ond dau funud y dydd ar gyfartaledd ar gyfer ei chynulleidfa darged, gan ostwng tua munud bob blwyddyn ers 2018.[64] Ar lefel eang,

[56] Data gweinydd mewnol y BBC (Piano Analytics).
[57] Ymchwil y BBC: Traciwr Athrawon a Myfyrwyr DJS Research (Haf 2021, Hydref 2021, Gwanwyn 2022).
[58] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22 t.23.
[59] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2021/22.
[60] Data 28 diwrnod cyfunol BARB ar gyfer oriau darlledu pob sianel. Meini prawf cyrhaeddiad: Dros 3 munud yn olynol (cyfartaledd wythnosol). Nid yw hyn yn cynnwys cyrhaeddiad CBBC a CBeebies ar BBC iPlayer.
[61] Data 28 diwrnod cyfunol BARB, oriau darlledu CBeebies ar gyfer gwŷr/gwragedd tŷ gyda phlant 0-3 oed. Defnyddir y gynulleidfa hon fel procsi ar gyfer plant iau na 4 oed. Gŵr/gwraig tŷ yw'r un aelod o'r aelwyd sy'n gyfrifol yn gyfan gwbl neu'n bennaf am ddyletswyddau'r cartref.
[62] Mae 'rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf' yn golygu cynyrchiadau sy'n cael eu comisiynu gan neu ar gyfer un o wasanaethau teledu'r BBC, nad ydynt wedi cael eu dangos o'r blaen ar deledu yn y DU.
[63] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[64] Data 28 diwrnod cyfunol BARB, oriau darlledu CBBC ar gyfer plant 6-12 oed.

mae oriau allbwn ar CBBC wedi aros yn gyson â’r blynyddoedd diwethaf, er bod oriau addysg ffurfiol wedi cynyddu yn ystod 2021, gan arwain at ostyngiad o 4% mewn rhaglenni plant anffurfiol ar y sianel.[65]

Roedd gwasanaethau addysg/plant y BBC wedi cyrraedd saith o bob deg (72%) o blant 0-6 oed ar gyfartaledd bob wythnos yn 2021/22, sy’n is na chyn y pandemig Covid-19. Roedd y gwasanaethau cyfatebol ar gyfer plant 7-12 oed wedi cyrraedd 46% o’r grŵp oedran hwn mewn wythnos arferol yn yr un cyfnod, ond mae’r cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog ar gyfer BBC iPlayer (plant ac addysg) wedi aros yn sefydlog. Fel y nodwyd gennym yn adroddiad y llynedd, gwelwyd gostyngiad cyffredinol unwaith eto yn y cyrhaeddiad ar gyfer gwasanaethau addysgol/gwasanaethau plant y BBC, yn fwyaf nodedig o ran y grŵp oedran 7-12. Nid yw’r defnydd o apiau a gwefannau’r BBC wedi gwneud iawn am y gostyngiad yn y defnydd o wasanaethau teledu plant.[66]

**Er gwaethaf y gostyngiad mewn cyrhaeddiad, mae cynnwys plant y BBC yn dal i gael sgôr uchel.**

Yn ôl ein hymchwil, ymysg rhieni plant 3-11 oed, mae CBeebies a CBBC yn cymharu'n ffafriol â'r hyn mae CITV a Channel 5 yn ei gynnig i blant; CBeebies yw’r gwasanaeth â’r sgôr gorau o'r pedwar a fesurir ar draws y ddau ddatganiad: *‘amrywiaeth eang o gynnwys i blant wedi’i wneud yn y DU’* a *‘rhaglenni o ansawdd uchel i blant’*.[67] Fodd bynnag, yn ôl data’r BBC, mae canfyddiad plant 7-12 oed o BBC iPlayer yn is na’r sgôr ar gyfer plant dan 7 oed, ac mae’r sgôr brand[68] ar gyfer CBBC ymysg plant 7-12 oed yn dal yn is nag ar gyfer CBeebies ymysg plant dan 7 oed.[69]

Mae ein Traciwr Perfformiad Gwasanaethau Plant y BBC yn dangos bod CBeebies a CBBC yn cael sgôr cadarnhaol ar y cyfan; mae naw o bob deg (87%) o rieni gwylwyr CBeebies 3-7 oed yn dweud eu bod yn cytuno bod ‘*llawer o wahanol fathau o raglenni CBeebies’* ac mae 81% o wylwyr 8-11 oed yn dweud yr un peth am CBBC. Mae cyfran debyg o rieni gwylwyr CBeebies 3-7 oed (86%) yn cytuno bod *‘rhaglenni CBeebies yn eu dysgu am y byd’*, er bod y ffigur hwn ychydig yn is ar gyfer plant 8-11 oed pan ofynnwyd iddynt am CBBC (74%). Fodd bynnag, mae 37% o rieni plant 3-7 oed yn dweud bod *‘CBeebies yn ddiflas weithiau’*, gyda chyfran debyg (39%) o blant 8-11 oed yn dweud yr un fath am CBBC.[70]

**Er mwyn parhau i fod yn berthnasol i’w gynulleidfaoedd iau, mae’r BBC wedi bod yn gwneud newidiadau o ran sut mae’n darparu cynnwys i blant**

[65] Dadansoddiad Ofcom o ddata’r BBC. Darlledwyd 4,966 awr o gynnwys ar CBBC yn 2021. Mae hyn ychydig yn is na’r 4,984 awr yn 2020, a oedd yn flwyddyn naid.
[66] Ymchwil y BBC: Kids Cross-Media Insight gan Ipsos MORI.
[67] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2021
[68] Metrig yw sgôr brand sy’n mesur canfyddiad cyffredinol o frand ymysg y rhai sy’n ymwybodol ohono.
[69] Ymchwil y BBC: Arolwg Chatterbox gan Ipsos MORI.
[70] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2021/22.

Yn 2020, fe wnaethom gytuno i leihau'r cwota ar gyfer rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn y DU ar gyfer CBBC ac i alluogi'r BBC i ystyried cynnwys plant sy'n cael ei gomisiynu yn arbennig ar gyfer BBC iPlayer, neu sydd ar gael ar BBC iPlayer yn unig, tuag at ei gwota o raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn y DU.[71] Gwnaethom hefyd gymeradwyo newidiadau i'r ddarpariaeth newyddion i blant (gweler isod).

Yn fwy diweddar, mae'r BBC wedi dweud ei fod yn ceisio apelio'n well at y grŵp oedran 6-12 drwy ddangos mwy o animeiddiadau[72] gyda chomisiynau newydd yn y DU ar y gweill a rhaglenni a brynir yn llenwi'r bwlch nes bydd y rhaglenni hyn yn cyrraedd y sgrin. Mae allbwn CBBC yn y blynyddoedd diwethaf yn adlewyrchu hyn, gyda rhaglenni newydd a brynir yn codi o 0.5% o oriau yn 2019 i 2% yn 2021, ac animeiddio yn dilyn tuedd debyg tuag i fyny (o 11% o oriau yn 2019 i 27% yn 2021).[73] Ym mis Mai eleni, fe wnaethom gymeradwyo newid i'r Drwydded Weithredu er mwyn caniatáu gostyngiad bach yn nifer y cynyrchiadau gwreiddiol a ddarlledir ar CBBC, er mwyn helpu i alluogi'r newidiadau hyn.[74] Mae'r BBC wedi dweud wrthym fod rhai o'i deitlau animeiddio, yn enwedig rhaglenni sydd wedi cael eu prynu'n ddiweddar, yn perfformio'n dda ymysg cynulleidfaoedd C2DE.

Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod yn ceisio ehangu cynulleidfaoedd plant i BBC iPlayer. Mae'n treialu gwahanol strategaethau; er enghraifft, mwy o drawshyrwyddo, sicrhau bod cynnwys ar gael yn rhwydd ar-lein drwy eu rhyddhau fel 'bocs set' ar BBC iPlayer, ac ychwanegu cynnwys yn rheolaidd at ei sianeli YouTube i blant. Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod wedi cynnal ymgyrch aml-lwyfan yn ystod haf 2022 ynghylch lansio teitlau newydd wedi'u hanimeiddio, a arweiniodd at gyfran fwy o wylio byw ar CBBC (o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd) a hefyd at nifer fawr o geisiadau i BBC iPlayer.

Y llynedd, fe wnaethom ddweud, er bod y BBC wedi ehangu ei arlwy i blant, y byddai angen iddo barhau i esblygu ei ddarpariaeth mewn ymateb i'r gystadleuaeth am sylw plant gan lwyfannau a gwasanaethau eraill. Rydym yn cydnabod bod y BBC yn cymryd risgiau ac rydym yn ei annog i barhau i arloesi; byddwn yn monitro cynnydd wrth iddo ddatblygu'r hyn mae'n ei gynnig i blant ymhellach.

## Y diweddaraf am y newidiadau i Drwydded Weithredu'r BBC o ran darparu newyddion i blant

Yn dilyn proses ymgynghori, ym mis Gorffennaf 2020 fe wnaethom dderbyn cais y BBC i newid y Drwydded Weithredu i ganiatáu iddo leihau faint o newyddion sy'n cael ei ddarlledu ar sianel CBBC er mwyn gallu ehangu *Newsround* ar-lein. Roedd y BBC o'r farn y byddai'r newidiadau hyn yn ei helpu i ymgysylltu'n well â chynulleidfaoedd iau, yng nghyd-destun eu defnydd cynyddol o gynnwys ar-lein. Fe wnaethom ganiatáu i'r BBC leihau ei gynnwys newyddion ar CBBC i un rhifyn dyddiol o *Newsround* yn hytrach na dangos newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd. O ganlyniad i'r newid hwn, dywedodd y BBC y byddai'n dadansoddi ac yn rhoi sylw manylach i ragor o straeon newyddion ar wefan *Newsround*. Lansiodd y BBC

[71] Fe wnaethom hefyd gyflwyno gofynion trwydded newydd i sicrhau bod o leiaf hanner y rhaglenni gwreiddiol o'r DU i blant sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf, y mae gofyn i'r BBC eu darparu, yn cael eu dangos ar sianeli llinol CBBC a CBeebies, fel mesur diogelu.

[72] Mae'r BBC wedi nodi bod animeiddio yn gyfrwng allweddol i gyrraedd a chadw plant 6-12 oed. Mae wedi dweud wrthym fod teitlau wedi'u hanimeiddio yn rhan bwysig o'i gynnwys dysgu anffurfiol, a'i fod yn cael ei ymgorffori yn ei gynnwys dysgu ffurfiol hefyd.

[73] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.

[74] Mae'r BBC wedi dweud wrthym fod gan rai teitlau animeiddio a gomisiynir amser aros o tua 3 blynedd.

sianel YouTube *Newsround* hefyd ar yr un pryd, gan ddod â chynnwys o wefan *Newsround* a'r bwletinau dyddiol at ei gilydd.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r niferoedd sy'n gwylio bwletin boreol *Newsround* ar y teledu wedi tueddu i amrywio, gyda mwy yn gwylio yn ystod y tymor ysgol a llai yn gwylio yn ystod gwyliau'r ysgol. Ers i ni ganiatáu i'r BBC wneud newidiadau i'r ddarpariaeth, mae'r patrwm hwn wedi parhau, er bod lefelau gwylio *Newsround* o un flwyddyn i'r llall wedi aros yn weddol gyson ers 2018[75]. Mae'r BBC yn dweud wrthym ei fod yn defnyddio bwletin y bore yn fwyfwy fel adnodd i athrawon, gan annog plant i'w wylio'n annibynnol hefyd.

Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod wedi ehangu'r amrywiaeth o gynnwys ar wefan *Newsround* yn ôl y bwriad, gan ddarparu tua 20 o straeon newydd bob dydd. Yn dilyn cyfnodau brig yn ystod pandemig Covid-19, dros y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd gostyngiad yng nghyrhaeddiad wythnosol cyfartalog *Newsround* ar borwyr, i lefelau is nag oeddent cyn y pandemig. Yn fwy cadarnhaol, ers gwneud yn newidiadau, mae nifer cyfartalog y tudalennau sy'n cael eu gweld bob wythnos fesul ymwelydd wedi cynyddu.[76] Yn ôl data'r BBC, mae'r defnydd honedig a wneir o wefan *Newsround* hefyd wedi cynyddu ar gyfer plant 6-9 oed dros y ddwy flynedd diwethaf,[77] a allai ddangos bod y wefan bellach yn darparu mwy o gynnwys sydd o ddiddordeb i blant o'r oedran hwn.




Er gwaethaf amrywiadau o ran gwylio'r bwletin ac ymgysylltu â gwefan *Newsround*, mae ein Traciwr Perfformiad Gwasanaethau Plant y BBC yn dangos bod tri chwarter y plant 8-16 oed sy'n ymgysylltu â *Newsround* yn teimlo ei fod yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, mae'r rheini mewn aelwydydd DE yn llai tebygol o gytuno â hyn, ac mae'r rheini mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol o gytuno. O'r plant hynny rhwng 8 ac 16 oed nad ydynt yn gwylio *Newsround* nac yn defnyddio'r wefan, mae tua hanner wedi clywed amdano. Mae'r rheini nad ydynt yn ei ddefnyddio yn dweud nad ydyn nhw'n ei wylio/ei ddefnyddio oherwydd nid oes ganddyn nhw ddiddordeb ynddo, ei fod yn ddiflas, neu ei fod yn rhy ifanc iddyn nhw.[78]

## Dysgu anffurfiol i oedolion

Mae'r BBC hefyd yn darparu cynnwys sy'n cefnogi dysgu oedolion, gan gynnwys rhaglenni ffeithiol ar draws amrywiaeth o genres fel y celfyddydau, crefydd, hanes a gwyddoniaeth, ar deledu, radio ac ar-lein (rydym

[75] Dadansoddiad y BBC o ddata BARB.
[76] Data gweinydd mewnol y BBC (Piano Analytics).
[77] Ymchwil y BBC: Kids Cross-Media Insight gan Ipsos MORI.
[78] Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2021/22.

yn edrych yn fanylach ar yr ystod ehangach o genres a ddarperir gan y BBC ym mhennod Diben 3 yr adroddiad hwn).

**Mae'r BBC yn parhau i ddarparu mwy o gynnwys dysgu anffurfiol i oedolion na sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill**

Yn 2021 roedd 654 o oriau dysgu anffurfiol gwreiddiol o'r DU a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf ar BBC One a BBC Two, o'i gymharu â 520 awr ar draws prif sianeli ITV, Channel 4 a Channel 5 gyda'i gilydd. Pan fydd cynnwys sydd wedi'i gaffael a'i ailadrodd yn cael ei gynnwys, mae hyn yn cynyddu i 2,624 o oriau ar y BBC o'i gymharu â 2,041 o oriau ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol – er bod y BBC, yn benodol, yn darparu ystod ehangach o is-genres o fewn y cyfanswm hwn.[79]

Fodd bynnag, fe wnaeth darpariaeth gyffredinol y BBC o gynnwys dysgu anffurfiol barhau i ostwng yn 2021, yn ogystal â'r duedd hirdymor tuag i lawr yn yr oriau dysgu anffurfiol newydd a gwreiddiol. Er bod cyfyngiadau teithio cysylltiedig â Covid-19 wedi parhau i effeithio ar raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf mewn genres penodol fel cynnwys ffeithiol arbenigol, mae gostyngiad wedi bod yn y rhan fwyaf o is-genres yn gyffredinol. Roedd hyn yn cael ei briodoli'n rhannol i lai o oriau newydd ar BBC Four, yn unol â newidiadau strategol gan y BBC.[80] Mae cyfanswm y gwariant ar ddysgu anffurfiol wedi gostwng ers 2020, ac mae hynny wedi cael ei sbarduno'n benodol gan ostyngiad o 13% yn y gwariant ar raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.[81]

Ymysg oedolion 16 oed a hŷn, roedd cyfanswm munudau gwylio genres dysgu anffurfiol ar deledu a ddarlledir wedi parhau i ostwng yn 2021, ac ar gyflymder uwch na'r gostyngiad yn nifer y munudau sy'n cael eu darlledu. Ar ben hynny, mae'r gyfran sy'n gwylio dysgu anffurfiol wedi gostwng o 7.4% yn 2019 i 4.8% yn 2021. Er bod allbwn a lefelau gwylio cerddoriaeth wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall, y celfyddydau oedd â'r gostyngiad cyfrannol mwyaf mewn lefelau gwylio (-24%), ond y genre rhaglenni dogfen ehangach a arweiniodd at y gostyngiad cyffredinol (-21%).[82]

**Er gwaethaf y gostyngiad mewn oriau, gwariant a gwylio, mae cynulleidfaoedd yn rhoi sgôr gadarnhaol i gynnwys dysgu anffurfiol y BBC**

Mae'r BBC yn perfformio'n dda o'i gymharu â sianeli teledu darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill ar gyfer darparu cynnwys dysgu anffurfiol. Yn ôl ein hymchwil, mae bron i dri o bob pump (58%) o ymatebwyr yn dweud bod sianeli teledu'r BBC yn cyflawni'n dda (sgôr o 7-10 allan o 10) ar gyfer *'rhaglenni am wyddoniaeth, diwylliant y celfyddydau a chrefydd'*. Mae BBC iPlayer hefyd yn cymharu'n ffafriol â gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill ar gyfer y datganiad hwn.[83] Mae'r BBC hefyd yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys dysgu anffurfiol drwy ei wefan, ac ar y radio ac ar BBC Sounds.

Mae tua chwech o bob deg (62%) yn rhoi sgôr gadarnhaol i'r BBC am *'raglenni a chynnwys sy'n helpu pobl i ddysgu am bethau newydd.'* Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd y DU ar gyfer y rheini mewn

---

79 Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr.
80 Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Cyn 2020, roedd BBC Four yn gyfrifol am ychydig dros 20% o oriau dysgu anffurfiol newydd. Nododd y BBC yn ei Gynllun Blynyddol 2021/22 ei fod yn bwriadu dangos mwy o gynnwys archif ar BBC Four.
81 Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
82 Data cyfunol 28 diwrnod BARB. Grŵp genre dysgu anffurfiol sy'n cynnwys y celfyddydau, cerddoriaeth, crefydd a rhaglenni dogfen: hanes, hanes modern, hanes naturiol a natur, a gwyddoniaeth/meddygol.
83 Traciwr PSM Ofcom 2021.

aelwydydd AB (68%), ac yn sylweddol is ar gyfer y rheini mewn aelwydydd DE (54%). Mae'r farn mewn aelwydydd DE wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall, o 61% i 54%. Mae ymatebwyr mewn aelwydydd DE hefyd yn llai tebygol na chyfartaledd y DU o roi sgôr uchel i'r BBC am *'archwilio materion a syniadau nad yw pobl efallai wedi dod ar eu traws o'r blaen'* ac *'ysbrydoli pobl i roi cynnig ar weithgareddau, hobïau neu ddiddordebau newydd.'*[84]

Fe wnaethom ddweud yn Adroddiad Blynyddol y llynedd y gallai'r BBC wneud mwy i ddangos effaith ei gynnwys dysgu anffurfiol ac adrodd ar hynny. Mae Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22 yn cynnwys dau fetrig newydd sy'n dangos bod cynulleidfaoedd, at ei gilydd, yn fodlon â chynnwys dysgu anffurfiol y BBC: canran yr oedolion yn y DU sy'n meddwl bod y BBC yn '*effeithiol wrth archwilio pynciau y byddent yn gwybod llai amdanynt fel arall'*[85]; a chanran y cynulleidfaoedd sy'n sgorio '*rhaglenni'r BBC yn erbyn rhaglenni darlledwyr eraill am eu helpu i ddysgu rhywbeth newydd*' (ar gyfer radio a theledu).[86]

Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i'r BBC, yn yr amgylchedd cyllido heriol sydd ohoni, wneud penderfyniadau anodd am ei allbwn. Fodd bynnag, o ystyried rôl y BBC fel darparwr cynnwys dysgu anffurfiol dibynadwy ar gyfer cynulleidfaoedd y DU, byddem yn bryderus petai cynnwys dysgu anffurfiol gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn chwarae rôl lai o lawer yn ei bortffolio yn y dyfodol. Mae hefyd yn hanfodol bod cynulleidfaoedd yn gallu parhau i gael gafael ar y cynnwys hwn ar draws holl lwyfannau a gwasanaethau'r BBC, gan gynnwys darlledu, ar-lein, BBC iPlayer a BBC Sounds.

## Partneriaethau

Mae gan y BBC ddyletswydd i gydweithio mewn partneriaeth â sefydliadau diwylliannol, chwaraeon ac addysgol i annog pobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd. Er gwaethaf gostyngiad yn nifer y partneriaethau cyffredinol o 555 yn 2020/21 i 494 eleni[87], mae'r BBC yn parhau i gymryd rhan mewn ystod eang o bartneriaethau ledled y DU, gan gynnwys ym meysydd y celfyddydau, chwaraeon, plant, newyddion, ymchwil a datblygu, radio a cherddoriaeth, yn ogystal â datblygu sgiliau.

Er enghraifft, cyn cynhadledd newid hinsawdd COP26, a gynhaliwyd yn Glasgow ym mis Tachwedd 2021, lansiodd y BBC ei ymgyrch BBC Bitesize Regenerators, sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd amgylcheddol ac ysbrydoli plant a phobl ifanc i ystyried eu heffaith ar y blaned. Er mwyn creu cynnwys ar gyfer yr ymgyrch Regenerators, bu'r BBC yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o bartneriaid gan gynnwys y Brifysgol Agored, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, y Ganolfan Ynni'r Môr Ewropeaidd a'r Gymdeithas Arddwriaeth Frenhinol, ymysg eraill.

Fe wnaethom ddweud yn Adroddiad Blynyddol y llynedd y gallai fod angen i'r BBC fabwysiadu dull gweithredu mwy uchelgeisiol ar gyfer partneriaethau ac y dylai wella'r ffordd mae'n mesur ac yn dangos eu heffaith. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r BBC wedi bod yn datblygu fframwaith newydd i asesu effaith partneriaethau. Mae'r fframwaith yng nghamau cynnar ei weithrediad a bydd yn cael ei dreialu gyda nifer o bartneriaid allweddol. Mae hwn yn gam cyntaf i'w groesawu ac rydym yn parhau i annog y BBC i ystyried

---

[84] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22.
[85]Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22', t 170. Mae 62% o oedolion y DU yn dweud bod y BBC yn '*effeithiol wrth archwilio pynciau y byddent yn gwybod llai amdanynt fel arall'* ac mae 17% yn dweud bod y BBC yn aneffeithiol.
[86]Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22', t 171. Mae 72% o oedolion y DU yn dweud bod rhaglenni teledu'r BBC y maen nhw wedi'u gwylio yn rhai sy'n eu '*helpu i ddysgu rhywbeth newydd*' (rhaglenni teledu nad ydynt yn rhaglenni teledu'r BBC: 58%). Mae 69% o oedolion y DU yn dweud bod rhaglenni radio'r BBC y maen nhw wedi gwrando arnynt yn rhai sy'n eu '*helpu i ddysgu rhywbeth newydd*' (rhaglenni radio nad ydynt yn rhai'r BBC: 52%).
[87] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22, t.74.

dull cynhwysfawr o fesur y portffolio partneriaethau wrth i'r fframwaith ddatblygu ac ymsefydlu. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC wrth iddo ddatblygu ei ddull gweithredu.

## Amodau'r Drwydded Weithredu

Ochr yn ochr â'n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried perfformiad y BBC yn erbyn amodau perthnasol Diben 2 y Drwydded Weithredu. Ar gyfer y cyfnod adrodd hwn (2021/22) roedd y BBC wedi cydymffurfio'n llawn â'r amodau o dan Ddiben Cyhoeddus 2. Gweler Atodiad 1 am asesiad llawn o ofynion y Drwydded Weithredu.

# Diben Cyhoeddus 3: Naws unigryw

## Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, uchaf eu hansawdd ac unigryw

Gall naws unigryw fod yn oddrychol i'w hasesu. Isod, amlygwn ychydig o fetrigau allweddol i roi mewnwelediad i sut mae'r BBC yn unigryw. Dyma ddetholiad cychwynnol o fetrigau yr ydym eisiau eu tracio dros amser fel rhan o'n gwaith ar Drwydded Weithredu newydd. Byddwn hefyd yn monitro marchnadoedd a thueddiadau marchnad i nodi unrhyw ddata newydd sy'n ategu hyn


### GWREIDDIOLDEB

**Gwariant teledu rhwydwaith y BBC ar raglenni mewn perygl yn 2021**





Roedd 19% o wariant ar genres mewn perygl: Crefydd a Moeseg, Ffeithiol Arbenigol, Cerddoriaeth, Celfyddydau, Comedi a Phlant

**Oriau a gwariant gwreiddiol darlledu am y tro cyntaf**





**Cyfradd ailadrodd traciau cerddoriaeth ar y radio (%)**




### ARLOESEDD


**Oriau rhaglenni newydd a dychwelyd y BBC**




**45** o fentrau cynllun dawn, bwrsariaeth ac wedi'u targedu

*o gymharu â 30 cynllun yn 2020*

**Cwmnïau cynhyrchu newydd sy'n gweithio gyda'r BBC**




### CANFYDDIADAU CYNULLEIDFAOEDD

**Graddau cadarnhaol am agweddau at naws unigryw y BBC ymysg oedolion y DU**

| | |
|---|---|
| 61% CADARNHAOL | Darparu cynnwys o safon uchel a chreadigol |
| 64% CADARNHAOL | Darparu cynnwys sydd wedi'i greu ar gyfer cynulleidfaoedd y DU |
| 46% CADARNHAOL | Darparu cynnwys sy'n wahanol i ddarparwyr eraill |
| 46% CADARNHAOL | Darparu cynnwys sy'n meiddio bod yn wahanol |

**Graddau cadarnhaol BVoD ar gyfer... darparu amrywiaeth eang o fathau gwahanol o raglenni[1]**

| BBC iPLAYER | ITV HUB | 4 | My5 |
|---|---|---|---|
| 73% | 64% | 61% | 53% |

**darparu rhaglenni am y gwyddorau, y celfyddydau, diwylliant a chrefydd[2]**

| BBC iPLAYER | 4 | ITV HUB | My5 |
|---|---|---|---|
| 63% | 50% | 41% | 39% |

Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC; Radiomonitor; Adroddiad Comisiynu Cyflenwad Teledu'r BBC; Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22; Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2021 (mae ITV Hub a ITV Hub+ ac All4 ac All4+ wedi'u cynnwys yn y data). Ar gyfer cerddoriaeth newydd, mae'r siart yn dangos y gyfran o'r holl draciau cerddoriaeth a ddosberthir fel cerddoriaeth

## Crynodeb

- Mae'r BBC yn parhau i ddarparu gwasanaethau unigryw drwy lefel ei fuddsoddiad mewn cynnwys newydd o ansawdd uchel yn y DU a hyd a lled ei allbwn, ond ni all golli golwg ar genres sydd 'mewn perygl' ac mae angen iddo barhau i gomisiynu cynnwys newydd yn y genres hyn.
- Mae cynulleidfaoedd yn dal i gysylltu'r BBC yn llai â chymryd risgiau ac arloesi. Gallai'r BBC fynd ati'n well i werthuso ei fentrau ac egluro sut mae'n blaenoriaethu'r nodweddion hyn yn ei brosesau.
- Bydd angen i'r BBC asesu'n agored y strategaethau y mae wedi'u rhoi ar waith i gyrraedd cynulleidfa eang, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau a DE.

***Mae'r Siarter Frenhinol yn datgan:*** *Dylai'r BBC ddarparu allbwn o safon uchel mewn nifer o wahanol genres ar draws amrywiaeth o wasanaethau a llwyfannau, sy'n gosod y safon yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Dylai ei wasanaethau fod yn wahanol i'r rhai sy'n cael eu darparu mewn mannau eraill, a dylai gymryd risgiau creadigol, hyd yn oed os nad ydynt i gyd yn llwyddiannus, er mwyn datblygu dulliau gweithredu newydd a chynnwys arloesol.*

Mae naws unigryw yn mesur sut mae'r BBC yn cymharu â darlledwyr eraill, yn ogystal â mesur y gwerth unigryw mae'n ei gynnig i gynulleidfaoedd. Mae'n ganolog i'r hyn rydym yn disgwyl i'r BBC ei wneud. Mae'r prif ffactorau sy'n sbarduno naws unigryw yn cynnwys ehangder ac ansawdd yr allbwn, gan gynnwys rhaglenni mewn genres nad ydynt yn cael eu darparu'n ddigonol mewn mannau eraill ar draws cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, faint o gynnwys newydd a gwreiddiol o'r DU sydd ar gael, allbwn arloesol a chymryd risg, a'r amrywiaeth o gynulleidfaoedd mae'r BBC yn eu cyrraedd ac yn eu gwasanaethu.[89] Fodd bynnag, nid yw naws unigryw yn golygu bod angen i holl raglenni'r BBC fod yn wahanol i'r hyn mae darlledwyr eraill yn ei ddarparu. Felly, mae hwn yn un o'r Dibenion mwy goddrychol i'w asesu.

**Mae gwariant y BBC ar raglenni teledu wedi gwella ers 2020, ac mae'r rhan fwyaf o hwn yn dal i gael ei fuddsoddi mewn cynnwys gwreiddiol o'r DU**

Roedd cyfanswm gwariant teledu'r BBC ar ei uchaf ers pum mlynedd, wedi'i sbarduno gan yr ôl-groniad o gynyrchiadau a gafodd eu gohirio yn ystod pandemig Covid-19, a digwyddiadau chwaraeon mawr fel Gemau Olympaidd Tokyo a phencampwriaeth bêl-droed Ewro 2020 y dynion yn cael eu gwthio ymlaen. O'r gwariant cyffredinol hwn, cafodd 93% ei ddyrannu i raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf – cyfran debyg i'r blynyddoedd blaenorol – gyda'r oriau o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn sefydlog ar 46% o gyfanswm oriau teledu'r BBC. Mae hyn yn cwmpasu ystod lawn sianeli'r BBC, ac felly nid oes modd cymharu hyn yn uniongyrchol â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol sydd â llai o sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus dynodedig. O'i chymharu â phrif sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, fodd bynnag, mae gan BBC One gyfran uwch o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, sef 76% o'r oriau o'i gymharu â 62% ar gyfer ITV, 32% ar gyfer Channel 4, a 24% ar gyfer

---

newydd, ac mae'n seiliedig ar ddata o dair wythnos sampl ar draws pob blwyddyn ariannol.
[1] ystod eang o wahanol fathau o raglenni fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon.
[2] yn cwmpasu rhai o'r genres rhaglenni sydd wedi'u diffinio fel 'mewn perygl.'
[89] Gweler hefyd Cytundeb Fframwaith y BBC, Atodlen 2, paragraffau 1.(1) a (2).

Channel 5.[90] Mae'r BBC hefyd yn cynnig llawer mwy o gynnwys newydd o'r DU o'i gymharu â gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD), y mae eu cynnwys gwreiddiol newydd o'r DU yn gyfran fach o gyfanswm eu horiau.[91]

Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r BBC yn wynebu heriau ariannol a fydd yn cael mwy a mwy o effaith ar ei bŵer gwario. Wrth iddo roi newidiadau strategol ar waith, mae'n bwysig bod y BBC yn blaenoriaethu naws unigryw ac amrywiaeth y cynnwys mae'n ei gynnig i gynulleidfaoedd. Rydym wedi dweud yn flaenorol y gall rhaglenni sy'n cael eu prynu chwarae rhan yn hyn, drwy ddenu cynulleidfaoedd ac adfywio cymysgedd cynnwys y BBC o fewn cyfyngiadau ariannol o'r fath. Fodd bynnag, byddem yn bryderus pe byddent yn chwarae rôl rhy fawr yn yr hyn mae'r BBC yn ei gynnig. Ar draws 2021, roedd yr oriau o gynnwys a brynir yn llai na 2% o gyfanswm yr oriau darlledu, a'r gwariant ar raglenni a brynir yn 3%, gyda'r naill gyfran a'r llall heb newid ers 2020.[92] Ar ben hynny, mae rhaglenni a brynir yn cynrychioli cyfran fach o oriau BBC iPlayer (6.4% o'r oriau a oedd ar gael yn 2021/22) ac mae'r BBC wedi dweud y bydd rhaglenni a brynir *"yn parhau i gyfrif am gyfran fach o'r cynnwys sydd ar gael ar BBC iPlayer."*[93]



Mae'n bwysig bod y BBC yn dangos sut mae rhaglenni a brynir yn cyd-fynd â'i arlwy unigryw i gynulleidfaoedd, ac fel rhan o'n hymgynghoriad ar Drwydded Weithredu newydd, rydym wedi cynnig gofyniad i adrodd ar hyn. Byddwn yn parhau i fonitro defnydd y BBC o gynnwys a brynir.

**Mae'r BBC yn parhau i ddarparu cymysgedd unigryw o allbwn o'i gymharu â darparwyr eraill**

Mae'r BBC yn cynnal cymysgedd eang o genres ac amrywiaeth unigryw o raglenni ar y teledu, sy'n cynnwys detholiad ehangach o genres na darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.[94] Mae gan BBC iPlayer gyfran fwy o gynnwys drama a ffilm na sianeli darlledu'r BBC, ond ochr yn ochr â hyn mae'n cynnwys ystod ehangach o genres na gwasanaethau SVoD eraill neu wasanaethau fideo ar-alw darlledwyr (BVoD) eraill yn y DU.[95] Yn ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2021/22, nododd y BBC ei

[90] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr. Gweler yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol am ragor o wybodaeth.
[91] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr a data Ampere Analysis. Roedd cyfran y rhaglenni newydd (llai na blwydd oed) a wnaed yn y DU yn 2022 hyd yma, ar gyfer saith SVoD allweddol (Netflix, Amazon Prime Video, Britbox, NOW, Apple TV+, Discovery+, Disney+) yn 1%.
[92] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[93] BBC, 19 Hydref 2022, *BBC iPlayer II: Prawf Budd y Cyhoedd*, adran 4.3.3.
[94] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr. Gellir gweld cymysgedd genres cynnwys y BBC o'i gymharu â darlledwyr eraill yn yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol.
[95] Dadansoddiad Ofcom o ddata Ampere Analysis. Mae cymysgedd genres BBC iPlayer yn yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol.

fod wedi moderneiddio BBC iPlayer ar gyfer setiau teledu sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd, gan wella'r rhyngwyneb a'r categorïau cynnwys.[96] Wrth weithredu ei strategaeth BBC iPlayer, mae'n bwysig bod y BBC yn ystyried sut gall hyrwyddo'r ystod eang o gynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd, ac rydym yn ei annog i werthuso llwyddiant unrhyw newidiadau o'r fath. Fel rhan o'n hymgynghoriad ar Drwydded Weithredu newydd, roeddem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i'r BBC nodi sut y bydd yn sicrhau ei bod hi'n hawdd i gynulleidfaoedd ddod o hyd i gynnwys gwreiddiol o'r DU ar BBC iPlayer a BBC Sounds.

Teledu'r BBC sy'n dal i ddarparu'r swm mwyaf o gynnwys mewn genres sydd mewn perygl o'i gymharu â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.[97] Yn yr un modd, mae BBC iPlayer yn perfformio'n dda o ran ei ddarpariaeth gyffredinol a'i ystod o oriau o raglenni sydd mewn perygl o'i gymharu â darparwyr fideo ar-alw eraill.[98] Fodd bynnag, mae'r oriau o raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf mewn genres sydd mewn perygl yn dal i ostwng bob blwyddyn, ac roeddent wedi gostwng 9% yn 2021 o'i gymharu â 2020.[99] Mae'r defnydd cyffredinol o gynnwys sydd mewn perygl ar deledu'r BBC hefyd wedi gostwng; 23% o'i gymharu â 2020.[100]

Ac eto, er gwaethaf y gostyngiadau hyn mewn allbwn a defnydd, mae'r BBC yn cael sgôr uchel am ei amrywiaeth o raglenni. Roedd tua dwy ran o dair (65%) o wylwyr yn y chwe mis diwethaf wedi rhoi sgôr uchel i sianeli teledu'r BBC (7-10 allan o 10) am ddarparu '*amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon'* a dywedodd 73% yr un peth am BBC iPlayer.[101] Roedd bron i dri o bob pump (58%) hefyd wedi rhoi sgôr dda i deledu'r BBC am *'raglenni am wyddoniaeth, y celfyddydau, diwylliant a chrefydd'* – gan roi sylw i rai o'r genres sy'n cael eu diffinio fel rhai 'mewn perygl' – ac mae BBC iPlayer hefyd yn cymharu'n ffafriol â gwasanaethau VoD darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn hyn o beth.[102] Mae darparu rhaglenni sydd mewn perygl yn un o'r prif bethau sy'n sbarduno naws unigryw y BBC, a gall ei helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt o bosibl yn cael cymaint o gysylltiad â'r math hwn o gynnwys mewn mannau eraill. Felly, mae angen i'r cynnwys hwn barhau i chwarae rhan bwysig yng nghymysgedd cynnwys y BBC, o ystyried ei bwysigrwydd i gynulleidfaoedd. Fel rhan o'n hymgynghoriad, Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC, rydym wedi cynnig ein bod yn ceisio ymrwymiadau blynyddol gan y BBC o ran y cynnwys mewn perygl mae'n ei ddarparu.

Mae'r BBC hefyd yn darparu cymysgedd eang o allbwn ar y radio. Wrth edrych ar fis sampl ar draws ei holl orsafoedd,[103] gwelsom fod dros hanner (56%) rhaglenni radio'r BBC yn gerddoriaeth. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o genres cerddoriaeth, gyda cherddoriaeth sydd yn y siartiau a cherddoriaeth bop yn cyfrif am chwarter y cyfanswm, wedi'u dilyn gan hip-hop/R&B, Desi a

---

[96] Mae'r BBC hefyd yn nodi mai dyfeisiau teledu yw'r ffordd fwyaf poblogaidd o ddefnyddio BBC iPlayer.
[97] Mae 'genres mewn perygl' naill ai'n cyfrannu'n benodol at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, ddim yn cael eu darparu'n ddigonol neu'n dirywio ar draws darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r genres sy'n cael eu diffinio fel rhai mewn perygl wedi'u nodi yn Atodlen 2 y Cytundeb ac maent yn cynnwys: celfyddydau, cerddoriaeth, comedi, ffeithiol arbenigol, plant a chrefydd. Mae data sy'n cymharu argaeledd oriau mewn perygl fel cyfrannau mewn perthynas â chyfanswm yr oriau ar y BBC a darlledwyr eraill ar gael yn yr adroddiad rhyngweithiol.
[98] Dadansoddiad Ofcom o ddata Ampere Analysis.
[99] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.
[100] Data gwylio 28 diwrnod cyfunol BARB ar gyfer holl sianeli teledu'r BBC sy'n cael eu darlledu, oedolion 16 oed a hŷn.
[101] Traciwr PSM Ofcom 2021.
[102] Traciwr PSM Ofcom 2021.
[103] Mis y sampl yw mis Mawrth 2022. Mae'r data ar gyfer BBC Asian Network, Radio 1, 2, 3 a 4, 5 Live, 6 Music ac 1Xtra.

dawns/electronica, a chymysgedd o gerddoriaeth glasurol, byd a jazz/blues. Y tu allan i gerddoriaeth, roedd rhaglenni radio eraill y BBC yn cynnwys rhaglenni ffeithiol (22%) a rhaglenni newyddion penodol (8%), gyda'r gweddill yn gymysgedd o ddrama, comedi, chwaraeon, crefydd a dysgu, a llawer o hyn ar orsafoedd llafar BBC Radio 4 a BBC 5 Live. Mae BBC Radio 3 a BBC 6 Music hefyd yn darlledu cyfran nodedig o radio llafar ffeithiol.[104] Er mwyn darparu arlwy unigryw i gynulleidfaoedd, mae'n bwysig bod y BBC yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o allbwn ar y radio, gan gynnwys genres fel drama, comedi, celfyddydau a rhaglenni dogfen.

Mae'r BBC yn adrodd bod y defnydd o BBC Sounds wedi'i gydbwyso'n fras rhwng gwrando'n fyw ac ar-alw, gyda chynnwys llafar yn fwy poblogaidd na cherddoriaeth.[105] Mae hefyd yn nodi ei fod wedi gwella categorïau'r genres ar BBC Sounds er mwyn dangos yr ystod yn well. Yn yr un modd â BBC iPlayer, mae'n bwysig bod y BBC yn mesur ac yn adrodd ar ei berfformiad o ran hyrwyddo ehangder ei gynnwys. Gallai hyn gynnwys mesur yr amser sy'n cael ei dreulio ar BBC Sounds ac ar draws yr ystod o raglenni sy'n cael eu cynnig, yn ogystal â'r amrywiaeth o gynulleidfaoedd sy'n cael eu cyrraedd. Rydym yn croesawu ymrwymiad y BBC yn ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol eleni i ddarparu adroddiadau gwell ar ei berfformiad ar-lein o'r flwyddyn nesaf ymlaen.[106]

**Mae cynulleidfaoedd yn canmol y BBC am ansawdd ei gynnwys yn gyffredinol, ac am ddarparu cynnwys o'r DU**

Roedd tua chwech o bob deg oedolyn yn y DU wedi rhoi sgôr cadarnhaol i'r BBC am '*gynnwys creadigol ac o ansawdd uchel*.'[107] Hefyd, canfu ymchwil ansoddol ar wahân fod cynulleidfaoedd yn canmol dramâu'r BBC yn arbennig am eu hansawdd uchel. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau barn ar draws pob cynulleidfa; yn benodol, mae'r rheini o aelwydydd DE (52%) yn rhoi sgôr is i'r BBC am '*gynnwys creadigol ac o ansawdd uchel'* na chyfartaledd y DU (61%).[108] Fel rhan o'i rôl i wasanaethu holl gynulleidfaoedd y DU, mae'n bwysig bod y BBC yn ystyried canfyddiadau cynulleidfaoedd llai bodlon yn ei benderfyniadau comisiynu, ac yn darparu cynnwys sy'n taro tant â chynulleidfaoedd o'r fath.

Yn ôl ein hymchwil, mae sianeli teledu'r BBC a BBC iPlayer yn canmol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus am ddarparu *'rhaglenni a wneir ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU'*.[109] Ond mae Traciwr Perfformiad y BBC yn dangos bod gostyngiad wedi bod yng nghyfran yr oedolion yn y DU sy'n rhoi sgôr uchel i'r BBC am *'ddarparu cynnwys a wneir ar gyfer cynulleidfaoedd y DU'* (o 68% y llynedd i 64% eleni), yn ogystal â chynnydd yn y rheini sy'n rhoi sgôr is (o 9% i 12%).[110] Mae'r newid hwn yng nghanfyddiadau cynulleidfaoedd yn tanlinellu pa mor bwysig yw hi i'r BBC ganolbwyntio ar gynnwys yn y DU a chydbwyso'n ofalus sut mae rhaglenni a brynir o'r tu allan i'r DU yn ffitio i mewn i'w gymysgedd cynnwys cyffredinol.

**Ac eto, mae cynulleidfaoedd yn dal i roi sgôr isel i'r BBC am gymryd risgiau**

Mae cymryd risgiau ac arloesi o ran sut a beth mae'n ei gomisiynu yn allweddol i sut gall y BBC osod ei hun ar wahân i gystadleuwyr. Gall cymryd risgiau hefyd helpu'r BBC i ddatblygu ei gynnig i aros yn

[104] Data radio a gyflenwyd gan y BBC ar 6 Hydref 2022.
[105] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22, t.33.
[106] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22, t.49.
[107] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22.
[108] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22.
[109] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2021.
[110] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22.

berthnasol ac apelio at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd.

Ond nid yw pob cynulleidfa yn cysylltu'r BBC â'r nodweddion hyn: Roedd 46% o oedolion y DU wedi rhoi sgôr cadarnhaol i'r BBC am '*ddarparu cynnwys sy'n wahanol i ddarparwyr eraill*,' ac mae hyn yn gostwng i 40% ar gyfer y rheini mewn aelwydydd DE.[111] Yn yr un modd, dim ond 46% o oedolion y DU oedd yn rhoi sgôr uchel i'r BBC am '*ddarparu cynnwys sy'n meiddio bod yn wahanol*', tra oedd 22% yn rhoi sgôr negyddol a 25% yn rhoi sgôr niwtral. Pan ofynnwyd pa mor dda mae gwasanaethau teledu'r BBC, radio'r BBC a gwefannau/apiau'r BBC yn cymharu â gwasanaethau eraill ar gyfer '*darparu cynnwys sy'n meiddio bod yn wahanol*', dim ond tua chwarter ddywedodd fod y BBC '*yn well nag eraill*' ar gyfer pob un, tra dywedodd tua hanner fod y BBC 'tua'r un fath ag eraill' neu eu bod 'ddim yn gwybod.'[112] Mae'n werth nodi bod defnyddwyr wythnosol gwasanaethau penodol y BBC yn tueddu i'w sgorio'n fwy cadarnhaol na chyfartaledd y DU; er enghraifft, mae defnyddwyr wythnosol BBC Sounds yn fwy cadarnhaol am y BBC '*yn darparu cynnwys sy'n meiddio bod yn wahanol*'.[113] Hefyd, canfu ymchwil ansoddol ar wahân nad yw cynulleidfaoedd fel arfer yn cysylltu'r BBC â chymryd risgiau creadigol.

Mae cysyniadau cymryd risg ac arloesi, fodd bynnag, yn gymhleth a gallant olygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Fel rhan o'n hasesiad, rydym wedi edrych ar amrywiaeth o fetrigau i ddeall sut mae cymryd risgiau ac arloesi yn rhan o waith y BBC.

**Yn ôl sawl mesur, mae'r BBC yn dangos ei fod yn awyddus i gymryd risgiau**

Yn gyntaf, rydym yn edrych ar arloesi o fewn sylfaen cyflenwyr y BBC, a'i ymdrechion i symud oddi wrth ganolfannau cynhyrchu sefydledig yn Ne-ddwyrain Lloegr. Er bod cyfanswm y cwmnïau cynhyrchu newydd sy'n gweithio gyda'r BBC wedi gostwng o 66 yn 2020 i 59 yn 2021, gwelwyd cynnydd yn nifer y rheini o'r gwledydd a'r rhanbarthau – o 32 yn 2020 i 36 yn 2021.[114] Rydym wedi siarad â chynhyrchwyr annibynnol ledled y DU eleni, ac roedd llawer ohonynt yn credu bod y BBC yn awyddus i gymryd risgiau o ran pa gynnwys mae'n ei gomisiynu a sut mae'n gwneud hynny. Fodd bynnag, roedd yr adborth hwn yn amrywio; nid oedd pob cynhyrchydd o bob maint yn cytuno â'r asesiad hwn.

Mae'r cydbwysedd rhwng cyfresi newydd a chyfresi sy'n dychwelyd hefyd yn taflu goleuni ar i ba raddau mae'r BBC yn cymryd risgiau; mae'r naill a'r llall yn bwysig i gynulleidfaoedd, i'r sector cynhyrchu ac o ran y naws unigryw. Ar yr un llaw, mae cyfresi sy'n dychwelyd yn cynnig cymorth parhaus i gynhyrchwyr, yn enwedig y rheini sydd wedi'u lleoli ledled y DU, ac yn helpu i feithrin perthynas â chynulleidfaoedd; ar y llaw arall, mae cyfresi newydd yn helpu i adfywio amserlenni. Roedd nifer y cyfresi newydd a gafodd eu darlledu gan y BBC wedi gostwng yn 2021, gan ddangos dibyniaeth fawr ar gyfresi sy'n dychwelyd.[115] Gall y BBC barhau i arloesi mewn cyfresi sy'n dychwelyd – er enghraifft, bydd cynhyrchiad cyfresi fel *Masterchef* ar BBC One a *Newsbeat* ar BBC Radio 1 yn

[111] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22.
[112] Ar gyfer darparwyr gwasanaethau teledu a fideo, roedd 28% o bobl yn dweud bod y BBC yn waeth nag eraill am '*ddarparu cynnwys sy'n meiddio bod yn wahanol*.' Dywedodd 16% o bobl yr un fath ar gyfer radio'r BBC o'i gymharu â gorsafoedd radio eraill, a 18% ar gyfer gwefannau/apiau'r BBC o'u cymharu â gwefannau ac apiau eraill. Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22.
[113] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22. Rhoddodd 62% o ddefnyddwyr BBC Sounds wythnosol radd gadarnhaol o'i gymharu â 46% ar gyfer cyfartaledd y DU.
[114] Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC 2021/22.
[115] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC.

symud i Birmingham, gyda'r nod o helpu i gefnogi'r economi greadigol leol, ond gall hefyd adnewyddu fformat a chynnwys y teitlau.[116] Fodd bynnag, gall y cwmpas creadigol ar gyfer arbrofi fod yn ehangach mewn cyfresi newydd a gallent gynnig cyfleoedd i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a rhai nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, ac i gynnwys cynhyrchwyr newydd.




O ran radio, mae cyfran y gerddoriaeth newydd sy'n cael ei chwarae, a nifer yr ailddarllediadau ar orsafoedd, yn gallu bod yn ffordd o fesur sut mae'r BBC yn cymryd risgiau ac yn arloesi. Yn 2021/22, roedd 26% o gerddoriaeth BBC Radio 2 yn newydd – nifer sydd wedi gweld twf sylweddol mewn pum mlynedd ac sy'n uwch na gorsafoedd tebyg Heart (6%) a Magic (1%). Ar gyfer BBC Radio 1, roedd 62% o'r gerddoriaeth yn newydd, o'i gymharu â 49% ar Capital a 45% ar Kiss.[117] BBC Radio 1 a BBC Radio 2 hefyd oedd â'r cyfraddau ailddarlledu cerddoriaeth cyfartalog isaf o'i gymharu â gorsafoedd masnachol Heart, Kiss, Capital a Magic.[118] Fel rhan o'n dadansoddiad eleni, fe wnaethom arsylwi cyfarfod mewnol BBC Radio 1 ar ei restr chwarae, lle mae cynhyrchwyr y BBC, arbenigwyr genre a dadansoddwyr cyfryngau cymdeithasol yn cytuno i lunio rhestr chwarae swyddogol BBC Radio 1. Wrth wneud penderfyniadau, mae'r BBC yn ystyried cynrychiolaeth Brydeinig, BAME, cynhyrchu annibynnol a rhywedd artistiaid yn ei restr chwarae. Mae hefyd yn cymharu ei restr chwarae â'r 40 Uchaf Swyddogol i gyfyngu ar orgyffwrdd ac yn cymharu'r caneuon mae'n eu chwarae amlaf â siartiau chwarae ar yr awyr yn y DU. Mae pwyslais hefyd ar gefnogi artistiaid newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg drwy daith eu gyrfaoedd. Mae'r broses hon yn enghraifft dda o sut mae naws unigryw yn rhan annatod o waith y BBC.

Rydym hefyd wedi gweld arloesedd gan y BBC yn y ffordd mae'n darparu ei gynnwys i gynulleidfaoedd. Wrth ddarlledu rhai o'r digwyddiadau a'r achlysuron mwyaf a oedd o ddiddordeb cenedlaethol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf – er enghraifft Gŵyl Glastonbury a Gemau'r Gymanwlad – gwelsom y BBC yn rhoi mynediad i gynulleidfaoedd at amrywiaeth o ffrydiau ar 'sianeli' pwrpasol ar BBC iPlayer. Roedd y rhain yn galluogi cynulleidfaoedd i addasu eu profiad gwylio ar-alw. At ei gilydd, ar draws yr ystod eang o sylw a roddwyd i Glastonbury a Gemau'r Gymanwlad ar BBC iPlayer, cyrhaeddodd y BBC 6.9% o gynulleidfaoedd ac 8.1% o gynulleidfaoedd yn y drefn honno.[119] Mae'r BBC hefyd yn arloesi o

---

[116] BBC Midlands moving to new broadcast centre in Birmingham, 3 Awst 2022.
[117] Ffynhonnell: Radiomonitor. Edrychwch ar yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol hefyd.
[118] RadioMonitor. Roedd BBC Radio 2 wedi ailadrodd caneuon ar gyfradd o 1.5 gwaith y gân yn unig ar gyfartaledd, a BBC Radio 1 wedi ailadrodd caneuon 3.1 gwaith y gân, o'i gymharu â 4.2 gwaith y gân ar Magic a 14.9 ar Capital.
[119] BARB. Pob unigolyn a wyliodd o leiaf 3 munud o unrhyw raglen Glastonbury neu gemau'r Gymanwlad ar BBC iPlayer, drwy gydol pob digwyddiad a chyfnod o saith diwrnod ar ei ôl. Rhediad unrhyw raglen gyda 'Glastonbury' yn y teitl. Ystod dyddiadau a ddefnyddiwyd 24/06/22 – 03/07/22.

ran sut mae'n rhyddhau cynnwys ar BBC iPlayer; dywedodd wrthym ei fod yn arbrofi gyda dulliau gwahanol fel rhyddhau pob pennod o gyfres ar unwaith neu bob wythnos.

Mae gan y BBC fentrau a chynlluniau eraill ar waith ar draws ei wasanaethau i gefnogi a datblygu talent newydd, gan gynnwys BBC Writersroom, BBC Ignite ac adnodd Presenter Uploader BBC Radio 1. Mae'r BBC yn dathlu llwyddiannau mawr fel *The Responder*, yr oedd ei sgriptiwr yn rhan o'r cynllun Northern Voices Writersroom. Mae hefyd wedi darparu rhywfaint o wybodaeth yn ei Adroddiad Cynnydd ar y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth ar gyfer 2021/22 ('CCoP') ynghylch effaith ei fentrau; er enghraifft, dywedodd fod 92% o'r cyfranogwyr yng nghynllun interniaeth *Where it Begins* BBC Radio 1 ers 2014 yn dal i weithio yn y sector cynhyrchu heddiw. Fodd bynnag, gallai'r BBC wneud mwy i egluro ystod ei fentrau ac i werthuso effaith eu llwyddiant ar gynulleidfaoedd mewn modd systematig.

**Mae angen i'r BBC werthuso ei strategaethau i gyrraedd cynulleidfa eang, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau a DE sydd bob amser wedi teimlo nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y BBC**

Mae'r BBC yn parhau â'i ymdrechion i gyrraedd cynulleidfaoedd iau, ar ôl rhoi nifer o strategaethau ar waith yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys ail-lansio sianel deledu BBC Three ddechrau mis Chwefror 2022, creu presenoldeb gwell ar TikTok, a chael sêr YouTube i gyflwyno rhaglenni radio. Mae ein hymchwil yn dangos bod pobl iau nawr yn treulio mwy o amser bob dydd ar y cyfryngau cymdeithasol nag yn gwylio'r teledu. Dywedodd y BBC wrthym ei fod wedi rhoi strategaeth cyfryngau cymdeithasol ar waith a'i phrif amcan yw ymgysylltu â chynulleidfaoedd 13-34 oed yn y DU, er mwyn hybu defnydd cyson bob dydd ar y llwyfan a'u hannog i aros gyda'r BBC. Roedd yn adlewyrchu bod ei brif gyfrifon ar Facebook a YouTube ymhlith rhai mwyaf ar y llwyfannau hyn o ran cyrhaeddiad fideo ymysg defnyddwyr 13-34 oed yn y DU.[120]

Ar gyfer teledu a radio, mae cyrraedd cynulleidfaoedd iau wedi bod yn gymharol lwyddiannus. Er bod cyrhaeddiad ei sianeli teledu a ddarlledir yn dal i ostwng, mae data'r BBC ei hun yn awgrymu bod mwy a mwy o bobl ifanc 16-34 oed yn defnyddio BBC iPlayer, cynnydd o 19% i 3.8 miliwn o gyfrifon yn ei ddefnyddio bob wythnos yn 2021/22.[121] O ran radio a sain, BBC Radio 1, 1Xtra ac Asian Network, mae gan bob gorsaf sydd wedi'i thargedu at bobl ifanc naill ai fwyafrif neu'n agos at fwyafrif o wrandawyr o dan 34 oed. Mae gweddill portffolio radio'r BBC yn gwyro at gynulleidfa sylweddol hŷn, gyda'r rhan fwyaf o'r rheini sy'n gwrando dros 45 oed.[122] Mae defnydd wythnosol cyfartalog BBC Sounds ymysg pobl ifanc 16-34 oed yn sefydlog ar 570k o gyfrifon wedi'u mewngofnodi (o dan darged y BBC o 600k), ac mae hyn yn erbyn cefndir o dwf cyffredinol (8.6% yn uwch o'i gymharu â 2020/21).[123] Mae data'r BBC hefyd yn dangos bod tua un o bob chwech o'r cyfrifon sy'n defnyddio BBC Sounds bob wythnos ar gyfartaledd yn perthyn i bobl o dan 35 oed. [124]

[120] Ffynhonnell: Tubular Labs. Dadansoddiad wedi'i wneud o brif gyfrif portffolio BBC Content o'i gymharu â chyfrifon brand mwyaf Facebook/YouTube yn ôl cyrhaeddiad gwylwyr fideo unigryw 13-34 oed yn y DU.

[121] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22, t.173.

[122] RAJAR, Ch1 2022. Mae 46% o wrandawyr BBC Asian Network rhwng 15 a 34 oed, felly hefyd 51% o wrandawyr BBC Radio 1 a 61% o wrandawyr BBC Radio 1Xtra.

[123] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22, t.49.

[124] Data mewnol y BBC. Mae hyn yn ymwneud â'r cyfrifon lle mae manylion oedran wedi cael eu darparu i'r BBC.

## BBC Three

Ar 1 Chwefror 2022, yn dilyn y Penderfyniadau terfynol yn ein hasesiad o gystadleuaeth cynigion y BBC, ail-lansiwyd BBC Three fel sianel deledu a ddarlledir. Roedd y BBC wedi cynnig y newid hwn i'w helpu i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd 16-34 oed sy'n defnyddio llai ar y BBC. Roedd yn credu bod y rhain yn tueddu i fod yn wylwyr mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol C2DE, yn byw y tu allan i Lundain a De-ddwyrain Lloegr, a gyda llai o fynediad at wasanaethau ar-alw. Roedd y BBC hefyd yn credu y byddai'r sianel ddarlledu yn rhoi cyfrwng newydd iddi *"greu ymwybyddiaeth a newid canfyddiadau o'r hyn sydd gan BBC iPlayer (a'r BBC yn fwy cyffredinol) i'w gynnig."*[125] Rydym yn monitro perfformiad y sianel ddarlledu, sydd wedi bod yn gweithredu ers llai na blwyddyn.

Roedd cyfran gyfartalog gwylwyr y sianel rhwng mis Chwefror a mis Awst 2022 yn 0.6% o'r holl gynulleidfaoedd a 1.1% o bobl ifanc 16-34 oed.[126] Mae hyn yn is o lawer na sianeli portffolio darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol sy'n targedu cynulleidfaoedd tebyg, fel ITV2, a oedd a chyfran o 10.1% o'r gwylwyr 16-34 oed yn ystod yr un cyfnod, ac E4, a oedd â chyfran o 4.7% o'r grŵp hwn. O ran pobl ifanc 16-34 oed o aelwydydd C2DE, sy'n gynulleidfa darged allweddol ar gyfer BBC Three, roedd y gyfran gyfartalog o wylwyr yn 0.9%, o'i chymharu â 9.1% ar gyfer ITV2 a 4.5% ar gyfer E4. Mae'r amser cyfartalog y mae pobl ifanc 16-34 oed yn ei dreulio'n gwylio BBC Three hefyd yn is nag ar gyfer ITV2 ac E4.[127]

Fodd bynnag, mae'r gymysgedd o allbwn ar BBC Three yn fwy nag ar ITV2 neu E4, gan gwmpasu ystod ehangach o genres ac, yn benodol, mae'n canolbwyntio mwy ar gynnwys ffeithiol fel rhaglenni dogfen a rhaglenni ffeithiol am bynciau fel ceir a gemau, yn ogystal â cherddoriaeth, bwletin newyddion bob nos a darpariaeth chwaraeon. Y rhaglen sydd wedi perfformio orau ar BBC Three ymysg pobl ifanc 16-34 oed hyd yma yw *RuPaul's Drag Race UK vs. the World*, a gafodd ei gwylio gan gynulleidfa gyfartalog o 425,000. Roedd hyn yn golygu bod 19.6% o'r holl bobl ifanc 16-34 oed a oedd yn gwylio teledu wedi'i ddarlledu ar y pryd yn gwylio'r rhaglen honno. Roedd rhaglenni eraill a berfformiodd yn dda yn cynnwys cynyrchiadau gwreiddiol BBC Three, *Conversations with Friends*, a gyrhaeddodd gynulleidfa gyfartalog o 195,000 o bobl ifanc 16-34 oed (17.5% o'r holl bobl ifanc 16-34 oed a oedd yn gwylio'r teledu ar y pryd), a *Glow Up*: *Britain's Next Make-Up Star* a gyrhaeddodd 178,000 o bobl ifanc 16-34 oed ar gyfartaledd (cyfran o 9% o bobl ifanc 16-34 oed).[128]

Rydym yn cydnabod bod y sianel yn dal i ymsefydlu ac yn ei hystyried yn rhy gynnar i asesu a yw'r ail-lansio wedi cyflawni'r uchelgeisiau a osodwyd gan y BBC. Byddwn yn edrych yn fanylach ar berfformiad BBC Three yn yr Adroddiad Blynyddol ar y BBC y flwyddyn nesaf, ond yn y cyfamser, mae'n bwysig bod y BBC yn nodi'n fanwl yn ei Gynllun Blynyddol nesaf sut mae'n bwriadu i BBC Three gyfrannu at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, a'i fod yn adrodd yn erbyn hynny.

Mae ein hymchwil hefyd yn dangos bod cynulleidfaoedd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn dal i roi sgôr isel i'r BBC am agweddau sy'n ymwneud â Diben Cyhoeddus 3. Roedd y

[125] BBC, 24 Mehefin 2021, Sianel BBC Three newydd: Prawf Budd y Cyhoedd.
[126] Data cyfunol 28 diwrnod BARB.
[127] Data cyfunol 28 diwrnod BARB.
[128] BARB, data 28 diwrnod cyfunol, pobl ifanc 16-34 oed.

cynulleidfaoedd hyn yn llai tebygol o roi sgôr gadarnhaol ar gyfer datganiadau fel '*mae'r BBC yn darparu cynnwys sy'n cael ei wneud ar gyfer cynulleidfaoedd y DU*,' ac yn '*darparu cymysgedd eang o gynnwys'* o'i gymharu â chyfartaledd y DU. Hefyd, mewn arolwg o rieni plant 3-7 oed a phlant 8-16 oed, roedd y rheini mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn llai tebygol na chyfartaledd y DU o gytuno â'r datganiad bod '*y BBC yn cynnwys rhaglenni o ansawdd uchel rwy'n eu mwynhau*'.[129] Mae'r BBC wedi dweud ei fod yn comisiynu mwy o gynnwys teledu sydd wedi'i anelu at gynulleidfaoedd C2DE, yn enwedig dramâu ysgafnach, dramâu trosedd a dramâu comedi, yn ogystal â fformatau cystadlaethau adloniant ffeithiol a rhaglenni dogfen chwaraeon. O ran radio a sain, mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod yn ceisio canolbwyntio ar chwaraeon drwy BBC Radio 5 Live a BBC Sounds i gyrraedd y grwpiau hyn, ochr yn ochr â rhywfaint o allbwn llafar a cherddoriaeth wedi'i dargedu ar BBC Sounds.



Ar y cyfan, gall strategaethau i gyrraedd cynulleidfaoedd gymryd amser i ymwreiddio a sicrhau canlyniadau – p'un a ydynt i fynd i'r afael ag anghenion cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol neu i ddatblygu er mwyn bodloni arferion cynulleidfaoedd sy'n newid. Yn hollbwysig, mae angen i'r BBC asesu a gwerthuso'n ystyrlon y strategaethau mae'n eu rhoi ar waith a bod yn ddigon hyblyg i newid y llwybr pan nad yw strategaethau'n cyflawni'r disgwyliadau. Mae hefyd angen cydbwyso'r strategaethau hyn â blaenoriaethau eraill ac mae'n bwysig ein bod yn edrych ar flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn gyffredinol. Er enghraifft, mae strategaeth Digidol yn Gyntaf y BBC yn rhoi cyfle iddo sicrhau bod ei arlwy digidol yn gwasanaethu ystod eang o gynulleidfaoedd y mae eu harferion yn newid. Wrth weithredu hyn, ochr yn ochr â'i ffocws strategol ar gynnwys effaith uchel, bydd yn rhaid i'r BBC barhau i hyrwyddo naws unigryw a darparu amrywiaeth eang o genres cynnwys a mathau o raglenni er mwyn gallu taro tant â phob cynulleidfa. Bydd angen iddo hefyd ddarparu'r cynnwys hwn yn y ffyrdd yr hoffai cynulleidfaoedd ei gael, boed hynny drwy wasanaethau darlledu traddodiadol neu ar-lein. Byddwn yn parhau i fonitro newidiadau'r BBC a'u heffaith ar y cynulleidfaoedd mae'n eu gwasanaethu.


## Amodau'r Drwydded Weithredu

Ochr yn ochr â'n hasesiad perfformiad ehangach, rydym yn ystyried perfformiad y BBC yn erbyn amodau perthnasol Diben 3 y Drwydded Weithredu. Eleni, oherwydd effaith barhaus Covid-19, methodd y BBC un amod trwydded yn ymwneud â'r diben hwn: nifer y sesiynau newydd (byw neu wedi'u recordio) ar BBC Radio 1. Gweler Atodiad 1 am asesiad llawn o ofynion y Drwydded Weithredu.


[129] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22 a Traciwr Ofcom o Berfformiad Gwasanaethau Plant y BBC 2021/22.

# Diben Cyhoeddus 4:
# Y gwledydd a’r rhanbarthau, ac amrywiaeth

### Graddau cadarnhaol i gyflwyniad y BBC o Ddiben Cyhoeddus 4




### Amrywiaeth y gweithlu - staff gwasanaeth cyhoeddus DU y BBC





### Cynulleidfaoedd llai bodlon

**51%** o gynulleidfaoedd ag anabledd wedi rhoi gradd gadarnhaol i'r BBC am gynnwys pobl fel nhw (o'i gymharu â 57% o'r rhai sydd heb anabledd)

**43%** o'r rhai yn y grŵp economaidd-gymdeithasol DE wedi rhoi sgôr gadarnhaol i'r BBC am adlewyrchu bywydau pobl fel nhw (o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 48%)

### Lledaeniad gweithlu Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC ar draws y DU

### Cyfran o oriau a gwariant rhwydwaith cymwys y BBC a wnaed y tu allan i Lundain




Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Dadansoddiad Ofcom o ddata’r BBC; Data gweinydd mewnol y BBC; Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22 oedolion DU 16+ oed. Gweler Diweddaru Offer Casglu Data Meintiol am

## Crynodeb

- Mae'r BBC wedi gwneud cynnydd yn erbyn ei strategaeth Ledled y DU (Across the UK) ac mae'n cefnogi'r diwydiannau creadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau drwy bartneriaethau newydd, gan ddefnyddio cyfran uwch o gynhyrchwyr yn yr ardaloedd hyn, a chael mwy o gomisiynwyr y tu allan i Lundain.
- Fodd bynnag, Diben Cyhoeddus 4 yw diben y BBC sy'n cael y sgôr isaf, yn enwedig ymysg cynulleidfaoedd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, a chynulleidfaoedd anabl. Er mwyn gwella canfyddiadau, mae'r BBC yn rhoi amrywiaeth o fentrau ar waith, gan gynnwys gwella cynrychiolaeth ar y sgrin ac oddi arni.
- Er bod y BBC wedi gwneud cynnydd, mae ganddo ragor i'w wneud i gynrychioli pobl anabl a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn well yn ei weithlu.
- Mae'r BBC wedi cynyddu'r gwaith o adrodd ar rai mentrau ac wedi darparu mwy o dryloywder ynghylch amrywiaeth ei weithlu drwy ddod yn ddarlledwr cyntaf yn y DU i gyflenwi'r data hwn yn ôl gwlad.

***Mae'r Siarter Frenhinol yn datgan:** Dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Drwy wneud hynny, dylai'r BBC gynrychioli a phortreadu bywydau pobl y Deyrnas Unedig heddiw yn gywir ac yn ddilys, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau gwahanol a safbwyntiau amgen sy'n creu ei chymdeithas. Dylai sicrhau ei fod yn darparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau a helpu i gyfrannu at lesiant a chydlyniant cymdeithasol y Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC, wrth gomisiynu a darparu allbwn, fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad.*

Mae gan y BBC gyfrifoldeb pwysig o ran adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl ranbarthau a gwledydd y DU ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y DU. Rhaid i hyn fod yn ganolog i sut mae'r BBC yn mynd ati i gynhyrchu a chreu rhaglenni, a chynnwys ei allbwn. Mae hefyd yn gyfle unigryw i ysgogi cynrychiolaeth fwy amrywiol ar y sgrin ac ar yr awyr, yn ei weithlu ac yn economi greadigol ehangach y DU, gan ei helpu i adrodd straeon cymunedau'r DU yn gywir ac yn ddilys. Mae'r asesiad isod yn ystyried perfformiad y BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn gyntaf, gan gynnwys bodlonrwydd cynulleidfaoedd; cynnydd tuag at ei strategaeth Ledled y DU, a sut mae wedi cefnogi'r economi greadigol. Rydym wedyn yn ystyried gwaith y BBC yn hyrwyddo mwy o amrywiaeth gan gynnwys ymdrechion i wella cynrychiolaeth a phortreadu cymunedau amrywiol ar y sgrin; gwella amrywiaeth talent ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, a'i adroddiadau ar fentrau i gyflawni hyn.

## Y gwledydd a'r rhanbarthau

Er mwyn cyflawni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, mae'r BBC yn darparu cynnwys sydd wedi'i anelu at bawb ar draws y DU ar ei wasanaethau rhwydwaith, yn ogystal â chynnwys cenedlaethol neu

wybodaeth am y defnydd o 'LHD' (lesbiaidd, hoyw, deurywiol) wrth gywain data ar ein gweithlu. Er nad oes meincnod DU swyddogol ar gyfer unigolion a aeth i ysgolion preifat, awgrymodd adroddiad gan Sutton Trust (Leading People 2016, cyhoeddwyd 24 Chwefror 2016) mai tua 7% oedd cyfartaledd y DU.

ranbarthol penodol ar ei wasanaethau optio allan,[131] gan gynnwys newyddion a materion cyfoes. Fel rhan o Drwydded Weithredu'r BBC, rydym wedi gosod cwotâu i sicrhau bod y BBC yn dosbarthu ei adnoddau cynhyrchu rhwydwaith ledled y DU ac yn darparu rhaglenni sy'n gwasanaethu, ac sydd o ddiddordeb i, gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau ar ei wasanaethau optio allan.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r BBC wedi parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni a chynyrchiadau ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae wedi cyflawni, neu wedi rhagori ar y rhan fwyaf o'r cwotâu rydym wedi'u gosod yn y cyswllt hwn. Er enghraifft, mae'n parhau i ddarparu gormod o oriau o gynyrchiadau rhwydwaith sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain, sef 64% o'r oriau cymwys yn 2021 o'i gymharu â'n cwota o 50%.

Yn hanesyddol, mae'r BBC hefyd wedi darlledu mwy na'r gofyn o ran cwotâu rhaglenni sy'n benodol i wlad yr ydym wedi'u gosod, sy'n nodi faint o newyddion a materion cyfoes, ac oriau heb fod yn newyddion sydd i'w darlledu ar y gwasanaethau optio allan yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Fodd bynnag, mae rhai eithriadau wedi bod i'r ffordd mae'r BBC wedi darparu'r allbwn hwn dros y ddwy flynedd diwethaf oherwydd heriau sy'n ymwneud â phandemig Covid-19, yn enwedig o ran cynnwys heb fod yn newyddion sy'n cael ei ddarparu yn ystod oriau gwylio brig.[132] Hefyd, fel y nodwyd o dan Ddiben Cyhoeddus 1, mae oriau o newyddion rhanbarthol a materion cyfoes yn Lloegr wedi aros yn is na lefelau cyn Covid oherwydd oedi wrth gynhyrchu *We are England*, cyfres materion cyfoes ar gyfer BBC One, ac mae'r BBC wedi cyhoeddi cynlluniau i ddatgomisiynu'r teitl hwn ddiwedd y flwyddyn.



Mae cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn parhau i ymgysylltu â'r BBC a'i gynnwys, fel sy'n cael ei ddangos gan BBC One yn denu'r gyfran fwyaf o gynulleidfa o unrhyw sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus unigol ym mhob gwlad. Fodd bynnag, roedd maint y cyfrannau hyn yn amrywio ychydig yn ôl gwlad; roedd yr uchaf yng Nghymru (23.2%) a'r isaf yng Ngogledd Iwerddon (20.4%).[133] Mae gwasanaethau ar-lein y BBC hefyd yn dal yn boblogaidd; BBC iPlayer oedd y gwasanaeth fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a oedd yn cael ei ddefnyddio amlaf ar

[131] Gwasanaeth optio allan yw'r amrywiad cenedlaethol neu ranbarthol ar un o sianeli'r BBC (er enghraifft, BBC Two Wales).
[132] Edrychwch ar yr Atodiad Cydymffurfio ar gyfer 20/21 a 21/22.
[133] BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4+).

draws y gwledydd.[134] Yn yr Alban, lansiodd y BBC ei sianel benodol, BBC Scotland, yn 2019. Mae cyfran y sianel o'r gwylio a ddarlledir yn yr Alban yn parhau i fod o fewn yr ystod a ragwelwyd sef 2.4% yn 2021[135] ac mae data mewnol y BBC yn dangos bod ceisiadau i wylio cynnwys a gynhyrchir gan BBC Scotland a chynnwys a gomisiynwyd ar y cyd ar BBC iPlayer yn unol â'r flwyddyn flaenorol, sef 72 miliwn o ffrydiau rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022.[136]

Ar ben hynny, mae'r ffyrdd y mae gwrandawyr yn defnyddio gwasanaethau radio yn y gwledydd yn amrywio yn ôl gwlad, gyda gorsafoedd radio'r BBC yn cyfrif am gyfran uwch o wrando yng Nghymru o'i gymharu â'r DU drwyddi draw (59% o'i gymharu â 49%).[137] Nodwn fod BBC Radio Cymru 2, sy'n darparu rhaglenni amgen i orsaf radio Gymraeg BBC Radio Cymru, wedi ymestyn ei horiau yn y bore i gynnwys rhaglenni byw ychwanegol sy'n cael eu harwain gan gyflwynwyr.[138] Mae'r BBC hefyd wedi cyhoeddi cynlluniau i gynyddu'r broses o rannu rhaglenni rhwng gorsafoedd radio lleol yn Lloegr, ac rydym wedi nodi hyn yn fwy manwl yn y bennod ar Ddiben Cyhoeddus 1 uchod.

**Mae'r BBC wedi gwneud rhywfaint o gynnydd tuag at ymrwymiadau ei strategaeth Ledled y DU**

Ers ein hadroddiad ar berfformiad y BBC yn 2021, mae'r BBC wedi dechrau rhoi'r cynlluniau a nodwyd yn ei strategaeth, Ledled y DU, ar waith. Rydym o'r farn bod y strategaeth hon yn dangos bod y BBC yn cydnabod pwysigrwydd ei lwyddiant ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau, ac yn ei genhadaeth i gyrraedd pob cynulleidfa. Mae cynlluniau'r BBC yn canolbwyntio'n bennaf ar sut a ble mae'n cynnal gwahanol rannau o'i weithrediadau, yn ogystal â'i ymrwymiadau i wella'r ffordd mae gwledydd a rhanbarthau'r DU yn cael eu portreadu. Gan edrych yn benodol ar gynhyrchu cynnwys, mae'r strategaeth yn cynnwys ymrwymiad i gynyddu gwariant y BBC y tu allan i Lundain ar gyfer teledu rhwydwaith (o 50% i 60%) a radio a cherddoriaeth (o lai na 40% i 50%), yn ogystal â dyblu nifer y cynlluniau cyd-gomisiynu rhwng y rhwydwaith a'r gwledydd sy'n ymddangos ar sianeli ledled y DU. Mae'r BBC wedi adrodd ei fod wedi cyflawni'r olaf yn ei flwyddyn gyntaf o gyflawni.[139]

Roedd y BBC hefyd wedi gosod targed i gomisiynu 100 o raglenni yn portreadu cymunedau o bob cwr o'r DU, ac yn benodol 20 yn y gwledydd, erbyn 2024. Dywedodd y BBC ei fod wedi comisiynu 31 o raglenni yn portreadu bywyd mewn amrywiaeth eang o leoliadau ledled y DU, ac roedd 14 o'r rheini yn y gwledydd datganoledig, yn ystod y flwyddyn gyntaf.[140] Roedd hefyd wedi adrodd ar gynnydd yn erbyn rhai o'i ymrwymiadau radio ac ar-lein; er enghraifft mae BBC Radio 1 bellach yn darlledu rhannau o'i amserlen bob dydd o Salford. Mae'r BBC hefyd yn gwneud cynnydd o ran adleoli brandiau allweddol, fel BBC Radio 3 a BBC Radio 4, neu eu hadleoli'n rhannol. O ran ei ymrwymiadau ar-lein, mae'r BBC wedi dweud wrthym fod recriwtio ar gyfer canolfan dechnoleg yn Newcastle ar y gweill, ac fel rydym yn ei nodi uchod yng nghyswllt Diben Cyhoeddus 1, mae gwaith i wella personoleiddio a lleoleiddio ap BBC News a BBC Sounds yn mynd rhagddo.[141]

**Rydym yn gweld rhai newidiadau yng nghanfyddiadau cynulleidfaoedd yn y gwledydd**

134 Arolwg VoD Ofcom 2022.

135 BARB: Cyfran yr holl wylio rhwng 7:00pm a hanner nos yn yr Alban.

136 O'i gymharu â 71.6 miliwn o ffrydiau rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021.

137 RAJAR Ch1 2022.

138 Datganiad i'r wasg gan y BBC. Dylid nodi y bydd angen asesiad perthnasedd ar gyfer unrhyw estyniad pellach i oriau'r gwasanaeth hwn.

139 Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC 21/22.

140 Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC 21/22.

141 Gwybodaeth a ddarparwyd gan y BBC.

Yn ôl ymchwil Ofcom, mae'r argraff gyffredinol o'r BBC ymysg pobl yn yr Alban wedi gwella ers y llynedd (o 49% wedi rhoi sgôr gadarnhaol yn 2020/21 i 58% yn 2021/22) ac ar gyfer Gogledd Iwerddon (55% o'i gymharu â 62%).[142] Fel y llynedd, mae'n fwy tebygol y bydd gan gynulleidfaoedd yn yr Alban, sy'n gwylio sianel BBC Scotland, ganfyddiadau cadarnhaol o'r BBC yn gyffredinol.[143]

Mae ein data hefyd yn dangos bod canfyddiadau cynulleidfaoedd ym mhob un o'r gwledydd o ran cynrychiolaeth a phortreadu yn cyd-fynd â chyfartaledd y DU eleni.[144] Y llynedd, roedd cynulleidfaoedd yn yr Alban wedi rhoi sgôr is i'r BBC na chyfartaledd y DU ar gyfer *'cynnwys sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant cymunedau ledled y DU'* ac roedd y rheini yng Ngogledd Iwerddon wedi rhoi sgôr is na'r cyfartaledd i'r BBC ar gyfer *'cynrychioli'r wlad lle rydw i'n byw'* a *'darparu cynnwys sy'n berthnasol i mi.'* Rydym hefyd wedi gweld bod yr holl fetrigau cynrychiolaeth a phortreadu ar gyfer Cymru yn parhau i fod yn unol â chyfartaleddau'r DU.

Gan edrych ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd ar gyfer rhanbarthau Lloegr, er bod canfyddiadau cynulleidfaoedd yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr y llynedd yn is na chyfartaledd y DU, eleni mae'r rhanbarth hwn bellach yn gyson â chyfartaledd y DU. Mae cynulleidfaoedd yn Llundain yn parhau i fod â lefelau uchel o fodlonrwydd â'r BBC.

Mae'r ffigurau eleni'n galonogol, ond bydd yn bwysig gweld a yw'r newidiadau rydym wedi'u nodi yn cynrychioli gwelliannau tymor hwy. Byddwn yn parhau i adolygu canfyddiadau cynulleidfaoedd ar gyfer pob gwlad. Rydym hefyd yn nodi bod data'r BBC eleni yn dangos bod canfyddiadau ymhlith cynulleidfaoedd yng Nghymru a'r Alban wedi aros yn is na grwpiau cynulleidfaoedd eraill, a byddwn yn monitro hyn ymhellach.[145]

Mae'n bwysig bod y BBC yn parhau i gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau, o ystyried ei gylch gwaith a'i gyllid unigryw. Rhan allweddol o hyn yw sicrhau bod y BBC yn darparu amrywiaeth o allbwn unigryw, newydd sy'n berthnasol yn lleol i gynulleidfaoedd ledled y DU. Ar hyn o bryd, rhaglenni newyddion yw'r mwyafrif helaeth o gynnwys teledu gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau, gyda rhaglenni materion cyfoes, chwaraeon a ffeithiol yn ffurfio'r rhan fwyaf o gynnwys heb fod yn rhaglenni newyddion.[146] Mae ffocws y BBC ar gyflawni effaith uchel, symud adnoddau tuag at wasanaethau ar-lein, canolbwyntio fwyfwy ar gyd-gomisiynu a'r angen i ddod o hyd i arbedion ar draws ei holl wasanaethau, i gyd yn creu her gynyddol i'r BBC gynnal yr ehangder hwn. Mae angen i'r BBC gydbwyso unrhyw newidiadau â'i ddyletswydd i ddarparu rhaglenni sy'n berthnasol yn lleol ac sydd o ddiddordeb penodol i gynulleidfaoedd yn y gwledydd neu'r rhanbarthau.

Yn ogystal â monitro effaith newidiadau'r BBC ar gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau, byddwn yn monitro ehangder arlwy'r BBC i'r grwpiau cynulleidfa hyn. Ar yr un pryd, bydd angen i'r BBC fesur effaith ei gynlluniau – Digidol yn Gyntaf, ond hefyd Ledled y DU – ar gynulleidfaoedd a'r economi greadigol. Mae monitro ac adrodd hefyd yn nodweddion allweddol yn ein cynigion ar gyfer

---

[142] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21 a 2021/22. Sgôr yn seiliedig ar ddatganiad: *"Gan feddwl am bopeth mae'r BBC yn ei wneud ar draws teledu, radio ac ar-lein, beth yw eich argraff gyffredinol o'r BBC?"*
[143] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2020/21 a 2021/22.
[144] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22.
[145] Asesiad y BBC o fodlonrwydd cynulleidfaoedd 2021/22.
[146] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Roedd rhaglenni newyddion gwreiddiol yn cyfrif am tua 79% o'r rhaglenni hyn yn 2021.

Trwydded Weithredu wedi'i moderneiddio, gan ein helpu i ddal y BBC i gyfrif ar draws gwasanaethau ac ar gyfer pob cynulleidfa.

**Mae'r BBC yn parhau i gefnogi'r diwydiannau creadigol ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau**

Mae'n bwysig bod y BBC a darlledwyr eraill yn datblygu rhwydwaith ac ôl troed eang o gomisiynwyr, cynhyrchwyr a phartneriaethau gwaith yn y gwledydd a'r rhanbarthau, er mwyn sicrhau bod y rhaglenni hynny sy'n dangos rhannau penodol o'r DU yn adlewyrchu'r straeon, y bobl a'r lleoedd sydd wedi'u cynnwys yn ddilys. Ar yr un pryd, mae'r gweithgarwch hwn yn cefnogi'r diwydiannau creadigol ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau.



Mae'r BBC wedi adrodd bod cyfran uwch o'r cynhyrchwyr y bu'n gweithio gyda nhw yn 2021 wedi'u lleoli y tu allan i Lundain (61%, o'i gymharu â 57% yn 2020). O blith y cynhyrchwyr hyn, roedd 36 yn gyflenwyr newydd o'r gwledydd a'r rhanbarthau (i fyny o 32 y flwyddyn flaenorol).[147] Mae'r BBC hefyd wedi adrodd bod 24 o'i gomisiynwyr rhwydwaith wedi'u lleoli y tu allan i Lundain erbyn hyn, i fyny o 18 y llynedd, gydag 16 yn rhanbarthau Lloegr, chwech yn yr Alban, un yng Ngogledd Iwerddon ac un yng Nghymru.[148] Mae hefyd wedi penodi pedwar comisiynydd drama cynorthwyol newydd ar draws y DU a dau olygydd comisiynu newydd yn y rhanbarthau, ac yn ddiweddar cyhoeddodd gynlluniau i benodi pump yn rhagor o gomisiynwyr cynorthwyol yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC i ddeall effaith y rolau hyn a sut bydd yn parhau i ddatblygu'r gynrychiolaeth hon yn y gwledydd.

Mae cyfraniad y BBC i'r economi greadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau hefyd yn cael ei fesur gan y cwotâu rydym yn eu gosod ar ei wariant cynhyrchu ar raglenni rhwydwaith. Rydym yn pennu'r cwotâu hyn ar lefel y DU ac ar lefel gwlad benodol. Roedd y BBC wedi rhagori ar ei gwota gwariant cynhyrchu cyffredinol y tu allan i Lundain yn 2021, sef 54% o wariant cymwys y rhwydwaith, ac wedi rhagori ar ei gwotâu gwariant ar gynyrchiadau unigol ar gyfer pob gwlad.[149] Roedd hyn yn rhannol oherwydd yr ôl-

[147] Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC 2021/22..
[148] Gwybodaeth a ddarparwyd gan y BBC.
[149] Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Mae cwota gwariant cyffredinol y BBC y tu allan i Lundain wedi'i osod ar 50%. Dyma'r cwotâu gwariant unigol a bennwyd ar gyfer pob gwlad: Lloegr 30%, Gogledd Iwerddon 3%, yr Alban 8% a Chymru 5%. Edrychwch ar yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol ar gyfer y perfformiad yn erbyn y rhain.

groniad o gynyrchiadau roedd Covid-19 wedi tarfu arnynt. Roedd hyn yn cael ei adlewyrchu'n arbennig gan ddigwyddiadau chwaraeon wedi'u gohirio (roedd y gwariant cynhyrchu wedi'i briodoli i Ogledd Lloegr). Roedd teitlau drama a gafodd eu darlledu yn 2021 hefyd wedi cyfrannu at lefelau gwariant, er enghraifft *Vigil* a *Line of Duty* a wnaed yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn y drefn honno. Roedd cyfran gwariant cymwys y rhwydwaith sy'n cael ei ddyrannu i Gymru wedi disgyn o 8% i 7% yn 2021, er nad oedd hyn yn cynrychioli gostyngiad mewn gwariant absoliwt ar raglenni rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yng Nghymru, a oedd yn aros yn wastad.[150]

Yn ogystal â'r cwotâu roeddem wedi'u gosod, cyhoeddodd y BBC gynlluniau i gynyddu'r gwariant y tu allan i Lundain ar deledu rhwydwaith a rhaglenni sain yn ei gynllun Ledled y DU yn 2021. Ym mis Mai 2022, gosododd y Llywodraeth y targedau hyn yng Nghytundeb y BBC,[151] gan fynnu bod y BBC yn cyflawni cynlluniau i sicrhau bod 60% o wariant teledu rhwydwaith (gan gynnwys gwariant ar BBC iPlayer) a 50% o wariant ar radio rhwydwaith a cherddoriaeth a rhaglenni BBC Sounds yn cael eu gwneud y tu allan i Lundain erbyn diwedd 2027. Dywedodd y BBC mai dim ond cyfran fach o'i gynnwys teledu sydd ar gyfer BBC iPlayer yn unig, felly mae ei adroddiadau ar wariant ar deledu rhwydwaith y tu allan i Lundain eisoes yn brocsi da ar gyfer sut mae'n cyflawni yn erbyn ei ymrwymiad teledu. Mewn perthynas â'i ymrwymiad newydd i wario ar radio rhwydwaith, mae'r BBC wedi dweud y bydd angen iddo sefydlu methodoleg i fesur cynnydd tuag at hyn, er mwyn iddo gofnodi gwariant ar gynhyrchu cerddoriaeth a BBC Sounds yn unig.

Rydym hefyd yn cadw golwg ar wariant y BBC ar raglenni nad ydynt yn rhai rhwydwaith a wneir ar gyfer ei wasanaethau optio allan. Mae hyn wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall o £170m yn 2020 (gydag effaith pandemig Covid-19) i £178m yn 2021 (wedi'i arwain gan wariant heb fod ar y rhwydwaith yn yr Alban).[152] Fodd bynnag, roedd hyn yn is na'r lefelau cyn y pandemig; rhwng 2015 a 2019, roedd y gwariant ar raglenni heb fod yn rhai rhwydwaith ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn sefydlog, sef tua £200m. Mae'r duedd fwy gwastad hon ers 2020 yn bennaf oherwydd canslo *Inside Out* yn Lloegr ac oedi gyda'r teitl newydd *We are England*.

Er gwaethaf yr adferiad cyffredinol mewn buddsoddiad mewn rhaglenni, parhaodd sector cynhyrchu'r DU i weld effeithiau dilynol pandemig Covid-19 yn ystod 2021, fel cost ychwanegol mesurau diogelwch Covid-19 a rhai cyfyngiadau teithio a oedd yn parhau. Y llynedd, fe wnaethom ddweud y byddem yn monitro gweithgarwch y BBC i sicrhau ei fod yn cymryd camau i helpu i adfer y sector cynhyrchu. Nodwn fod y BBC wedi dweud ei fod wedi cefnogi cwmnïau yn y gwledydd gyda chyllidebau i ddarparu mesurau wrth gefn yng nghyswllt Covid-19, a'i fod wedi darparu cymorth golygyddol a busnes.[153]

Ar ben hynny, ar ôl siarad â chynhyrchwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau, rydym yn gwybod eu bod wedi profi gwerth sesiynau briffio ar-lein, sy'n cael gwared ar rwystrau i gael mynediad at y BBC. Eleni cynhaliodd y BBC 32 o sesiynau briffio a dosbarthiadau meistr (yn bersonol ac ar-lein), yn ogystal ag 11 o sesiynau briffio wedi'u targedu ar gyfer cynhyrchwyr y gwledydd a'r rhanbarthau.[154] Mae'n galonogol

---

150 Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Mae perfformiad y BBC yn erbyn ei gwotâu y tu allan i Lundain ar gael yn yr Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.

151 Roedd y Llywodraeth wedi gwneud newidiadau i Gytundeb y BBC ym mis Mai 2022. 152 Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Edrychwch ar yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol.

152 Dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Edrychwch ar yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol.

153 Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC 2021/22.

154 Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC 2021/22.

bod y BBC wedi parhau â'i sesiynau briffio ar-lein, a dylai barhau i sicrhau bod cynhyrchwyr ledled y DU yn elwa o gael mynediad teg a thryloyw at gomisiynwyr.

**Mae'r BBC wedi cynnal ac adeiladu ar bartneriaethau ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau i gefnogi'r economïau creadigol ymhellach**

Mae partneriaethau ag asiantaethau lleol, yn ogystal â chyllid a chynlluniau datblygu, yn parhau i fod yn ffordd bwysig i'r BBC gynyddu ei effaith gyda chynulleidfaoedd a chefnogi'r economïau creadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Dywedodd y BBC ei fod wedi helpu 50 o gwmnïau drwy ei Gronfa Cwmnïau Bach Annibynnol, sy'n cefnogi twf cwmnïau cynhyrchu bach annibynnol, gan fuddsoddi cyfanswm o £1m am y flwyddyn. Roedd saith deg pedwar y cant o'r cwmnïau hynny wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Y flwyddyn flaenorol, dyblodd y BBC ei fuddsoddiad yn y Gronfa Cwmnïau Bach Annibynnol o £1m i £2m i gefnogi cwmnïau yn ystod pandemig Covid-19.[155]

Roedd strategaeth Ledled y DU yn ymrwymo'r BBC i adnewyddu nifer o'i bartneriaethau yn ogystal â chreu rhai newydd. Cyhoeddodd y BBC bartneriaeth newydd gyda North-East Screen Industries Partnership ac ymrwymodd i fuddsoddi o leiaf £25m o wariant ar deledu rhwydwaith yn y rhanbarth dros y pum mlynedd nesaf. Yn y gwledydd, mae'r BBC wedi adnewyddu ei bartneriaethau â Screen Scotland a Northern Ireland Screen ac wedi lansio partneriaeth newydd â Cymru Greadigol. Mae'r BBC hefyd wedi creu partneriaethau rhwydwaith newydd rhwng y rhwydwaith a gwasanaethau'r gwledydd. Er enghraifft, mae BBC Northern Ireland wedi ffurfio partneriaeth â BBC Two ar raglenni ffeithiol ac mae wedi ehangu ei bartneriaeth â BBC Three.[156]

Mae'r partneriaethau hyn wedi arwain at gomisiynu rhaglenni i wasanaethu cynulleidfaoedd yn well ledled y DU. Er enghraifft, mae'r BBC wedi comisiynu'r ddrama nodwedd gyntaf yn yr iaith Wyddeleg, *Doineann*, mewn partneriaeth â Chronfa Ddarlledu'r Iaith Wyddeleg Northern Ireland Screen; wedi cyflwyno chwe rhaglen ddogfen dros ddwy flynedd mewn partneriaeth â sefydliad rhaglenni dogfen yr Alban, Scottish Documentary Institute; wedi comisiynu nifer o raglenni mewn partneriaeth â Cymru Greadigol; ac yn Lloegr mae wedi comisiynu rhaglenni ar y cyd â chwmnïau cynhyrchu newydd neu lai.[157] Ac fel y nodwyd yn y bennod ar Ddiben Cyhoeddus 2, mae gan y BBC hefyd amrywiaeth o bartneriaethau â sefydliadau diwylliannol, chwaraeon ac addysgol lleol ledled y DU. Rydym yn croesawu adroddiadau cyhoeddus y BBC ar lwyddiannau ei bartneriaethau dros y flwyddyn ddiwethaf, ac rydym yn ei annog i fesur effaith y rhain ar gynulleidfaoedd a'r economi greadigol.

Mae'r BBC hefyd wedi cyflawni ei ddyletswydd statudol o ddarparu deg awr o raglenni bob wythnos i S4C,[158] ac mae'r ddau ddarlledwr yn parhau i gydweithio ar amrywiaeth o brosiectau i hyrwyddo darpariaeth Gymraeg, fel defnyddio BBC iPlayer i ddosbarthu cynnwys S4C. Nodwn hefyd fod S4C wedi cydleoli gyda'r BBC yn ei bencadlys yng Nghymru yn y Sgwâr Canolog yng Nghaerdydd ac wedi trosglwyddo ei swyddogaethau darlledu a dosbarthu digidol i'r BBC.[159] Ar ben hynny, mae'r BBC wedi dechrau'r broses o adnewyddu ei Gytundeb Cydweithio ag MG ALBA, ac mae'r ddau fwrdd wedi cytuno ar y Cylch Gorchwyl a'r amserlen ar gyfer y broses hon. Mae Cyfarwyddwr Partneriaethau Grŵp

155 Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC 2021/22.
156 Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC 2021/22.
157 Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC 2021/22.
158 Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22, t.185 – 188.
159 BBC, *Cytundeb strategol y BBC/S4C.*

y BBC wedi cytuno i gadeirio'r broses adnewyddu, gyda Phrif Weithredwr MG Alba a Chyfarwyddwr BBC Scotland yn noddwyr gweithredol.

Gan edrych ar strwythur a threfniadau llywodraethu'r BBC ei hun, nodwn nad oes unrhyw aelod o'r bwrdd ar gyfer Gogledd Iwerddon o hyd. Rydym yn cydnabod bod yr oedi i'r broses hon wedi bod y tu hwnt i reolaeth y BBC ac mae'r broses recriwtio bellach wedi ailddechrau.

## Amrywiaeth

Mae dyletswyddau Diben Cyhoeddus 4 y BBC yn ymestyn y tu hwnt i wasanaethu'r gwledydd a'r rhanbarthau ac yn cynnwys rhwymedigaethau ehangach i gynrychioli a phortreadu cymunedau amrywiol y DU yn gywir ac yn ddilys. O'r Targed Amrywiaeth mewn Talent o 20% i'r Gronfa Amrywiaeth Greadigol gwerth £112m, mae'r BBC wedi rhoi nifer o gynlluniau ar waith i geisio cysylltu'n well ag amrywiaeth o grwpiau cynulleidfaoedd gwahanol sy'n gorgyffwrdd. Mae mentrau wedi canolbwyntio ar ehangu cynrychiolaeth, darparu portread mwy dilys, a gwneud gweithlu'r BBC ei hun, a'r rheini sy'n cynhyrchu ei gynnwys, yn fwy cynrychioliadol o boblogaeth y DU.

### Canfyddiadau'r gynulleidfa

**Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o gynrychiolaeth a phortreadu yn dal yn isel o'i gymharu ag agweddau eraill ar berfformiad y BBC, yn enwedig ymysg cynulleidfaoedd DE ac anabl**

Mae cynrychioli a phortreadu'r DU yn gywir ac yn ddilys yn ei holl amrywiaeth yn hanfodol i allu'r BBC i daro tant ag amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, a pharhau i fod yn berthnasol iddynt. Rhoddodd ychydig dros hanner (54%) yr holl oedolion yn y DU sgôr gadarnhaol ar sut mae'r BBC yn cynrychioli ac yn portreadu pobl a lleoedd, sef y sgôr gadarnhaol isaf ar gyfer yr holl ddibenion.[160] Roedd un o bob pump (22%) wedi rhoi sgôr negyddol i'r BBC am *'gynnwys pobl fel fi'* ac roedd chwarter (24%) wedi rhoi sgôr negyddol i'r BBC am *'adlewyrchu bywydau pobl fel fi'*.[161]

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae canfyddiadau o gynrychiolaeth a phortreadu ymysg pobl mewn aelwydydd DE yn dal yn is na chyfartaledd y DU ar gyfer *'cynnwys pobl fel fi'* (47% o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 53%), '*adlewyrchu bywydau pobl fel fi'* (43% o'i gymharu â 48% cyfartaledd y DU) a *'darparu cynnwys sy'n berthnasol i mi'* (47% o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 53%). Yn yr un modd, mae cynulleidfaoedd anabl yn dal yn llai tebygol na'r rheini heb anabledd o roi sgôr gadarnhaol am y BBC yn darparu cynnwys sy'n *'cynnwys pobl fel fi'* (51% o'i gymharu â 57%) ac sy'n *'darparu cynnwys sy'n berthnasol i mi'* (52% o'i gymharu â 57%). Fel gyda phob nodwedd ddemograffig, nid yw'r rhain yn grwpiau ar wahân ac mae rhywfaint o orgyffwrdd. Bydd ein hadolygiad thematig y flwyddyn nesaf yn ceisio deall y cynulleidfaoedd hyn yn well, yn ogystal â'u harferion a sut mae'r BBC yn cyflawni ar eu cyfer.

**Mae'r BBC yn parhau i fynd ar drywydd amrywiaeth o fesurau sydd wedi'u dylunio i wella cynrychiolaeth a phortreadu, gyda chamau gweithredu penodol i fynd i'r afael â chynulleidfaoedd llai bodlon**

Mae'r BBC wedi dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i wella canfyddiadau cynulleidfaoedd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol a chynulleidfaoedd anabl, fel comisiynu mwy o gynnwys

[160] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22. Sgôr yn seiliedig ar ddatganiad: *'Cynnwys sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant cymunedau ledled y DU'.*
[161] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22.

wedi'i anelu at gynulleidfaoedd C2DE (fel y nodwyd o dan Ddiben Cyhoeddus 3) a rhedeg ei Gronfa Amrywiaeth Greadigol gwerth £112m. Mae'r camau gweithredu'n cynnwys darparu cynrychiolaeth fwy dilys o ranbarthau, cefndiroedd a chymeriadau mewn cynnwys wedi'i sgriptio a defnyddio talent anabl mwy amlwg i arwain rhaglenni newydd mewn adloniant ac adloniant ffeithiol.[162] Tynnodd y BBC sylw hefyd at enghreifftiau o raglenni sydd wedi'u targedu'n benodol at grwpiau cynulleidfa C2DE ac anabl, sy'n perfformio'n dda gyda'r cynulleidfaoedd hyn. Hyd yma, fodd bynnag, nid yw ymateb cynulleidfaoedd i raglenni unigol yn cael ei drosi i lefelau uwch o fodlonrwydd yn gyffredinol.

Ar ben hynny, mae'r BBC wedi ehangu cwmpas ei brosiect cynrychiolaeth ar-sgrin ac ar-yr-awyr, sef prosiect 50:50 yn ddiweddar i gynnwys anabledd. Mae hyn yn ychwanegol at ei darged cynrychiolaeth ar y sgrin ac ar yr awyr a osodwyd yn 2016 i gynyddu cynrychiolaeth pobl anabl i o leiaf 8% erbyn 2020.[163] Nid yw'r BBC wedi gosod ei dargedau ar y sgrin ac ar yr awyr newydd eto, gam ddewis aros i ddata diweddaraf y cyfrifiad gael ei gyhoeddi cyn gwneud newidiadau. Cofnododd y BBC gynrychiolaeth anabl ar y sgrin ar 8.9% yn 2021/22.[164]

Rydym yn cydnabod dymuniad y BBC i ystyried ystadegau diweddaraf y boblogaeth cyn gosod targedau newydd ar y sgrin ac ar yr awyr. Fodd bynnag, o ystyried bod y data sydd ar gael ar hyn o bryd yn dangos bod cynrychiolaeth pobl anabl ar y sgrin yn llawer is na chynrychiolaeth pobl anabl yng ngweithlu'r DU (15%) a chymdeithas y DU yn gyffredinol rhwng 16 a 64 oed (21%),[165] rydym yn annog y BBC i weithredu'n gyflym i osod targed pennawd newydd iddo'i hun ar gyfer cynrychioli anableddau ar y sgrin. Rydym hefyd yn annog y BBC i ehangu ei amrywiaeth o dargedau anabledd i adlewyrchu ei dargedau presennol ar gyfer rhywedd ac ethnigrwydd ar y sgrin, fel eu bod yn cynnwys pob genre a rôl arweiniol.

Rydym hefyd yn awgrymu bod y BBC yn nodi'n gliriach yn ei adroddiadau cyhoeddus sut mae'n datblygu ei strategaeth gyffredinol ar gyfer gwella canfyddiadau ymysg grwpiau penodol, gan gynnwys sut mae'n defnyddio ymchwil cynulleidfa. Fel yr esboniwyd yn ein hymgynghoriad, sef Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC, mae rhanddeiliaid wedi galw am ragor o dryloywder ynghylch sut mae'r BBC yn cyflawni ar gyfer grwpiau llai bodlon. Rydym wedi cynnig addasu amod berthnasol y drwydded er mwyn i'r BBC orfod adrodd yn gyhoeddus ar ei rwymedigaethau cynrychioli a phortreadu.

Rydym yn cydnabod y gall gymryd amser i gamau gweithredu gael effaith ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd yn gyffredinol. Fodd bynnag, gan nad yw llawer o'r newidiadau sydd wedi'u gwneud hyd yma wedi arwain at gynnydd amlwg mewn lefelau bodlonrwydd, byddem yn croesawu mwy o amlygrwydd i'r amserlenni y mae'r BBC yn disgwyl gweld gwelliannau o fewn iddynt. Byddwn hefyd yn archwilio gyda'r BBC sut arall y gallai fod yn bosibl olrhain cynnydd.

---

162 Gwybodaeth a ddarparwyd gan y BBC.
163 Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad 2016-20.
164 Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22, t.43.
165 Meincnod: Ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y Farchnad Lafur A08: Statws pobl anabl yn y farchnad lafur – Cyfran o boblogaeth y DU rhwng 16 a 64 oed sy'n 'Anabl yn ôl Diffiniad Safon wedi'i Chysoni' (Ebrill 21-Mawrth 22).



**Mae angen i'r BBC hefyd sicrhau ei fod yn gallu mesur cynrychiolaeth ar yr awyr**

Er bod y BBC wedi cyrraedd ei dargedau cynrychiolaeth ar y sgrin ar lefel pennawd,[166] nid yw'n gallu adrodd ar gynnydd o hyd tuag at ei dargedau radio ar-yr-awyr ar gyfer rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd.[167] Mae'r BBC unwaith eto wedi darparu rhywfaint o ddata o'i brosiect 50:50 fel procsi rhannol, ond fel rydym wedi'i ddweud o'r blaen, nid yw'r data cyfyngedig hwn yn cymryd lle'r BBC yn mesur cynnydd tuag at ei holl dargedau ar yr awyr. Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod wrthi'n datblygu system i'w alluogi i fesur cynrychiolaeth ar yr awyr ac mae'n disgwyl gallu adrodd yn llawn yn erbyn y targed hwn yn 2023/24. Byddwn yn archwilio gyda'r BBC sut mae'n bwriadu mynd ati i adrodd ar gyfer 2022/23 a byddwn yn adolygu'r cynnydd yn y maes hwn yn fanwl.

## Comisiynu

**Mae'r BBC yn dechrau tracio'r gwaith o gyflawni mentrau amrywiaeth allweddol**

Mae nifer o fentrau allweddol y BBC bellach ar waith i sicrhau bod ystyriaethau cynrychiolaeth a phortreadu wrth galon y broses gomisiynu. Er enghraifft, mae'r BBC tua hanner ffordd drwy ail flwyddyn ei Gronfa Amrywiaeth Greadigol, sy'n werth £112m, ac mae ei God Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth (DCCoP) wedi bod ar waith ers 2018.

Rydym wedi galw'n gyson ar y BBC i nodi'n glir sut mae'n cadw golwg ar gynnydd yn erbyn ei fentrau amrywiaeth ac rydym yn falch ei fod wedi darparu rhagor o fanylion mewn rhai meysydd eleni, gan ddangos mwy o atebolrwydd. Er enghraifft, mae wedi adrodd yn gyhoeddus ar wariant yn ystod blwyddyn gyntaf ei Gronfa Amrywiaeth Greadigol, gan fuddsoddi £44m mewn cynnwys amrywiol ar gyfer teledu a £4m ar gyfer radio.[168] Er nad yw'n glir faint roedd y BBC yn ei fuddsoddi bob blwyddyn mewn cynnwys amrywiol cyn yr ymrwymiad hwn, mae'r data hwn yn darparu meincnod ar gyfer monitro cyllid yn y dyfodol. Mae'r BBC hefyd wedi adrodd yn gyhoeddus ar nifer y rhaglenni a oedd yn bodloni pob un o'r meini prawf ar gyfer cael mynediad at y gronfa,[169] ac wedi darparu data cynulleidfa i Ofcom ar sut roedd rhai rhaglenni a gomisiynwyd drwy'r gronfa yn perfformio gyda chynulleidfaoedd amrywiol. Gan fod y Gronfa Amrywiaeth Greadigol hefyd yn ceisio hyrwyddo amrywiaeth oddi ar y sgrin, hoffem weld adroddiad y BBC ar effaith y gronfa ar gynrychiolaeth y gweithlu.

**Mae'r BBC wedi cyflwyno offer mesur newydd a ddylai roi hwb i'w allu i adrodd yn effeithiol ar effaith ymrwymiadau amrywiaeth allweddol**

[166] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22, t.43.
[167] Gwybodaeth a ddarparwyd gan y BBC.
[168] Targed y BBC yw darparu £100m o gyllid ar gyfer teledu a £12m ar gyfer radio erbyn 2024.
[169] Rhaid i raglen fodloni dau o'r meini prawf er mwyn iddi gyfrif tuag at yr ymrwymiad cyllido, fel straeon amrywiol a phortreadu ar y sgrin; amrywiaeth yn arweinwyr y cynyrchiadau, neu amrywiaeth yn arweinwyr cwmnïau.

Mae Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth y BBC yn nodi 46 o ymrwymiadau, sy'n canolbwyntio ar ymgorffori ystyriaethau amrywiaeth ym mhroses gomisiynu'r BBC ac arferion cynhyrchu'r cwmnïau y mae'n gweithio gyda nhw. Yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, fe wnaethom nodi bod y BBC wedi cytuno i ddarparu adroddiad pwrpasol manwl i ni ar gyfer 2021/22. Mae'r adroddiad hwn wedi darparu tystiolaeth benodol o gynnydd y BBC tuag at gyflawni pob un o'i ymrwymiadau yn y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth, gan gynnwys rhagor o fanylion am yr offer mesur newydd mae wedi'u cyflwyno eleni i gadw golwg ar gydymffurfiad.  Mae'r rhain yn cynnwys yr Holiadur Arweinyddiaeth Cwmnïau i wirio amrywiaeth ei gyflenwyr, a'r broses Adroddiadau Diwedd Cynhyrchu. Bydd y naill a'r llall yn galluogi'r BBC i nodi'n gyson a yw cynyrchiadau teledu wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer cyllid cynhyrchu amrywiol. Bydd yr Adroddiad Diwedd Cynhyrchu hefyd yn cofnodi sut mae cynhyrchiad yn cyflawni yn erbyn y gofynion amrywiaeth y cytunwyd arnynt ar ddechrau'r cynhyrchiad hwnnw, ac yn erbyn targedau'r BBC ei hun, gan gynnwys ei ymrwymiad talent amrywiol o 20%. O ystyried ein galwadau blaenorol am i'r BBC olrhain a dangos yn well sut mae cynhyrchwyr yn cyflawni ymrwymiadau'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth, mae'r rhain yn ddatblygiadau i'w croesawu.

Y flwyddyn nesaf, byddwn yn edrych yn fanwl ar ddata newydd y BBC ar i ba raddau y mae cynhyrchwyr wedi cyflawni ymrwymiadau'r cod a'r targed o 20%. Gan ein bod yn dal i aros i weld effeithiolrwydd y system o ran cadw golwg ar gydymffurfiad cynhyrchwyr, byddwn yn monitro cynnydd yn ofalus. Er mwyn sicrhau bod y BBC yn darparu adroddiadau gwell ar gyfer y Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth yn barhaus, rydym hefyd wedi cynnig addasiadau i'r amodau trwydded perthnasol yn ein hymgynghoriad ar Foderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r BBC adrodd ar nifer y comisiynau lle nad oedd timau cynhyrchu yn cyflawni ymrwymiadau'r Cod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth.

Er ein bod yn falch o weld cynnydd diweddar y BBC o ran datblygu offer i olrhain ei fentrau amrywiaeth, mae'r broses wedi bod yn araf. Wrth i'r BBC ddyfeisio unrhyw beth newydd yn lle'r Gronfa Amrywiaeth Greadigol gwerth £112m neu fentrau amrywiaeth yn y dyfodol, mae angen iddo sicrhau ei fod hefyd yn datblygu metrigau a phrosesau, ac yn eu rhoi ar waith, i olrhain y ddarpariaeth yn glir o'r dechrau. Bydd hyn yn ei alluogi i weld yn gyflym sut mae'r cynlluniau'n perfformio ac i addasu'r dull gweithredu dros gylch bywyd y cynlluniau er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymaint o effaith â phosibl.

## Gweithlu

### Mae'r BBC wedi gwneud cynnydd o ran sicrhau mwy o gynrychiolaeth o fewn rhai grwpiau yn ei weithlu

Mae cynrychiolaeth pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu dau bwynt canran ers y llynedd ar draws gweithlu gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU, i 15% yn 2021/22.[170] Mae hyn yn fwy na'r gyfran o bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn y boblogaeth oedran gweithio ehangach yn y DU drwyddi draw (13%), ond mae'n dal yn is na'r gynrychiolaeth mewn gweithluoedd mewn dinasoedd mawr lle mae gan y BBC bresenoldeb cryf (ee Llundain ar 37% a Manceinion ar 28%).[171] Mae

[170] Edrychwch ar yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol.

[171] Meincnod: Arolwg Poblogaeth Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol – NomisWeb. Tabl T05 Gweithgarwch economaidd yn ôl grŵp ethnig a chenedligrwydd. Pawb mewn gwaith, 16-64 oed (Ebrill 21-Mawrth 22).

cynrychiolaeth pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ar lefel uwch reolwyr wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2019/20 i 12%,[172] ond mae'n dal yn is na chynrychiolaeth ar lefel yr holl staff.

Er bod cynrychiolaeth menywod ar draws holl staff gwasanaeth cyhoeddus y BBC wedi aros yn sefydlog ar 47%,[173] mae cyfran y menywod mewn uwch swyddi rheoli wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2019/20 i 46% yn 2021/22.[174]




**Fodd bynnag, mae gan y BBC ragor i'w wneud i wella cynrychiolaeth rhai grwpiau o weithwyr, yn enwedig pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a phobl anabl**

Mae'n werth nodi bod y ddau grŵp cynulleidfa sydd leiaf bodlon â sut maent yn cael eu cynrychioli a'u portreadu gan y BBC hefyd yn cael eu tangynrychioli yng ngweithlu'r BBC, ac yn y diwydiant yn ehangach.[175]

*Amrywiaeth economaidd-gymdeithasol*

Mae'r BBC yn cymryd camau i sicrhau cynrychiolaeth economaidd-gymdeithasol fwy cytbwys yn ei weithlu. Gwnaeth ymrwymiadau eleni, sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb, i 25% o'i staff fod o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is erbyn 31 Rhagfyr 2027[176] a darparu lleoedd ar ei gynllun hyfforddi prentisiaid i 1000 o brentisiaid erbyn mis Mawrth 2025, gan gynnwys 30% o grwpiau economaidd-gymdeithasol is.[177] Dywedodd y BBC wrthym ym mis Awst 2022 ei fod wedi darparu 496 o leoliadau hyd yma.[178] Mae'r ymrwymiadau newydd hyn yn cael eu croesawu a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn y maes hwn.

Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, yn 2021/22 roedd ddwywaith yn fwy tebygol bod rhieni staff gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn y DU mewn galwedigaethau proffesiynol pan oedd y staff yn 14 oed,

---

[172] Edrychwch ar yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol. Cynrychiolaeth lleiafrif ethnig ar draws uwch reolwyr gwasanaeth cyhoeddus y BBC: 12%, 21/22; 9%, 20/21; 8%, 19/20.
[173] Y meincnod ar gyfer poblogaeth oedran gweithio y DU sy'n fenywod yw 48% – *ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y farchnad lafur A09: Statws y farchnad lafur yn ôl grŵp ethnig. 16 oed a hŷn, Ebrill 21-Mawrth 22.*
[174] Edrychwch ar yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol. Cynrychiolaeth menywod ar draws uwch reolwyr gwasanaeth cyhoeddus y BBC: 46%, 21/22; 44%, 20/21; 43%, 19/20.
[175] Edrychwch ar ein hadroddiad Tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad mewn teledu a radio i gael cymharu ag amrywiaeth y gweithlu yn y diwydiant ehangach.
[176] Mae'r BBC yn bwriadu mesur y targed hwn drwy gyfeirio at gyfran y staff lle'r oedd eu rhieni mewn galwedigaethau economaidd-gymdeithasol is pan oedd y staff yn 14 oed.
[177] Edrychwch ar newidiadau'r Llywodraeth i Gytundeb y BBC.
[178] Gwybodaeth a ddarparwyd gan y BBC.

na gweithlu ehangach y DU (65% o'i gymharu â 33%), ac o fod wedi mynychu ysgolion preifat (13% o'i gymharu â 7%).[179]

*Anabledd*

Roedd y BBC wedi gosod targed yn 2021 i sicrhau bod staff anabl yn cyfrif am o leiaf 12% o weithlu'r BBC erbyn 2026. Fodd bynnag, mae cynrychiolaeth yng ngwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU wedi gostwng un pwynt canran bob blwyddyn ers 2019/20[180] i 8% yn 2021/22.

Mae'r BBC wedi adrodd ar fentrau y mae wedi'u cyflwyno i helpu i wella cynrychiolaeth a chynhwysiad staff anabl yn ei weithlu. Mae hyn yn cynnwys cynllunio ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer cydweithwyr anabl sy'n ymwneud â datblygu eu gyrfa, a chymryd camau i wella cynhwysiad i gydweithwyr presennol drwy ail-lansio ei gynllun pasbort anabledd a lansio ei 'becyn cynhwysiad'.[181] Mae'r BBC hefyd wedi cymryd rhan mewn mentrau ehangach i wella cynrychiolaeth i bobl anabl, gan gynnwys chwarae rhan allweddol yn y Prosiect Mynediad i Deledu, a lansiwyd ym mis Awst 2022 ar draws y diwydiant, sy'n canolbwyntio ar wella hygyrchedd mewn cynyrchiadau, stiwdios a chyfleusterau. Mae hefyd wedi cyhoeddi cynlluniau'n ddiweddar i benodi dau gomisiynydd cynorthwyol i *"ehangu'r gronfa dalent o bobl fyddar, anabl a/neu niwrowahanol ar y teledu."*

Rydym yn falch o weld ymyriadau'r BBC o ran cadw a datblygu; fodd bynnag, mae'r gostyngiad yng nghyfran y staff anabl yng ngwasanaethau cyhoeddus y DU yn dal yn bryder. Byddwn yn parhau i fonitro'n agos ymdrechion y BBC i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol i wrthdroi'r gostyngiad mewn cynrychiolaeth anabledd a dod yn ôl ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o 12%. Fel y nodwyd yn ein hadolygiad Pum Mlynedd o Amrywiaeth mewn Darlledu, rydym o'r farn y gallai gosod targedau cadw gweithlu helpu i gadw staff a chreu gweithle mwy cynhwysol, ac rydym yn annog y BBC i ystyried hyn.

**Y BBC yw'r darlledwr cyntaf i adrodd ar amrywiaeth ei weithlu ym mhob un o'r gwledydd**

Eleni, mae'r BBC wedi darparu data amrywiaeth y gweithlu ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.[182] Dyma'r darlledwr cyntaf i ddarparu data amrywiaeth i Ofcom yn ôl ardal ddaearyddol.[183] Mae hwn yn gam cadarnhaol iawn gan y BBC ac rydym wedi annog darlledwyr eraill i ddilyn yr un esiampl.

Mae'r data'n dangos, yn 2021/22, bod cynrychiolaeth menywod a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yng ngweithlu'r BBC yn gyffredinol yn adlewyrchu cyfansoddiad y gweithlu ym mhob gwlad[184], gyda rhai eithriadau: yng Ngogledd Iwerddon, nid oedd menywod yn cael eu cynrychioli cystal yn y BBC ag yn y boblogaeth weithio leol (43% o'i gymharu â 49%); yn Lloegr, roedd cynrychiolaeth grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn y BBC yn uwch nag ar gyfer y gweithlu yn Lloegr gyfan (19% o'i gymharu â 16%). Roedd cynrychiolaeth pobl 50 oed a hŷn a gyflogir ar bob lefel ar draws y BBC yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn adlewyrchu'n fras y boblogaeth oedran gweithio yn y gwledydd hynny. Yng Ngogledd

[179] Edrychwch ar yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol. Ar gyfer y meincnod, edrychwch ar adroddiad Ymddiriedolaeth Sutton Leading People 2016, a gyhoeddwyd ar 24 Chwefror 2016. Amcangyfrif o'r gyfran sy'n mynychu ysgol breifat.
[180] Edrychwch ar yr adroddiad perfformiad rhyngweithiol. Cynrychiolaeth anabledd ar draws holl staff gwasanaeth cyhoeddus y BBC: 10%, 19/20; 9%, 20/21; 8%, 21/22.
[181] Gwybodaeth a ddarparwyd gan y BBC.
[182] Yn 2021/22 roedd 81% o weithlu gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn y DU wedi'i leoli yn Lloegr, gydag 8% yn yr Alban, 7% yng Nghymru a 4% yng Ngogledd Iwerddon.
[183] Cyhoeddir y data yn ein hadroddiad diweddaraf ar Degwch, amrywiaeth a chynhwysiad mewn teledu a radio.
[184] Edrychwch ar NomisWeb: arolwg Poblogaeth Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol. T04 Gweithgarwch economaidd yn ôl grŵp ethnig a gwlad enedigol (Ebrill 2021-Mawrth 2022).

Iwerddon, roedd staff y BBC dros 50 oed yn cyfrif am 5% yn fwy o weithlu'r BBC na'r gweithlu lleol yn gyffredinol. Roedd gweithwyr anabl yn y BBC yn cael eu tangynrychioli'n sylweddol ledled y DU, gan gyfrif am rhwng 8% a 9% o'r gweithlu ym mhob gwlad. Ar hyn o bryd nid oes data meincnod lleol ar gael ar gyfer cefndir economaidd-gymdeithasol. Ond mae data'r BBC yn dangos mai pobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol sy'n cael eu cynrychioli fwyaf yng Ngogledd Iwerddon (26%) a'u cynrychioli leiaf yn Lloegr (20%).

Gallai cyhoeddi rhagor o ddata fesul lefel swydd ac yn ôl rhanbarth yn y dyfodol roi rhagor o eglurder, gan gynnwys a yw prif ganolfannau cyflogaeth y BBC hefyd yn cynrychioli poblogaethau lleol. Pan fydd ffigurau wedi'u diweddaru o'r cyfrifiadau[185] cenedlaethol diweddar ar gael, dylem allu cymharu mwy, yn ogystal â dod i gasgliadau ynghylch data'r BBC ar grefydd, cyfeiriadedd rhywiol a chefndir economaidd-gymdeithasol.

## Amodau'r Drwydded Weithredu

Ochr yn ochr â'n hasesiad ehangach o berfformiad, rydym yn ystyried cyflawniad y BBC yn erbyn amodau perthnasol Diben 4 y Drwydded Weithredu. Fel y disgrifir uchod, mae diffyg adrodd gan y BBC ar ei dargedau cynrychiolaeth ar yr awyr (radio) yn golygu nad yw'r BBC wedi cydymffurfio'n llawn ag amod 2.43 y Drwydded Weithredu. Ar ben hynny, roedd Covid-19 yn dal i effeithio ar gynhyrchu ar gyfer y BBC, a oedd yn golygu nad oedd y BBC yn bodloni un amod sy'n ymwneud â Diben 4 – ei gwota ar gyfer rhaglenni rhanbarthol heb fod yn rhaglenni newyddion ar BBC One a BBC Two yn ystod oriau gwylio brig. Trafodwyd hyn yn fyr yn y bennod ar Ddiben Cyhoeddus 1 uchod, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

[185] Mae hyn yn cyfeirio at Gyfrifiad Cymru a Lloegr 2021 a Chyfrifiad yr Alban 2022.

# Effaith y BBC ar gystadleuaeth

## Crynodeb

- Nid ydym wedi nodi unrhyw bryderon mawr sy'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn ystod y cyfnod adrodd diweddaraf. Fe wnaethom asesu effaith nifer o newidiadau mae'r BBC wedi'u gwneud o ran cystadleuaeth, gan gynnwys ymateb i ddau brawf budd y cyhoedd.
- Fel rhan o'n hadolygiad o BBC Studios, fe wnaethom godi rhai pryderon ynghylch cydymffurfiad y BBC â'n rheolau masnachol. Rydym yn cyhoeddi ymateb y BBC a'n camau nesaf arfaethedig ochr yn ochr â'r ddogfen hon.
- Fe wnaethom argymell bod y Llywodraeth yn diwygio'r Cytundeb i wneud y broses ar gyfer asesu newidiadau yn fwy hyblyg ac effeithlon. Ochr yn ochr â'r ddogfen hon, rydym yn cyhoeddi cynigion i ddiweddaru ein canllawiau ar gyfer newidiadau i wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys annog ymgysylltu mwy cadarnhaol rhwng y BBC a rhanddeiliaid.

Gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, sy'n gweithredu ar draws teledu, radio ac ar-lein, mae'n gallu cael effaith sylweddol ar gystadleuaeth - yn gadarnhaol ac yn negyddol. Mae rôl Ofcom wedi ei nodi yn y Siarter a'r Cytundeb ac mae'n mynnu ein bod ni'n diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y Deyrnas Unedig. Er mwyn gwireddu hyn, rydym wedi sefydlu rheolau ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol y BBC ac rydym yn adolygu'r newidiadau y mae'r BBC yn eu gwneud i'r gweithgareddau hyn. Fel rhan o'n hadolygiad ym mis Mehefin, roeddem wedi ystyried ein gwaith o reoleiddio'r BBC, gan gynnwys ei effaith ar gystadleuaeth. Rydym yn cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth i ddiwygio'r Cytundeb Fframwaith er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i Ofcom benderfynu sut a phryd i gynnal asesiadau cystadleuaeth, gan ddweud y byddem yn ymgynghori ar gynigion i ddiweddaru ein gwaith rheoleiddio.

Rydym yn adeiladu ar hyn drwy gyhoeddi ymgynghoriad heddiw, sy'n cynnig diweddaru ein canllawiau ar sut mae newidiadau i wasanaethau cyhoeddus y BBC yn cael eu hasesu. Mae hyn yn cynnwys cynigion i gynnwys canllawiau newydd i gefnogi ymgysylltu mwy effeithiol rhwng y BBC a rhanddeiliaid, yn enwedig yn ystod y cam asesu perthnasedd. Mae hyn oherwydd ein bod yn parhau i ystyried y gellid gwella ymgysylltiad y BBC â rhanddeiliaid ynghylch newidiadau i'w wasanaethau. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cynigion i ddiweddaru ein canllawiau i ddarparu eglurder ynghylch ein dull gweithredu o ran gwerth cyhoeddus, sut mae ein prosesau rheoleiddio'n gweithio, ac i ddarparu mwy o hyblygrwydd o ran ymgynghori ynghylch perthnasedd. Rydym hefyd yn nodi ein barn bresennol am safle'r BBC yn y sectorau clyweled a sain.

Ochr yn ochr â'n hadolygiad ym mis Mehefin, roeddem hefyd wedi cyhoeddi ein Hadolygiad o BBC Studios a oedd yn codi rhai pryderon ynghylch cydymffurfiad y BBC â'n gofynion Masnachu a Gwahanu. Mae'r BBC wedi ysgrifennu atom yn nodi'r newidiadau mae'n bwriadu eu gwneud i fynd i'r afael â'n pryderon. Rydym yn croesawu'r newidiadau mae'r BBC yn bwriadu eu gwneud ac rydym yn cynnig rhai mân newidiadau i'n rheolau yn ein hymgynghoriad ar gystadleuaeth, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen hon, i ddarparu mwy o eglurder a sicrhau bod y BBC yn cynnwys y newidiadau mae'n eu gwneud i ymateb i'n hadolygiad.

## Ein gwaith yn 2021/22 i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol

## Gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus

Mae ein dyletswyddau rheoleiddio mewn perthynas â gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn cynnwys pedwar maes cyffredinol, fel y nodir yn y tabl isod.

*Ffigur 1: Sut rydym yn rheoleiddio effaith gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC ar gystadleuaeth*

| | |
|---|---|
| **Newidiadau i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus** | Rydym yn ystyried a yw gwerth cyhoeddus newid perthnasol sy'n cael ei gynnig gan y BBC i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Gallwn wneud hyn drwy Asesiad Cystadleuaeth y BBC. |
| **Gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus parhaus** | Efallai y byddwn yn agor Adolygiad Cystadleuaeth y BBC lle mae sail resymol i gredu bod cynnal un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. |
| **Comisiynu** | Dros gyfnod y Siarter mae'n rhaid i'r BBC gomisiynu mwy o gynnwys yn dilyn proses gystadleuol sy'n deg, yn rhesymol, yn anwahaniaethol ac yn dryloyw. Ein rôl ni yw monitro cydymffurfiad y BBC a gorfodi'r gofynion hynny. |
| **Dosbarthu** | Mae gennym rôl i ystyried cwynion penodol o safbwynt cystadleuaeth am y ffordd mae'r BBC yn dosbarthu ei wasanaethau cyhoeddus. |

Isod, rydym yn amlinellu'r gwaith rydym wedi'i wneud o dan bob un o'r meysydd hyn yn ystod y 12-18 mis diwethaf.

## Newidiadau i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus

**Asesiadau perthnasedd y BBC**

Pan fydd y BBC yn bwriadu gwneud newidiadau i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus, mae'n rhaid iddo ystyried a yw hyn yn newid 'perthnasol'. Mae hwn yn newid a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol neu lansio gwasanaeth cyhoeddus newydd.

Yn ystod 2021/22 rydym wedi adolygu asesiadau perthnasedd y BBC o'r newidiadau arfaethedig a ganlyn i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus:

- Ychwanegu ffrwd BBC Radio 1 Relax at BBC Sounds (y bu i ni adrodd arno yn Adroddiad Blynyddol y llynedd).
- Treialon BBC Sounds.

Ym mis Rhagfyr 2021, roedd y BBC yn cynnig treialu rhai newidiadau ar BBC Sounds. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys creu ffenestri ar gyfer podlediadau[186] ar gyfer ystod fach o deitlau, prynu podlediadau sy'n targedu cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, darparu mwy o gynnwys ffurf-fer (o dan 10 munud) mewn amrywiaeth o genres, curadu i chwarae, a rhaglenni radio BBC Sounds yn unig. Daethom i'r casgliad nad oedd y treialon yn berthnasol, ac ni wnaethom gyfarwyddo'r BBC i gynnal prawf budd y cyhoedd. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r BBC ynghylch cynnydd y treialon. Mae'r BBC wedi dweud y bydd yn cynnal asesiad perthnasedd pellach os yw'n bwriadu bwrw ymlaen ag unrhyw ran o'r newidiadau.

[186] Roedd hyn yn golygu bod penodau o bodlediadau dethol ar gael ar BBC Sounds am gyfnod o 28 diwrnod ar ôl eu rhyddhau.

Yn ddiweddar, mae'r BBC wedi rhoi asesiad perthnasedd i ni o'i newidiadau arfaethedig i newyddion lleol ar-lein, gan gynnwys cael mwy o straeon newyddion lleol ac ychwanegu pedair ardal leol arall at y mynegai ar-lein. Rydym yn ystyried asesiad y BBC ar hyn o bryd.

**Profion budd y cyhoedd y BBC**

Cyhoeddodd y BBC ei gynlluniau i ail-lansio BBC Three fel sianel ddarlledu ym mis Mawrth 2021 a chyhoeddodd ei brawf budd y cyhoedd ym mis Mehefin 2021. Fel sy'n ofynnol o dan Siarter a Chytundeb y BBC, rydym wedi ystyried cynigion y BBC drwy asesiad cystadleuaeth y BBC, ac ym mis Tachwedd 2021, fe wnaethom gyhoeddi ein penderfyniad terfynol y gallai BBC Three ddychwelyd fel sianel ddarlledu. Yn y penderfyniad hwn, rydym yn nodi ein casgliadau y gallai'r cynnig ddarparu gwerth cyhoeddus ychwanegol i gynulleidfa allweddol nad yw'n cael ei gwasanaethu'n ddigonol, ac y byddem yn dal y BBC i gyfrif am gyflawni'r manteision i gynulleidfaoedd, er enghraifft drwy newidiadau i'r Drwydded Weithredu a gwell prosesau monitro ac adrodd.

Ym mis Mehefin 2022 cyhoeddodd y BBC gynigion i ehangu faint o gynnwys sydd ar BBC iPlayer drwy ddarparu unrhyw deitl (gan gynnwys cyfresi sy'n dychwelyd fel setiau bocs), yn unol â'i gytundebau â chynhyrchwyr a deiliaid hawliau sylfaenol. Cyhoeddodd y BBC ei brawf budd y cyhoedd ym mis Hydref 2022, lle daeth i'r casgliad, ar ôl ymgynghori, fod y cynigion yn bodloni'r prawf budd y cyhoedd ac nad oeddent yn newid perthnasol.

Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, rydym wedi cyhoeddi datganiad lle rydym wedi dod i'r casgliad, ar ôl ymgynghori, nad yw cynigion BBC iPlayer yn berthnasol. Felly, gall y BBC fwrw ymlaen i weithredu'r newidiadau i BBC iPlayer heb asesiad pellach gan Ofcom.

Wrth ddod i'n penderfyniad, rydym yn cydnabod bod rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon am effaith rhaglenni a brynir gan y BBC ar gystadleuaeth. Nododd y BBC yn ei ddatganiad prawf budd y cyhoedd nad yw'n cynnig unrhyw newidiadau i argaeledd rhaglenni neu ffilmiau a brynir ar BBC iPlayer. Ar y sail honno, nid ydym wedi ystyried cynnwys a brynir ar BBC iPlayer fel rhan o'r cynigion. Fodd bynnag, rydym yn ailadrodd, pe bai'r BBC yn ystyried gwneud newidiadau i'w ddull o brynu ar BBC iPlayer yn y dyfodol, y byddai angen iddo ystyried a ydynt yn berthnasol o dan y fframwaith rheoleiddio, gan ystyried y risg o gael effaith negyddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ar ben hynny, fel rhan o'n hadolygiad o'r Drwydded Weithredu, rydym wedi ymgynghori ar ofynion newydd i'r BBC adrodd ar y rôl mae rhaglenni a brynir yn ei chwarae yn ei gynlluniau i ddarparu allbwn unigryw, ac ar BBC iPlayer yn ehangach, a fydd yn ein galluogi ni – a rhanddeiliaid – i fonitro newidiadau mae'r BBC yn eu gwneud yn y maes hwn.

**Gweithgareddau nad ydynt yn wasanaethau**

Mae'r BBC yn ymwneud â rhai gweithgareddau nad ydynt yn wasanaethau cyhoeddus yn y DU, ond sy'n dal i gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae gweithgareddau nad ydynt yn wasanaethau yn cynnwys gwasanaethau fel Freeview. Pan fydd y BBC yn gwneud newidiadau i weithgaredd nad yw'n wasanaeth, bydd angen iddo ystyried a yw'r newid yn newid 'perthnasol' yn yr un ffordd ag y mae'n rhaid iddo ystyried newidiadau i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU.

Nid ydym wedi ystyried unrhyw newidiadau i weithgareddau nad ydynt yn wasanaethau yn ystod y flwyddyn adrodd.

## Gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus parhaus

**Ystyried safle BBC Sounds yn y farchnad**

Ochr yn ochr ag Adroddiad Blynyddol y llynedd, fe wnaethom gyhoeddi datganiad ar sefyllfa BBC Sounds yn y farchnad. Roedd hyn yn dilyn ein cais am dystiolaeth ym mis Hydref 2020 a oedd yn gofyn am wybodaeth ynghylch sefyllfa ac effaith BBC Sounds ar y farchnad, ac ymgynghoriad dilynol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021. Yn ein datganiad terfynol, daethom i'r casgliad nad oedd gennym sail resymol i gredu bod BBC Sounds yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, ac ni fyddwn yn lansio adolygiad cystadleuaeth y BBC yn y maes hwn.

**Cystadleuaeth mewn comisiynu a dosbarthu**

Mae'r Cytundeb yn nodi targedau penodol y mae'n rhaid i'r BBC eu cyrraedd mewn perthynas â chynyddu cyfran y cynnwys sy'n cael ei gomisiynu ar gyfer ei wasanaethau cyhoeddus drwy broses gystadleuol. Rydym wedi parhau i fonitro cynnydd y BBC o ran cyrraedd ei dargedau.

*Ffigur 2: Cynnydd y BBC eleni tuag at dargedau comisiynu*

| | Cystadleuaeth hyd yma 18/19 | Cystadleuaeth hyd yma 19/20 | Cystadleuaeth hyd yma 20/21 | **Cystadleuaeth hyd yma 21/22** | Targed | Pryd mae'n rhaid cyrraedd y targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Teledu[187] | 56% | 62% | 64% | **62%** | 100% | 31 Rhag 2027 |
| Radio Rhwydwaith[188] | 35% | 48% | 53% | **55%** | 60% | 31 Rhag 2022 |
| Ar-lein[189] | 44%[190] | 62% | 59% | **72%** | 100% | 31 Rhag 2027 |

Mae'r BBC wedi gwneud rhywfaint o gynnydd tuag at gyrraedd y targedau hyn yn 21/22; er enghraifft, mae nifer y comisiynau ar-lein sy'n destun cystadleuaeth wedi codi. Er bod y gyfran sy'n destun cystadleuaeth ar gyfer comisiynau teledu wedi gostwng, mae Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2021/22 y BBC yn datgan bod hyn *"oherwydd digwyddiadau chwaraeon mawr yn symud o 2020 i 2021 (ee y Gemau Olympaidd a'r Ewros nad ydynt yn destun cystadleuaeth). Roedd hyn yn golygu bod*

[187] Mae'r Cytundeb yn mynnu bod y BBC yn sicrhau cystadleuaeth am 100% o raglenni teledu perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2027. Mae'r ffigur yn seiliedig ar nifer yr oriau a ddarlledwyd neu a ddarparwyd ar BBC iPlayer yn 2020, gan ystyried penderfyniadau comisiynu hyd at 31 Rhagfyr 2020.
[188] Mae'r Cytundeb yn mynnu bod y BBC, o ran rhaglenni radio perthnasol, yn sicrhau cystadleuaeth am 60% o leiaf o amser darlledu perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2022. Mae'r ffigur yn seiliedig ar nifer yr oriau a ddarlledwyd yn 2020/21, gan ystyried penderfyniadau comisiynu hyd at 31 Mawrth 2021.
[189] Mae'r Cytundeb yn mynnu bod y BBC yn sicrhau cystadleuaeth am 100% o ddeunydd ar-lein perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2027. Mae'r BBC wedi diffinio 'deunydd ar-lein perthnasol' mewn ffordd sy'n cadw at ddarpariaethau'r Cytundeb ac mae wedi trafod y diffiniad hwn ag Ofcom. Mae'n mesur cystadleuaeth ar-lein yn ôl gwariant ar gynhyrchu cynnwys deunydd ar-lein perthnasol. Mae'r ffigur yn seiliedig ar wariant yn 2020/21.
[190] Yn ystod y flwyddyn hon, defnyddiodd y BBC ganran y gwariant perthnasol a oedd yn allanol fel procsi am wariant a oedd yn destun cystadleuaeth. Felly, nid oes modd cymharu'r ffigur hwn yn uniongyrchol â'r ffigurau ar gyfer blynyddoedd eraill.

*ffigurau'r llynedd yn uwch oherwydd eu habsenoldeb a'u bod yn cydbwyso â ffigurau eleni."*[191] Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y BBC o ran y gallu i gystadlu mewn comisiynau teledu dros y blynyddoedd cyn y targed.

Mae'n rhaid i'r BBC gyrraedd y targed ar gyfer comisiynau radio erbyn diwedd 2022, ac mae wedi rhoi gwybod i ni ei fod yn credu ei fod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hwn. Rydym yn bwriadu adrodd yn ffurfiol ar gydymffurfiaeth â'r targed hwn yn adroddiad y flwyddyn nesaf. Nid yw'r targed hwn yn parhau ar ôl 2022, ond rydym yn cydnabod ei bwysigrwydd i'r sector cynhyrchu sain ac rydym yn disgwyl i'r BBC barhau i fonitro ac adrodd bob blwyddyn ar ganran y rhaglenni radio perthnasol sy'n destun cystadleuaeth. Byddai gormod o ostyngiad o'i lefel darged ym mis Rhagfyr 2022 yn destun pryder i ni.

Mae'n ofynnol i'r BBC hefyd sicrhau bod gwir gystadleuaeth rhwng cynhyrchwyr y BBC a rhai allanol (cynhyrchwyr annibynnol ai peidio) ar sail deg, resymol, anwahaniaethol a thryloyw. Rydym yn monitro proses gomisiynu'r BBC, gan gynnwys yn erbyn ei ofynion o ran bod yn deg, yn rhesymol, yn anwahaniaethol ac yn dryloyw.

Fel rhan o'n hymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid, rydym wedi ymgysylltu â nifer o gwmnïau cynhyrchu ynghylch proses gomisiynu'r BBC. Rydym yn pwyso a mesur y sgyrsiau hynny isod a byddwn yn parhau â'r ymgysylltu hwn yn y flwyddyn i ddod.

Roedd y farn yn gadarnhaol ar y cyfan, ac ni fynegodd y cynhyrchwyr unrhyw bryderon sylweddol ynghylch tegwch proses y BBC. Cafwyd rhai sylwadau ar broses gomisiynu'r BBC:

- Dywedodd llawer o gynhyrchwyr fod parhad cyfarfodydd rhithiol ar ôl Covid wedi bod yn ddefnyddiol, gan ei gwneud yn haws i gynhyrchwyr y tu allan i ganolfannau comisiynu'r BBC fynychu sesiynau briffio gyda chomisiynwyr.
- Dywedodd rhai eu bod am gael mwy o dryloywder ynghylch strategaeth gomisiynu'r BBC, gan gynnwys pa slotiau rhaglenni sy'n cael eu cynnig a faint o gyllideb sydd ar gael.
- Soniodd rhai cynhyrchwyr hefyd y gallai fod mwy o eglurder ynghylch yr amserlenni ar gyfer y broses gomisiynu.

Codwyd rhai materion penodol ynghylch y broses gomisiynu yn y gwledydd. Rydym yn ystyried y rhain ar hyn o bryd.

Mae Ofcom wedi rhoi gofynion ar waith ynghylch y ffordd mae'r BBC yn dosbarthu ei wasanaethau cyhoeddus. Gallwn hefyd ystyried cwynion am ddosbarthu gwasanaethau cyhoeddus y BBC os nad yw'r sawl sy'n cwyno wedi gallu datrys y mater drwy broses gwyno'r BBC. Cawsom gŵyn am weithgareddau dosbarthu'r BBC, ond fe wnaethom benderfynu na fyddai'n briodol agor ymchwiliad.[192]

---

[191] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2021/22, t.164.
[192] Tarwch olwg ar Atodiad 1: Cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol.

## Gweithgareddau masnachol a masnachu

Mae'r BBC yn ymgymryd â gweithgareddau masnachol i gynhyrchu elw ariannol, y gellir ei ail-fuddsoddi yn rhaglenni a gwasanaethau'r BBC ac ategu incwm o ffi'r drwydded. Mae'n rhaid i'r gweithgareddau hyn allu addasu i'r amgylchedd sy'n newid ac ymateb i gyfleoedd wrth iddynt godi. Ein rôl ni yw sicrhau nad yw'r berthynas rhwng y gwasanaeth cyhoeddus a'r gweithgareddau masnachol yn ystumio'r farchnad nac yn creu mantais gystadleuol annheg. Gan hynny, rydym wedi pennu rheolau Masnachu a Gwahanu ynghylch sut mae'r BBC yn gweithredu ac yn masnachu ar draws y ffin rhwng ei weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a masnachol.

*Ffigur 3: Crynodeb byr o'r gofynion Masnachu a Gwahanu*

| Gwahanu gweithredol | Cyflenwi a phrisio nwyddau a gwasanaethau | Cyfradd enillion fasnachol |
|---|---|---|
| • Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod trefn lywodraethu'r is-gwmnïau masnachol yn wahanol ac ar wahân i'r gwasanaeth cyhoeddus.<br>• Mae hefyd yn ofynnol cyfyngu ar fynediad yr is-gwmnïau masnachol at wybodaeth am strategaeth, blaenoriaethau a gweithgareddau'r gwasanaeth cyhoeddus, nad yw ar gael i drydydd partïon | • Rheoleiddio'r telerau ac amodau y mae'r gwasanaeth cyhoeddus a'r is-gwmnïau masnachol yn eu defnyddio i werthu nwyddau a gwasanaethau i'w gilydd.<br>• Mae nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu gwerthu gan y gwasanaeth cyhoeddus i drydydd partïon hefyd yn cael eu cynnwys yn y gofyniad hwn. | • Mae'n rhaid i'r BBC ennill cyfradd enillion fasnachol o bob un o'i is-gwmnïau masnachol a'r llinellau busnes dros gyfnod priodol o amser. |
| Gofynion monitro, adrodd a thryloywder ar draws y tri maes | | |

O dan y fframwaith hwn, mae'n rhaid i'r BBC ystyried a yw unrhyw newidiadau arfaethedig i'w weithgareddau masnachol yn berthnasol ac, os felly, cynnal prawf masnachol a chyfeirio'r newid perthnasol atom ni cyn iddo gael ei roi ar waith. Byddem wedyn yn asesu a yw'r newid hwn yn berthnasol ac os byddwn yn dod i'r casgliad ei fod, byddem yn cynnal asesiad a phenderfyniad Masnachu a Gwahanu.[193]

Rydym hefyd yn monitro perfformiad y BBC o ran ei weithgareddau masnachol yn barhaus, gan gynnwys asesu'r wybodaeth adrodd a ddarperir bob blwyddyn gan y BBC o dan ein rheolau.

Rydym yn nodi ein prif feysydd gwaith yn 2021/22 isod.

**Adolygiad o BBC Studios**

Ym mis Mehefin eleni, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad yn nodi canfyddiadau ein hadolygiad o BBC Studios, a oedd yn edrych yn fanwl ar y prosesau a'r gweithdrefnau mae'r BBC wedi'u rhoi ar waith i

[193] Bydd yr asesiad Masnachu a Gwahanu yn canolbwyntio ar a yw'r newid arfaethedig yn debygol o ystumio'r farchnad neu greu mantais gystadleuol annheg i weithgarwch masnachol y BBC o ganlyniad i'r berthynas rhwng y gwasanaeth cyhoeddus a'r gweithgaredd masnachol.

fodloni ein rheolau ar Fasnachu a Gwahanu.[194] Ein nod oedd rhoi mwy o dryloywder i randdeiliaid drwy'r adolygiad hwn. Fe wnaethom ganfod bod gan y BBC brosesau a mesurau priodol ar waith mewn rhai meysydd, er enghraifft, yng nghyswllt gwahanu gweithredol. Roedd rhai meysydd a oedd yn peri pryder:

- Pan fydd BBC Studios yn dosbarthu cynnwys y mae'r gwasanaeth cyhoeddus yn berchen ar yr eiddo deallusol ar ei gyfer, mae trefniadau cyd-gynhyrchu ar waith lle mae gan BBC Studios hawl i'r holl elw sy'n gysylltiedig â dosbarthu'r hawliau cynnwys eilaidd cysylltiedig. Nid oeddem yn credu bod y BBC wedi adolygu a diweddaru'r arfer hwn yn llawn yng ngoleuni ein rheolau.
- Fe wnaethom edrych ar sampl bach o drafodion er mwyn deall yn well sut roedd nwyddau a gwasanaethau'n cael eu masnachu rhwng y gwasanaeth cyhoeddus a BBC Studios a chanfod rhai problemau gyda'r prosesau gweinyddol.

Fe wnaethom ddweud bod angen i Fwrdd y BBC edrych yn ehangach ar y materion a godwyd a chymryd camau i ddiweddaru ei ddull gweithredu a bodloni ei hun bod ei brosesau a'i drefniadau yn unol â'n rheolau. Rydym yn rhoi rhagor o fanylion am y canfyddiadau hyn yn ein Hadolygiad o BBC Studios.

Mae Pwyllgor Masnachu Teg y BBC wedi ysgrifennu at Ofcom yn ddiweddar yn nodi ei ymateb i'n canfyddiadau. Nododd y BBC ei fod yn cymryd y pryderon a godwyd gan Ofcom o ddifrif ac yn nodi nifer o newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Yn benodol, mae'r BBC yn bwriadu sefydlu proses ffurfiol ar gyfer asesu bargeinion pan fydd BBC Studios yn buddsoddi mewn rhaglenni lle mae'r gwasanaeth cyhoeddus yn berchen ar yr Eiddo Deallusol. Bydd hyn yn cael ei wneud fesul achos pan fydd y rhaglenni'n cael eu hailgomisiynu neu pan fydd penderfyniad i ail-fuddsoddi. Mewn perthynas â'r drefn prisiau trosglwyddo, mae'r BBC wedi cynnal archwiliad ac mae'n rhoi argymhellion ar waith. Mae hefyd wedi gwella ei brosesau sicrhau a rheoli prosiectau ac wedi cynnal rhagor o hyfforddiant staff i leihau'r tebygolrwydd o broblemau prisiau trosglwyddo yn y dyfodol.

Rydym yn croesawu'r newidiadau mae'r BBC yn eu gwneud i'w brosesau ac mewn egwyddor dylent roi sylw i'r materion sy'n cael eu codi ar sail sy'n edrych tua'r dyfodol. Fodd bynnag, bydd yn bwysig monitro eu gweithrediad er mwyn sicrhau bod y prosesau newydd yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd gennym. Yn ein hymgynghoriad ar gystadleuaeth rydym hefyd yn cynnig mân newidiadau i'r rheolau Masnachu a Gwahanu i roi mwy o eglurder ynghylch y gweithgareddau mae ein rheolau'n berthnasol iddynt ac i sicrhau bod y BBC yn gwreiddio'r newidiadau mae'n eu gwneud i ymateb i'n hadolygiad.

**Asesiadau o newidiadau i weithgareddau masnachol**

Eleni, rydym wedi ystyried trosglwyddo staff cynhyrchu rhaglenni plant mewnol y BBC i BBC Studios. Penderfynodd y BBC ym mis Tachwedd 2021 nad oedd hwn yn newid perthnasol ac roeddem yn

[194] *Gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC: gofynion a chanllawiau*, Ofcom, 15 Gorffennaf 2021. Dyma fersiwn cyfunol answyddogol y canllawiau a'r gofynion Masnachu a Gwahanu. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, yn achos unrhyw wahaniaeth rhwng testunau, bydd y testun a nodir yn y cyhoeddiad ar 11 Chwefror 2019 ac unrhyw ddogfennau dilynol a gyhoeddir ar wefan Ofcom yn cael blaenoriaeth. Cafodd addasiadau eu gwneud i'r gofynion Masnachu a Gwahanu yn natganiad llinellau busnes BBC Studios, 30 Ebrill 2021. Dylid darllen y gofynion Masnachu a Gwahanu ochr yn ochr â'r dogfennau dilynol a gyhoeddwyd ar wefan Ofcom.

cytuno â'r asesiad hwn. Byddwn yn parhau i fonitro effaith y cam hwn i sicrhau bod cystadleuaeth deg ac effeithiol yn parhau wrth gomisiynu cynnwys i blant. Dyma un o feysydd pwysicaf darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a'r BBC yw'r comisiynydd cynnwys plant mwyaf yn y DU.[195]



[195] Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n gyfrifol am y gyfran fwyaf o raglenni plant gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf. Y BBC yw'r comisiynydd cynnwys plant mwyaf ymysg darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Adroddiad *Cyfryngau'r Genedl* 2022.

# Safonau o ran cynnwys

## Crynodeb

- Mae nifer y cwynion yn dal yn uchel, er ein bod wedi gweld gostyngiad bach yn nifer y cwynion i'r BBC ac Ofcom, sy'n cyd-fynd â nifer y cwynion ar draws y sector yn disgyn yn dilyn pandemig Covid-19.
- Rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod y BBC yn fwy tryloyw o ran didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy.
- Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod wedi ymrwymo i wneud newidiadau i'w brosesau delio â chwynion ac mae wedi dweud y bydd yn cyflwyno gwelliannau amrywiol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r BBC i ddeall manylion ei newidiadau arfaethedig a byddwn yn monitro'r broses o'u rhoi ar waith yn ofalus i weld a ydynt yn mynd i'r afael â phryderon cynulleidfaoedd.
- Mae'r BBC wedi gwneud cynnydd ers Adolygiad Serota ac yn erbyn ei Gynllun Gweithredu ar Safonau Golygyddol, a bydd Ofcom yn parhau i bwyso ar y BBC i gynnal momentwm yn y maes hwn.

## Gorfodi safonau cynnwys y BBC yn 2021/22

Mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio pob rhan o safonau cynnwys y BBC[196], gan gynnwys cywirdeb dyladwy newyddion a didueddrwydd dyladwy newyddion a materion cyfoes. Rydym yn gwneud hyn drwy ein Cod Darlledu ('y Cod'), sy'n nodi'r safonau rydym yn mynnu bod pob darlledwr (gan gynnwys y BBC) yn eu bodloni. Mae gan y BBC ei Ganllawiau Golygyddol ei hun hefyd, sy'n ymgorffori gofynion y Cod, ond sy'n wahanol ac yn mynd ymhellach mewn rhai meysydd.

Fel arfer, rhaid cyflwyno cwynion am gynnwys a rhaglenni'r BBC i'r BBC yn gyntaf[197] yn unol â system gwynion BBC yn Gyntaf fel y nodir gan y Senedd Brydeinig yn Siarter a Chytundeb y BBC. Mae ein Fframwaith Gweithredu ar gyfer y BBC (ac Adroddiadau Blynyddol blaenorol ar y BBC) yn nodi ein rôl o ran rheoleiddio safonau cynnwys y BBC. Rydym hefyd wedi pennu gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion a gyfeirir atom am raglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC.

Yn 2021/22, rydym o'r farn bod y BBC wedi bodloni'r safonau rydym yn eu disgwyl gan ddarlledwyr ar y cyfan. Fodd bynnag, roeddem wedi cofnodi un achos o'r BBC yn torri ein Cod Darlledu yn ystod y cyfnod adrodd.[198] Yn yr adroddiad hwn, rydym hefyd yn ystyried achosion mwy diweddar o'r BBC yn torri ein Cod Darlledu, sydd y tu allan i gyfnod adrodd 2021/22.

Ar lefel fwy strategol, roedd ein hadolygiad diweddar ym mis Mehefin wedi ystyried y ffordd mae'r BBC yn delio â chwynion gan gynulleidfaoedd, yn ogystal â chanfyddiadau cynulleidfaoedd ynghylch didueddrwydd dyladwy'r BBC. Daethom i'r casgliad bod angen gwneud nifer o newidiadau i sicrhau

---

[196] Mae'r cylch gwaith hwn wedi'i nodi yn Siarter a Chytundeb y BBC. Mae cylch gwaith Ofcom yn berthnasol i wasanaethau cyhoeddus perthnasol y BBC yn y DU ond nid yw'n ymestyn i gynnwys arall y BBC, er enghraifft ar BBC World Service. Felly, mae ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC yn cyfeirio at safonau cynnwys i'r graddau y maent yn ymwneud â chynnwys ar wasanaethau cyhoeddus perthnasol y BBC yn y DU.

[197] Nid yw hyn yn berthnasol i gwynion am Degwch a Phreifatrwydd, y dylid eu cyflwyno'n uniongyrchol i Ofcom.

[198] Rhifyn o BBC News a ddarlledwyd ar 26 Chwefror 2022, yr ymchwiliwyd iddo am gywirdeb dyladwy (y canfu ei fod wedi torri Rheolau 5.1 a 5.2), yn ymwneud â Sarah Smith yn honni bod Alex Salmond wedi dweud bod Prif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon, wedi *"torri cod y gweinidogion"* a'i fod yn credu y dylai ymddiswyddo.

bod proses gwynion y BBC yn gweithio'n dda i gynulleidfaoedd, ac i sicrhau bod y BBC yn fwy tryloyw o ran didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy.


Yn yr adran hon, rydym yn trafod:

- system BBC yn Gyntaf ar waith yn 2021/22; a
- goruchwyliaeth strategol Ofcom o'r ffordd mae'r BBC yn gorfodi safonau cynnwys (gan gynnwys didueddrwydd dyladwy) ac yn delio â chwynion, a'r cynnydd mae'r BBC wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd yn adolygiad mis Mehefin.

## System BBC yn Gyntaf ar waith yn 2021/22

Cafodd system gwynion BBC yn Gyntaf ei sefydlu er mwyn i'r BBC allu cadw cysylltiad agos â'i gynulleidfaoedd a'u pryderon. Mae ffigur 4 isod yn dangos dau gam y broses. Dim ond ar ôl cwblhau'r camau hyn gyda'r BBC y gall y sawl sy'n cwyno gyflwyno ei gŵyn i Ofcom fel arfer.

**Ffigur 4: Y broses ar gyfer cynulleidfaoedd sydd wedi cwyno am y BBC**




Mae ystadegau cwynion y BBC ei hun ar gyfer 2021/22 yn dangos ei fod wedi cael tua 28,000 yn llai o gwynion nag yn y flwyddyn flaenorol. Ond roedd hyn yn dal yn llawer mwy na chyfartaledd blynyddol y BBC yn y tymor hir.[199] Mae'r amser ymateb ar gyfer ateb cwynion Cam 1 o fewn y targedau DPA a bennwyd gan Ofcom wedi gwella ymhellach, edrychwch ar Ffigur 5 isod.

Ffigur 5: Cwynion Cam 1 i'r BBC

| | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|
| **Cwynion Cam 1 y BBC[200]** | 462,255 | 433,572 |
| **Cwynion a gafodd eu hateb o fewn yr amserlen benodedig o ddeg diwrnod gwaith (targed a osodwyd gan Ofcom 93%)** | 93% | 95% |

Rhan allweddol o system BBC yn Gyntaf yw'r ymchwiliadau a wneir yng Ngham 2 proses gwynion y BBC. Mae canlyniadau'r ymchwiliadau hyn fel arfer yn ffurfio ymateb terfynol y BBC i gwynion ac maent yn cael eu cynnal gan Uned Cwynion Gweithredol y BBC. Mae gan yr Uned Cwynion Gweithredol gyfrifoldeb i ystyried cwynion yn ddiduedd ac yn annibynnol ar fuddiannau gwneuthurwyr rhaglenni a darparwyr cynnwys y BBC. Nod yr Uned Cwynion Gweithredol yw cwblhau

[199] Adroddiad Pwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol y BBC. t.129
[200] Adroddiad Pwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol y BBC. t.129


80% o'i hymchwiliadau o fewn ei hamseroedd ymateb targed o 20 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion Cam 2 safonol a 35 diwrnod gwaith ar gyfer cwynion Cam 2 mwy cymhleth. Yn 2021/22, dywedodd y BBC fod 87% o gwynion wedi dod i ben ar y cam hwn yn y targedau hyn.[201]

O'r ymchwiliadau a gynhaliodd yn ystod y cyfnod adrodd, dywedodd y BBC fod yr Uned Cwynion Gweithredol wedi canfod 41 achos o dorri safonau golygyddol, lle nad oedd ei Ganllawiau Golygyddol wedi cael eu bodloni.[202]

Os bydd y sawl sydd wedi cwyno'n dal yn anfodlon â phenderfyniad terfynol y BBC, gall gyfeirio'r mater at Ofcom.[203] Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 daeth 3,074 o gwynion i law am gynnwys y BBC. O'r rhain, roedd 160 wedi cwblhau proses gwynion y BBC yn gyntaf (fe wnaethom gyfeirio'r gweddill yn ôl at y BBC).

Fel y nodwyd gennym yn Adroddiad Blynyddol y llynedd ar y BBC, mae'n bosibl nad yw cyfradd isel y cwynion sy'n cael eu huwchgyfeirio at Ofcom yn dangos bod proses BBC yn Gyntaf yn gweithio'n dda; efallai mai ffactorau eraill sy'n gyfrifol am hyn hefyd. Er enghraifft, roedd ymchwil cynulleidfa BBC yn Gyntaf a'r ymarfer siopa dirgel a gynhaliwyd gennym fel rhan o'n Hadolygiad ym mis Mehefin yn awgrymu y gallai fod yn ganlyniad i rwystredigaeth ynghylch sut mae'r BBC wedi delio â phryderon cynulleidfaoedd. Fel rhan o'r ymchwil hwn, fe wnaethom ganfod materion yn ymwneud ag amseroldeb, tôn ac eglurder Cam 1b. Fel yr amlinellir ymhellach isod, mae'r BBC felly wedi ymrwymo i wneud newidiadau i Fframwaith Cwynion y BBC.

**Ffigur 6: Trosolwg o gwynion yr ymdriniwyd â nhw o dan system BBC yn Gyntaf yn 2021/22**




[201]Adroddiad Pwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol y BBC, t.129. 80% yw targed cydymffurfio Ofcom yn y maes hwn.
[202]Adroddiad Pwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol y BBC, t.130. Mae hyn yn cynnwys achosion a fyddai wedi bod y tu allan i gylch gwaith rheoleiddio Ofcom. Nododd y BBC hefyd ddau achos difrifol o dorri'r rheolau golygyddol yr ymchwiliwyd iddynt y tu allan i'r broses gwyno arferol (nid oedd y naill na'r llall o fewn cylch gwaith rheoleiddio Ofcom).
[203] Mae achwynwyr hefyd yn gallu dod at Ofcom os ydynt yn meddwl, ar ôl i'r BBC ddatrys cwyn, y gallai sancsiwn fod yn briodol, neu os yw'r BBC wedi methu datrys cwyn yn y cyfnod a nodir yn ei weithdrefnau.

O’r tri ymchwiliad safonau a lansiwyd yn 2021/22 roedd un yn ymwneud â rhifyn o *BBC News* a ddarlledwyd ar 26 Chwefror 2021 (un gŵyn).[204] Arweiniodd hyn at yr un achos o dorri’r rheolau a gofnodwyd gennym yn 2021/22 a oedd yn ymwneud â’n rheolau cywirdeb dyladwy (roeddem o’r farn bod y BBC wedi torri Rheolau 5.1 a 5.2 y Cod). Yn yr achos hwn, roedd un o newyddiadurwyr y BBC wedi honni bod Alex Salmond wedi dweud bod Prif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon, wedi torri cod y gweinidogion; ac yna wedi dweud “*yr oedd ef* [h.y. Mr Salmond] *yn meddwl bod hynny’n golygu y dylai hi* [h.y. Ms Sturgeon] *ymddiswyddo*” (pan nad oedd Mr Salmond wedi dweud hyn mewn gwirionedd). Yn ein penderfyniad a gyhoeddwyd gennym, roeddem wedi dweud y dylai’r BBC ddiwygio ei Ganllawiau Golygyddol i egluro y dylai camgymeriadau sylweddol fel arfer gael eu cydnabod a’u cywiro ar yr awyr yn gyflym, yn arbennig ym mhob rhaglen newyddion, ac y dylai cywiriadau gael eu trefnu’n briodol, fel sy’n ofynnol gan Reol 5.2 y Cod. Roeddem hefyd wedi mynegi pryderon am agweddau ar y ffordd roedd y BBC wedi delio â’r gŵyn yn yr achos hwn, ac rydym yn disgwyl i’r BBC roi sylw iddynt.

## Sicrhau didueddrwydd dyladwy rhaglenni'r BBC

Mae Canllawiau Golygyddol y BBC ei hun yn amlinellu bod ei ymrwymiad i ddidueddrwydd dyladwy yn *“hanfodol i’n henw da, ein gwerthoedd ac ymddiriedaeth cynulleidfaoedd”* ac mae’r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi ailddatgan bod didueddrwydd yn dal yn flaenoriaeth i’r BBC. Yn unol â’r duedd gyffredinol, mae cwynion i Ofcom am ddidueddrwydd dyladwy y BBC wedi gostwng dros y flwyddyn ddiwethaf. Cafodd Ofcom 594 o gwynion yn 2021/22 am ddidueddrwydd dyladwy cynnwys y BBC (19% o holl gwynion am y BBC i Ofcom) o’i gymharu â 1,530 yn y flwyddyn flaenorol (28%). O’r 594 o gwynion a ddaeth i law yn 2021/22, ni ddilynwyd/ni dderbyniwyd 55 ohonynt gan nad oeddem o’r farn eu bod wedi codi materion yr oedd angen ymchwilio iddynt, cafodd dau eu cyfeirio ar gyfer ymchwilio iddynt a chafodd y 537 arall eu cyfeirio’n ôl at y BBC i gwblhau proses gwynion y BBC.

Fel y gwnaethom egluro yn ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf ar y BBC, dim ond un o’r ffyrdd o orfodi safonau didueddrwydd dyladwy ar wasanaethau’r BBC yw ymchwiliad gan Ofcom, o dan system BBC yn Gyntaf. Yn ystod 2021/22, o’r 14 achos a gafodd eu cadarnhau neu eu cadarnhau’n rhannol gan Uned Cwynion Gweithredol y BBC, roedd tri yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy, sef yr un nifer ag yn 2020/21.[205] Ers dechrau cyfnod y Siarter yn 2017, mae Uned Cwynion Gweithredol y BBC wedi cadarnhau 25 achos yn llwyr neu’n rhannol (allan o gyfanswm o 125) lle canfu nad oedd y safon briodol ar gyfer didueddrwydd dyladwy wedi cael ei bodloni.[206] Un achos, a oedd yn cynnwys rhifyn o *World at One* (edrychwch ar y blwch isod), oedd y tro cyntaf ers i ni ddechrau rheoleiddio’r BBC yn 2017, i ni ganfod bod y BBC wedi torri ein rheolau didueddrwydd dyladwy.

---

[204] Roedd y ddau ymchwiliad safonau arall a lansiwyd yn 2021/22 yn ymwneud â rhifyn o The World at One, BBC Radio 4, 24 Chwefror 2021 (edrychwch ar yr astudiaeth achos isod); a rhifyn o BBC London News a ddarlledwyd ar 2 Rhagfyr 2021 (edrychwch ar yr astudiaeth achos isod). Cafodd y ddau benderfyniad eu cyhoeddi y tu allan i gyfnod adrodd 2021/22.

[205] Nid yw’r ffigurau hyn yn cynnwys achosion y tu allan i gylch gwaith Ofcom.

[206] Nid yw’r ffigurau hyn yn cynnwys achosion y tu allan i gylch gwaith Ofcom.

## *World at One*, BBC Radio 4, 24 Chwefror 2021, 13:00

Roedd y rhifyn hwn o *World at One* yn delio â materion yn ymwneud â'r anghydfod a oedd yn parhau ar y pryd rhwng Llywodraeth yr Alban, gan gynnwys y Prif Weinidog presennol Nicola Sturgeon, a'r cyn Brif Weinidog Alex Salmond, ynghylch y ffordd yr oedd Llywodraeth yr Alban wedi delio â chwynion am aflonyddu yn erbyn Alex Salmond ac ymchwiliad Holyrood a gynhaliwyd yn sgil hynny.

Cafodd Ofcom gŵyn, a oedd wedi bod drwy broses BBC yn Gyntaf, ynghylch diffyg didueddrwydd dyladwy yn y rhaglen a dewis y Farwnes Ruth Davidson fel yr unig un a gafodd gyfweliad. Ni wnaeth Uned Cwynion Golygyddol y BBC gadarnhau'r honiadau.

Penderfynodd Ofcom fod Adran Pump o'r Cod (cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy) yn berthnasol yn yr achos hwn ac, yn benodol, bod yr honiadau o lygredd posibl yn sefydliadau Llywodraeth yr Alban ac ymddygiad llwgr honedig gan Lywodraeth yr Alban o dan arweiniad yr SNP a oedd yn y rhaglen yn "*fater gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a mater o bwys mawr sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol*". Roedd Ofcom o'r farn bod y stori hon, a'r honiadau a oedd yn cael eu gwneud, yn ddadleuol iawn ac o bwysigrwydd cenedlaethol, yn yr Alban ac yng ngweddill y DU. Roedd hyn yn arbennig o wir oherwydd bod y rhaglen wedi cael ei darlledu yn ystod y cyfnod cyn etholiadau yn yr Alban. Felly, roedd Ofcom wedi asesu a oedd didueddrwydd dyladwy wedi cael ei gynnal yn y rhaglen newyddion hon o dan Adran Pump y Cod.

Roedd y cyfweliad a recordiwyd ymlaen llaw gyda Ruth Davidson yn cynnwys sylwadau beirniadol iawn ac yn nodi honiadau sylweddol am yr SNP, Llywodraeth yr Alban, yr Arglwydd Adfocad a Nicola Sturgeon. Roedd hyn yn cynnwys y ffaith bod cwestiynau wedi cael eu codi am "*lygredd*" mewn perthynas â Llywodraeth yr Alban, swyddogion a strwythur democratiaeth a bod cwestiynau ynghylch a oedd Prif Weinidog yr Alban wedi "*camarwain y Senedd*." Roedd Ofcom o'r farn bod y BBC wedi methu â chyflwyno amrywiaeth briodol o safbwyntiau a rhoi pwys dyladwy iddynt yn y rhaglen ei hun, neu mewn rhaglenni a oedd yn amlwg yn gysylltiedig.

Penderfyniad Ofcom oedd bod y BBC wedi methu â sicrhau didueddrwydd dyladwy wrth roi sylw i'r materion perthnasol a oedd yn faterion gwleidyddol dadleuol o bwys ac yn faterion pwysig yn ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol yr ymdriniwyd â nhw yn y rhaglen hon ac felly roedd yn torri Rheolau 5.1, 5.11 a 5.12 y Cod.[207]

[207] Er bod Ofcom wedi lansio ei ymchwiliad i'r achos hwn yn ystod 2021/22, fe wnaethom gyhoeddi ein penderfyniad ar ôl diwedd y flwyddyn perfformiad yn rhifyn 455 ein *Bwletin Broadcast and On-Demand* ar 25 Gorffennaf 2022.

## Cwynion am degwch a phreifatrwydd

Mae gan Ofcom ddyletswydd i ddyfarnu ynghylch cwynion sy’n cael eu gwneud gan unigolion neu sefydliadau sy’n cymryd rhan mewn rhaglenni a ddarlledir, neu a oedd yn rhan o wneud rhaglenni, neu y mae’r rhaglenni hynny’n effeithio arnynt yn uniongyrchol.[208] Gelwir y rhain yn gwynion tegwch a phreifatrwydd. Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, fe wnaethom ddelio â 39 o gwynion yn erbyn rhaglenni'r BBC am honiadau o driniaeth anghyfiawn neu annheg, neu am dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad, o’i gymharu â 48 yn y flwyddyn flaenorol. O’r rhain, cafodd un gŵyn ei chyfeirio ar gyfer ymchwiliad i benderfynu a oedd y Cod wedi cael ei dorri, o’i gymharu â phump yn y flwyddyn flaenorol.[209]

## Cwynion am ddeunyddiau ar-lein

Ym mis Mai 2017, ymrwymodd Ofcom a’r BBC i drefniant lle mae Ofcom yn gallu ystyried a rhoi ‘Barn’ annibynnol ynghylch a wnaeth y BBC lynu wrth Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC yn ei ddeunyddiau ar-lein. Mae deunydd ar-lein yn cynnwys testun, delweddau, fideo a sain ar wefan ac apiau’r BBC. Nid yw hyn yn ymestyn i gynnwys cyfryngau cymdeithasol y BBC. Eleni, cawsom 429 o gwynion am ddeunyddiau ar-lein y BBC, o’i gymharu â 599 y llynedd. O’r cwynion hyn, cafodd 368 eu cyfeirio’n ôl at y BBC o dan BBC yn Gyntaf a chafodd 46 eu cau fel rhai ‘heb eu derbyn’ ar ôl cael eu hasesu gan Ofcom, sy’n golygu nad oeddem o’r farn bod y gŵyn yn codi materion posibl o dan Ganllawiau Golygyddol y BBC ac felly nid oedd yn cyfiawnhau ymchwiliad pellach gan Ofcom. Roeddem wedi derbyn dwy gŵyn er mwyn darparu Barn Ofcom, gan gynnwys yr astudiaeth achos isod, sydd y tu allan i’r cyfnod adrodd, ond mae’n bwysig tynnu sylw ati.

[208] Nid yw'r system BBC yn Gyntaf yn berthnasol i gwynion tegwch a phreifatrwydd, ac yn wahanol i gwynion am safonau cynnwys y BBC, mae modd cyfeirio’r rhain at Ofcom yn y lle cyntaf.
[209] Roedd yr ymchwiliad hwn yn ymwneud â rhifyn o *Inside Out West*, a ddarlledwyd ar 9 Mawrth 2020. Ni chafodd y gŵyn ei chadarnhau.

## BBC News Online a BBC London News 2 Rhagfyr 2021 (cyhoeddwyd ar-lein) a 2 Rhagfyr 2021, 18:30 (darllediad)

Ar 29 Tachwedd 2021, dioddefodd grŵp o fyfyrwyr Iddewig ymosodiad gwrth-Semitaidd wrth deithio ar fws yn Llundain. Rhoddodd y BBC wybod am y digwyddiad hwn mewn erthygl gan BBC News Online ac mewn adroddiad newyddion a ddarlledwyd ar BBC One London (roedd y darllediad hefyd ar gael ar BBC iPlayer am 24 awr ar ôl ei ddarlledu). Tynnwyd sylw Ofcom at y cynnwys hwn yn sgil nifer o gwynion nad oedd yr erthygl ar-lein na'r darllediad newyddion yn ddigon cywir nac yn ddigon diduedd. Cododd y materion hyn o ganlyniad i honiad y BBC yn y ddau ddarn o gynnwys fod recordiad sain a wnaed yn ystod yr ymosodiad yn cynnwys pethau sarhaus yn erbyn Mwslimiaid – a ddiwygiwyd yn ddiweddarach yn yr erthygl ar-lein i'r "rywbeth sarhaus" unigol – a ddaeth o'r tu mewn i'r bws.

Cyhoeddodd Ofcom Farn ar yr Erthygl Ar-lein nad oedd y BBC wedi cydymffurfio â'i Ganllawiau Golygyddol ar ddidueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy. Barn Ofcom oedd bod y BBC wedi methu â chydnabod yn brydlon bod anghydfod ynghylch ei ddehongliad o'r sain, ar ôl iddo gael tystiolaeth i gefnogi esboniad amgen bod y geiriau roedd wedi'u clywed yn ymadrodd Hebraeg mewn gwirionedd, a oedd yn golygu "Ffoniwch rywun, mae'n fater brys". Roedd Ofcom o'r farn bod methiant y BBC i adlewyrchu'r anghydfod hwn am bron i wyth wythnos yn gamgymeriad sylweddol a phryderus.

Yn ein hymchwiliad i'r darllediad newyddion ar BBC One, roeddem wedi ystyried yr wybodaeth a oedd ar gael yn rhesymol i'r BBC adeg ei ddarlledu, yn ogystal â'r ffaith bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar yr ymosodiad gwrth-Semitaidd. Daeth Ofcom i'r casgliad nad oedd y rhaglen, ar yr adeg y cafodd ei darlledu ac am y cyfnod o 24 awr yr oedd ar gael ar BBC iPlayer, yn torri'r Cod.  Fodd bynnag, ym marn Ofcom, gwnaeth y BBC gamgymeriad golygyddol difrifol drwy beidio ag adrodd ar yr awyr, ar unrhyw adeg, fod yr honiad yr oedd wedi'i wneud am y pethau sarhaus gwrth-Fwslimaidd wedi cael ei herio, ar ôl i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg. Roedd hyn yn arbennig o wir o ystyried bod y BBC yn ymwybodol bod ei ddarllediad newyddion a'i erthygl ar-lein yn achosi trallod a phryder sylweddol i ddioddefwyr yr ymosodiad, ac i'r gymuned Iddewig ehangach. Ym marn Ofcom, petai'r BBC wedi cyflwyno adroddiad ar yr anghydfod ar yr awyr ac wedi diwygio'r erthygl ar-lein yn gynt nag y gwnaeth ar ôl i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg, gallai hyn fod wedi helpu rhywfaint i ddatrys y materion a godwyd gan y rheini a oedd wedi cwyno a byddai wedi galluogi i'r sylw ganolbwyntio ar y digwyddiad gwrth-Semitaidd ei hun, ac nid ar adroddiadau'r BBC.

Bydd Ofcom yn adolygu sut mae'r BBC wedi mynd i'r afael â'r materion tryloywder a delio â chwynion a godwyd gan yr achos hwn, gan gynnwys pa newidiadau y mae wedi'u gwneud i reoli achosion sy'n golygu bod angen iddo wneud cywiriadau ac egluro cynnwys.

## Dal y BBC i gyfrif i wneud i BBC yn Gyntaf weithio'n well i gynulleidfaoedd

Mae Ofcom yn monitro sut mae system BBC yn Gyntaf yn gweithio yn barhaus i sicrhau ei bod yn gweithio er budd y rhai sy'n talu ffi'r drwydded. Yn y blwch isod rydym yn trafod dau fater rydym wedi tynnu sylw'r BBC atynt ers ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf ar y BBC (ar wahân i adolygiad mis Mehefin) fel materion sy'n peri pryder i ni a allai atal system BBC yn Gyntaf rhag gweithredu'n ddidrafferth.

**Cwynion i'r BBC lle bu oedi**

Yn unol â gweithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC, mae'r rheini sydd wedi cwyno eu bod wedi wynebu oedi wrth fwrw ymlaen â'u cwyn drwy broses gwynion y BBC yn gallu cyfeirio eu cwyn at Ofcom. Gelwir y rhain yn 'Gwynion i'r BBC lle bu oedi.' Yn unol ag egwyddor BBC yn Gyntaf, rydym yn ffafrio rhoi cyfle terfynol i'r BBC roi ei farn derfynol i ni ar achos cyn i ni ei asesu o dan ein rheolau ni. Pan fyddwn yn cael cwyn lle bu oedi, byddwn yn gofyn i'r BBC am ddiweddariadau ar yr achos sydd wedi'i oedi ac yn trosglwyddo'r wybodaeth hon yn ôl i'r sawl a wnaeth gwyno, lle bo hynny'n briodol. Rydym hefyd yn ystyried a oes modd cyfiawnhau ymyrryd am unrhyw reswm arall.

Er mai dim ond llond llaw o gwynion lle bu oedi a welsom yn ystod cyfnod cynnar y Siarter, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion o'r fath a gyflwynwyd i Ofcom yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn ystod cyfnod etholiad 2019 a thrwy gydol pandemig Covid-19. Mae wedi bod yn anodd i ni ddatrys nifer o'r cwynion hyn i'r BBC lle bu oedi mewn modd amserol oherwydd pa mor araf mae'r BBC wedi bod yn ein diweddaru am yr achosion hyn hyd yma.

Fe wnaethom fynegi ein pryderon wrth y BBC, ac ers hynny mae wedi cymryd camau i glirio'r ôl-groniad o achosion lle bu oedi.

**Ceisiadau am recordiadau**

Er mwyn i ni asesu Safonau Cynnwys a chwynion ynghylch Tegwch a Phreifatrwydd am gynnwys y BBC, mae angen i ni asesu recordiadau o'r cynnwys hwnnw. Felly, o dan Atodlen 3: Paragraff 10 o Gytundeb y BBC ("Cadw a chynhyrchu recordiadau") mae'n rhaid i'r BBC gadw recordiad o bob rhaglen, ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio ag unrhyw gais i gyflwyno recordiadau o'r fath i Ofcom i'w harchwilio neu eu hatgynhyrchu.

Am gyfnod o fisoedd eleni, fe wnaethom nodi nifer o achosion lle bu oedi hir wrth ddarparu recordiadau, neu pan oedd recordiadau anghywir wedi cael eu darparu i ni i ddechrau. Mae hyn wedi effeithio ar ein gallu i asesu'n brydlon y cynnwys y gwnaed cwynion amdano.

Yn ddiweddar, mae'r BBC wedi gwella yn y maes hwn. Fodd bynnag, yn unol â'n Nodyn diweddar i ddarlledwyr ar gadw a chynhyrchu recordiadau, ni fyddwn yn oedi cyn cymryd camau rheoleiddio pellach yn erbyn y BBC os bydd angen.

## Goruchwyliaeth strategol Ofcom o'r ffordd mae'r BBC yn gorfodi safonau cynnwys (gan gynnwys didueddrwydd dyladwy) a delio â chwynion

Yn ein hadolygiad ym mis Mehefin, sef ein cyfle cyntaf ers dechrau rheoleiddio'r BBC yn 2017, roeddem wedi ystyried cydymffurfiad y BBC â'r Cod ar lefel strategol a sut mae'n delio â chwynion am ei gynnwys, a sut mae system BBC yn Gyntaf yn gweithio yn ehangach. Oherwydd pwysigrwydd didueddrwydd dyladwy yng Nghenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC, roeddem hefyd wedi defnyddio'r adolygiad hwn i fesur canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy'r BBC.

Daethom i'r casgliad, er mwyn sicrhau bod proses gwynion BBC yn Gyntaf yn gweithio'n dda i gynulleidfaoedd, a'i bod yn hawdd ei defnyddio a'i bod yn fwy tryloyw, bod angen gwneud nifer o newidiadau. Felly, fe wnaethom gymryd cyfres o gamau fel rhan o'n hadolygiad ym mis Mehefin:

- Fe wnaethom ddiwygio ein Penderfyniadau ar Ddelio â Chwynion[210], gan gynnwys mynnu bod y BBC yn cyhoeddi ei resymau dros yr holl gwynion ynghylch didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy sy'n cyrraedd cam olaf ei broses gwyno. Yn ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf ar y BBC, fe wnaethom ddweud nad oedd y BBC wedi cyhoeddi unrhyw un o'i ganfyddiadau 'heb eu cadarnhau' yng Ngham 2 ers cyhoeddi ein Penderfyniadau ynghylch Cwynion ym mis Gorffennaf 2020 (lle cafodd y gofynion i gyhoeddi rhai o ganfyddiadau Cam 2 eu nodi). Fodd bynnag, yn dilyn ein hadolygiad diweddaraf o'r Penderfyniadau ynghylch Cwynion, yn y cyfnod rhwng 4 Gorffennaf a 21 Tachwedd 2022, cyhoeddodd y BBC 67 o gwynion 'heb eu cadarnhau' (o gyfanswm o 86) a oedd yn bodloni'r gofynion diwygiedig yn ein Penderfyniadau. Cyhoeddwyd pob un ond un oherwydd eu bod yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy neu gywirdeb dyladwy (roedd y llall wedi derbyn dros 100 o gwynion yng Ngham 1).
- Fe wnaethom ofyn i'r BBC roi gwybod i Ofcom yn gynnar am achosion difrifol posibl o dorri'r rheolau golygyddol ar draws ei gynnwys. Bydd hyn yn caniatáu i ni graffu'n well ar sut mae proses gwynion y BBC yn gweithio'n ymarferol, ac os bydd angen, ymyrryd yn gynnar i ddiogelu cynulleidfaoedd. Nid yw Ofcom wedi cael gwybod am unrhyw achosion difrifol posibl o dorri'r rheolau golygyddol ers cyhoeddi ein datganiad ym mis Mehefin. Fodd bynnag, mae'r BBC wedi ailddatgan ei ymrwymiad i roi gwybod i ni am unrhyw achos difrifol posibl o dorri'r rheolau golygyddol cyn gynted ag y bo modd yn rhesymol ar ôl iddo ddod yn ymwybodol ohonynt a byddwn yn gweithio i sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei roi ar waith. Mae'r BBC hefyd wedi cytuno i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gwynion golygyddol difrifol ac arwyddocaol posibl sy'n ymwneud ag etholiadau yn ystod cyfnodau etholiadau a refferenda.
- Rydym wedi pwyso ar y BBC i wella hyder y cyhoedd yn ei agwedd at ddidueddrwydd dyladwy. Mae hyn yn tanlinellu ein hymrwymiad i fonitro sut gweithredir canfyddiadau Adolygiad Serota a'r Cynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol, ac i ddatblygu cysylltiadau agosach rhwng Ofcom a Phwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol y BBC.
- Fe wnaethom gyhoeddi ein hymchwil ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o BBC yn Gyntaf a didueddrwydd dyladwy. Fe wnaethom gyhoeddi cynlluniau i gynnal adolygiad pellach o system BBC yn Gyntaf cyn diwedd y Siarter bresennol i asesu effaith y newidiadau roeddem wedi'u gwneud (edrychwch uchod) ac unrhyw newidiadau a wnaed gan y BBC mewn ymateb i'n hadolygiad. Roeddem hefyd wedi ymrwymo i ddiweddaru ein hymchwil ar ganfyddiadau

[210] Mae ein Penderfyniadau ar Ddelio â Chwynion yn nodi'r wybodaeth rydym yn gofyn i'r BBC ei chyhoeddi a'i darparu i ni am sut mae system BBC yn Gyntaf yn gweithio.

cynulleidfaoedd o broses gwynion y BBC a didueddrwydd dyladwy'r BBC yn ystod y ddwy i dair blynedd nesaf.

**Y cynnydd mae'r BBC wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r heriau o ran delio â chwynion a didueddrwydd dyladwy**

Fel y trafodwyd uchod, mae ein gwaith ymchwil ar ganfyddiadau'r gynulleidfa o BBC yn Gyntaf wedi dangos bod angen gwneud gwelliannau sylweddol i system gwynion BBC yn Gyntaf, er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion y gynulleidfa. Mae'r BBC wedi dweud wrthym ei fod wedi ymrwymo i wneud newidiadau i'w brosesau delio â chwynion, ac mae wedi dweud y bydd yn cyflwyno gwelliannau i: adnewyddu ymdrechion i ganoli'r broses o ddelio â chwynion fel bod pob achwynydd yn cael ei drin mewn ffordd gyson; gwella prydlondeb ymateb i gwynion yng Ngham 1b; a chynyddu tryloywder y broses gwyno drwy egluro ar bob cam pa gamau nesaf sydd yn y broses gwyno. Mae'n bwysig bod y BBC yn parhau i wneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn. Byddwn yn ymgysylltu â'r BBC i ddeall mwy o'r manylion sy'n sail i'w newidiadau arfaethedig, a byddwn yn monitro sut byddant yn cael eu rhoi ar waith yn ofalus i weld a ydynt yn mynd i'r afael â phryderon cynulleidfaoedd.

Galwodd Adolygiad Serota am "*lai o elfen amddiffynnol a mwy o dryloywder o ran sut mae'r BBC yn ymateb i'r byd y tu allan*." Gwnaeth argymhellion penodol ynghylch delio â chwynion – gan gynnwys y dylai'r BBC gyhoeddi canfyddiadau unrhyw ymchwiliadau i achosion difrifol o dorri Canllawiau Golygyddol y BBC, ynghyd â rhesymau digonol. Roedd Cynllun Gweithredu y BBC ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol, a gyhoeddwyd wedyn ym mis Hydref 2021, yn nodi "*camau gweithredu manwl i sicrhau'r safonau golygyddol uchaf, gan gynnwys didueddrwydd, ar draws holl gynnyrch y BBC*."

Dywedodd y BBC mewn diweddariad cynnydd ym mis Gorffennaf 2022, fod yr holl gamau gweithredu yn ei Gynllun Gweithredu ar Safonau Golygyddol a Didueddrwydd bellach wedi cael eu cwblhau neu ar y gweill, ac mae wedi dweud wrth Ofcom hefyd ers hynny. Mae'r BBC wedi rhoi gwybod i Ofcom bod y camau canlynol wedi cael eu cymryd:

- O ran goruchwylio, mae tîm Polisi Golygyddol y BBC wedi cael ei gryfhau ac wedi cael mwy o gyfrifoldeb i gefnogi gwneuthurwyr cynnwys. Mae gan y BBC bellach system ar gyfer adolygu cynnwys mewnol i asesu i ba raddau y mae cynnwys yn bodloni safonau golygyddol.[211] Mae'r tri adolygiad cyntaf (o *BBC Breakfast*, *Countryfile* a'r rhaglenni newyddion boreol Saesneg yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon) yn parhau a byddant yn cael eu cwblhau ddiwedd 2022.
- Bydd rôl y Cyfarwyddwr Cyffredinol ym mhroses gwynion y BBC yn cael ei egluro yn y Fframwaith Cwynion.
- Cafodd Polisi chwythu'r chwiban y BBC ei wella i gynnwys materion golygyddol ac i roi argymhellion Adolygiad Serota ar waith. Mae wedi bod ar waith ers 1 Gorffennaf 2022. Tynnwyd sylw staff y BBC at y polisi hwn ac mae adnoddau wrthi'n cael eu creu i egluro'r polisi ymhellach.
- Cyhoeddwyd cyfres syml o weithdrefnau ar gyfer ei ymchwiliadau golygyddol ei hun ac ar sut mae'r BBC yn delio â chwynion golygyddol llwybr carlam am gynnwys wedi'i ddarlledu neu ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022.
- Disgwylir canlyniadau'r adolygiad thematig cyntaf ar gynnwys - sy'n cwmpasu trethi yn y DU, gwariant cyhoeddus, culhau a dyledion - yn nes ymlaen yn 2022. Dyma fydd y cyntaf mewn

[211] Yn wahanol i adolygiadau thematig, nid yw'r adolygiadau mewnol hyn yn cael eu cyhoeddi.

cylch parhaus o adolygiadau a fydd yn profi didueddrwydd dyladwy cynnwys y BBC mewn meysydd allweddol o drafodaeth gyhoeddus.

- Mae llywodraethu'n well gan fod Pwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol y BBC wedi newid ei gylch gorchwyl yn unol ag argymhellion Adolygiad Serota.
- O ran tryloywder, gwnaed amrywiaeth o ymrwymiadau i gyhoeddi rhagor o wybodaeth am ymchwiliadau golygyddol a chwynion.

O ran didueddrwydd dyladwy:

- Mae Bwrdd y BBC yn **monitro metrigau didueddrwydd** gan gynnwys cwynion golygyddol, hyfforddiant, canfyddiadau cynulleidfaoedd a data demograffig, ac mae'n cadw golwg ar gamau gweithredu o'r Cynllun Gweithredu.
- Mae naw deg tri y cant o staff wedi cwblhau **hyfforddiant didueddrwydd pwrpasol** ers mis Ionawr 2021. Mae canolfan newydd ar gyfer dysgu am safonau golygyddol wedi cael ei lansio hefyd, a fydd yn ffynhonnell ar gyfer dysgu'n barhaus, ar ffurf canllawiau, erthyglau, fideos a dolenni i gynnwys ffurfiol.
- Mae **dull gweithredu newydd sy'n dwyn ynghyd gwaith ymchwil blaenorol i gynulleidfaoedd** yn cael ei gyflwyno i roi gwybodaeth i staff a llunwyr penderfyniadau am farn cynulleidfaoedd. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach gydag **ymchwil newydd ar ddidueddrwydd**, y bydd y BBC yn ei rannu ag Ofcom.

Er mai mater i Fwrdd y BBC yw sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith, rydym yn bwriadu monitro'r camau gweithredu hyn dros weddill cyfnod y Siarter i sicrhau nad yw'r BBC yn colli momentwm yn y maes pwysig hwn. Rydym yn disgwyl i'r BBC roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni'n rheolaidd am sut mae'n rhoi holl agweddau perthnasol Adolygiad Serota a'r Cynllun Gweithredu ar waith.



# Y camau nesaf a blaenoriaethau allweddol

Yn ystod y flwyddyn nesaf a thu hwnt, byddwn yn parhau i ddal y BBC i gyfrif am gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol, ac i sicrhau safonau golygyddol yn rhaglenni'r BBC.

**Byddwn yn parhau i bwyso ar y BBC i wella ei broses gwyno a mynd i'r afael â chanfyddiadau am ei ddidueddrwydd**

Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, mae'r BBC wedi ymrwymo i wneud newidiadau i'w broses o ddelio â chwynion er mwyn gwella prydlondeb ymatebion a gwneud y broses yn gliriach i gynulleidfaoedd wybod beth i'w wneud. Mae wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n pryderon ynghylch tryloywder ei benderfyniadau ynghylch cwynion. Byddwn yn monitro sut mae'r newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn ofalus i weld a ydynt yn mynd i'r afael â phryderon cynulleidfaoedd a byddwn yn ymgysylltu â'r BBC i ddeall mwy am y manylion sy'n sail i'r newidiadau arfaethedig. Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei ymrwymiad i roi gwybod i ni am achosion difrifol o dorri rheolau golygyddol yn gynnar yn y broses.

Rydym wedi dechrau cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r BBC ar gynnydd yn erbyn ei Gynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol ac Adolygiad Serota, a byddwn yn parhau â'r ymgysylltu hwn. Byddwn yn adolygu tystiolaeth o gamau gweithredu'r BBC yn y ffordd y mae'n delio ag achosion safonau golygyddol, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â'r BBC yn cywiro ac yn esbonio pethau. Rydym hefyd i fod i gwrdd â'r Pwyllgor Safonau a Chanllawiau Golygyddol ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Byddwn yn cadw golwg ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o Fframwaith Cwynion a didueddrwydd dyladwy'r BBC drwy ein hymchwil ni ac ymchwil y BBC. Byddwn hefyd yn ailadrodd yr ymarfer siopwr dirgel a gynhaliwyd ar gyfer ein hadolygiad ym mis Mehefin i ddeall barn cynulleidfaoedd am system gwynion y BBC.

**Rydym yn ymgynghori ar newidiadau i'n canllawiau ar gystadleuaeth**

Heddiw, rydym wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar rai newidiadau arfaethedig i ddiweddaru a symleiddio ein prosesau ar gyfer rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth o dan y Siarter a'r Cytundeb presennol. Rydym hefyd wedi cynnig rhagor o arweiniad ar sut rydym yn disgwyl i'r BBC a rhanddeiliaid ymgysylltu ar newidiadau arfaethedig, yn enwedig yn ystod y broses asesu perthnasedd. Mae'n bwysig bod y BBC yn gwrando ar bryderon rhanddeiliaid, a lle bo'n briodol, yn addasu ei gynlluniau yn unol â hynny. Ar ben hynny, byddwn yn nodi ein barn am yr amodau cystadleuol presennol yn sectorau clyweledol a sain y farchnad, a lefel y risg i gystadleuaeth yn sgil newidiadau i wasanaethau'r BBC yn y meysydd hyn. Bydd ein hymgynghoriad yn dod i ben ar 6 Chwefror 2023, ac rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad erbyn mis Ebrill 2023.

**Byddwn yn darparu Trwydded Weithredu wedi'i moderneiddio ar gyfer y BBC**

Rydym wrthi'n diweddaru Trwydded Weithredu'r BBC i sicrhau ein bod yn gallu dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus ar draws ei holl wasanaethau, gan gynnwys ar-lein, a rhoi mwy o gyfle i'r BBC benderfynu ar y ffordd orau o ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd. Wrth i'r BBC wneud newidiadau i'w wasanaethau, mae'n bwysig ei fod yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o newyddion a chynnwys arall sy'n apelio at gynulleidfaoedd ym mhob rhan o'r DU, ac sy'n berthnasol

iddynt, ni waeth sut maent yn dymuno gwylio neu wrando ar gynnwys. Yn gyfnewid am yr hyblygrwydd ychwanegol hwn i'r BBC, rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol cael mwy o dryloywder am gynlluniau'r BBC a sut mae'n cyflawni yn eu herbyn. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad a wnaeth y BBC yn ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2021/22, i ddarparu adroddiadau gwell ar ei berfformiad ar-lein o'r flwyddyn nesaf ymlaen, ac rydym yn ymgysylltu â'r BBC i gael rhagor o fanylion am yr hyn y bydd hyn yn ei gynnwys.

Rydym yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd gan randdeiliaid ar ein cynigion i foderneiddio'r Drwydded, a byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y mater hwn. Byddwn yn cadarnhau Trwydded Weithredu newydd wedi'i moderneiddio ar gyfer y BBC y flwyddyn nesaf, a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn disgwyl rhoi rhagor o fanylion ynghylch sut rydym yn bwriadu mesur perfformiad y BBC yn y dyfodol, a'r hyn y byddwn yn gofyn iddo adrodd arno yn ei Gynllun Blynyddol a'i Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol.

**Byddwn yn parhau i gymryd rhan ym mhrosesau parhaus y Llywodraeth**

Byddwn yn parhau i ymgysylltu a chyfrannu wrth i'r Llywodraeth fwrw ymlaen â'i Hadolygiad Canol Tymor o'r Siarter i weld a yw trefniadau llywodraethu a rheoleiddio'r BBC yn y Siarter a'r Cytundeb Fframwaith presennol yn effeithiol. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â'r Llywodraeth ar fanylion y ddeddfwriaeth darlledu newydd yn y Bil Cyfryngau arfaethedig.

**Byddwn yn datblygu ein dealltwriaeth fanwl o gynlluniau Digidol yn Gyntaf y BBC**

Rydym yn deall yr heriau sy'n wynebu'r BBC ond byddwn yn parhau i'w annog i egluro sut bydd yn darparu ystod eang o gynnwys o ansawdd uchel yn y DU i holl gynulleidfaoedd y DU, gan gynnwys y rheini sy'n gwylio ac yn gwrando ar gynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth iddo geisio rhoi ei gynlluniau strategol ar waith i ddarparu BBC digidol yn gyntaf.

Rydym yn cydnabod bod hyn yn golygu y bydd yn rhaid i'r BBC wneud mwy gyda llai; bydd hyn yn her y bydd angen iddo ei bodloni os yw am gyflawni ei Genhadaeth. Byddwn yn monitro'r BBC yn agos ac yn parhau â'n sgyrsiau parhaus er mwyn deall ei gynlluniau strategol yn well. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu ar ei gynlluniau i ddod â sianel BBC News a BBC News at ei gilydd fel sianel newydd, a'r newidiadau mae'n bwriadu eu gwneud i wasanaethau a rhaglenni lleol yn Lloegr.

**Byddwn yn lansio adolygiad thematig o sut mae'r BBC yn cysylltu â chynulleidfaoedd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is**


Cenhadaeth y BBC yw gwasanaethu pob cynulleidfa. Er hynny, rydym wedi canfod yn gyson bod rhai grwpiau cynulleidfa yn llai cysylltiedig ac yn llai bodlon â'r BBC. Yn benodol, rydym wedi canfod bod cynulleidfaoedd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, a chynulleidfaoedd anabl, yn llai bodlon. Mae'r rheini sy'n perthyn i grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn cynrychioli bron i chwarter poblogaeth y DU ac maent yn fwy tebygol o fod yn hŷn, yn ddi-waith, wedi ymddeol ar bensiwn y wladwriaeth neu'n anabl. Mae'r ffeithlun yn dangos sut mae eu hymddygiad a'u hagweddau yn cymharu â chynulleidfaoedd mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol eraill. Er enghraifft, mae ganddynt arferion defnyddio cyfryngau sy'n sylfaenol wahanol ac maent yn dibynnu mwy ar wasanaethau darlledu traddodiadol. Mae rhywfaint o gynnwys y BBC yn boblogaidd ymysg y grwpiau hyn, ond yn gyffredinol maent yn defnyddio gwasanaethau'r BBC yn llai na chynulleidfaoedd eraill.

Wrth gyhoeddi'r strategaeth Digidol yn Gyntaf, tynnodd Tim Davie sylw at weledigaeth i gadw'r BBC yn berthnasol a chynnig gwerth i bob cynulleidfa. Mae'r BBC hefyd wedi dweud wrthym ei fod yn cydnabod y bwlch mewn bodlonrwydd ymysg cynulleidfaoedd mewn grwpiau economaidd-

gymdeithasol is ac mae'n comisiynu cynnwys sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddenu'r cynulleidfaoedd hyn. Gall gymryd amser i ganfyddiadau cynulleidfaoedd newid, ond nid ydym eto wedi gweld unrhyw welliannau mewn canfyddiadau yn y maes hwn. Felly, y flwyddyn nesaf byddwn yn cynnal adolygiad thematig yn edrych ar sut mae'r BBC yn gwasanaethu cynulleidfaoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol is.

# Y BBC A GRWPIAU CYMDEITHASOL-ECONOMAIDD IS


## Cyfran darlledwyr o amser gwylio teledu dyddiol





## Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog yn ôl grŵp

| | AB | C1C2 | DE |
|---|---|---|---|
| Teledu'r BBC | 71% | 69% | 68% |
| BBC iPlayer | 46% | 39% | 32% |
| Gwefannau /apiau'r BBC | 62% | 52% | 31% |
| Radio'r BBC | 71% | 61% | 50% |
| BBC Sounds | 17% | 12% | 4% |

## % gyda gradd gadarnhaol gyffredinol o'r BBC




## % gyda gradd gadarnhaol ar gyfer pob diben cyhoeddus




“Mae'n darparu amrywiaeth wych o wasanaethau ar draws nifer fawr o lwyfannau, oll o ansawdd wirioneddol uchel, heb hysbysebion ac ar gyfer pob amrediad oedran”

Dyn, 44 oed, Swydd Efrog a Swydd Lincoln, DE

“Does dim byd ar y gwasanaeth hwn sy'n apelio ataf a dwi'n gyndyn i dalu ffi'r drwydded.”

Dyn, 51 oed, Llundain, DE

“Nid oes ganddynt unrhyw beth dwi eisiau gwylio neu ddarllen. Dim cynnwys sy'n addas i rywun 18-30 oed”

Menyw, 24 oed, Yr Alban, DE

“Ailddarllediadau di-ri. Adrodd â thuedd iddo. Ddim yn cynnig gwerth am arian.”

Dyn, 69 oed, Gogledd-orllewin Lloegr DE

Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2021/22; BARB; RAJAR Ch1 2022 (pwysau chwe mis).